# Y Gymru Gyfoes




This item contains selected online content. It is for use alongside, not as a replacement for the module website, which is the primary study format and contains activities and resources that cannot be replicated in the printed versions.

This publication forms part of the Open University module [module code and title]. [The complete list of texts which make up this module can be found at the back (where applicable)]. Details of this and other Open University modules can be obtained from the Student Registration and Enquiry Service, The Open University, PO Box 197, Milton Keynes MK7 6BJ, United Kingdom (tel. +44 (0)845 300 60 90; email general-enquiries@open.ac.uk).

Alternatively, you may visit the Open University website at www.open.ac.uk where you can learn more about the wide range of modules and packs offered at all levels by The Open University.

To purchase a selection of Open University materials visit www.ouw.co.uk, or contact Open University Worldwide, Walton Hall, Milton Keynes MK7 6AA, United Kingdom for a catalogue (tel. +44 (0)1908 858779; fax +44 (0)1908 858787; email ouw-customer-services@open.ac.uk).

The Open University,

Walton Hall, Milton Keynes

MK7 6AA

First published 200X. [Second edition 200Y. Third edition ....] [Reprinted 200Z]

Copyright © 200X, 200Y The Open University

All rights reserved. No part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system, transmitted or utilised in any form or by any means, electronic, mechanical, photocopying, recording or otherwise, without written permission from the publisher or a licence from the Copyright Licensing Agency Ltd. Details of such licences (for reprographic reproduction) may be obtained from the Copyright Licensing Agency Ltd, Saffron House, 6–10 Kirby Street, London EC1N 8TS (website www.cla.co.uk).

Open University materials may also be made available in electronic formats for use by students of the University. All rights, including copyright and related rights and database rights, in electronic materials and their contents are owned by or licensed to The Open University, or otherwise used by The Open University as permitted by applicable law.

In using electronic materials and their contents you agree that your use will be solely for the purposes of following an Open University course of study or otherwise as licensed by The Open University or its assigns.

Except as permitted above you undertake not to copy, store in any medium (including electronic storage or use in a website), distribute, transmit or retransmit, broadcast, modify or show in public such electronic materials in whole or in part without the prior written consent of The Open University or in accordance with the Copyright, Designs and Patents Act 1988.

Edited and designed by The Open University.

Typeset by [name and address of typesetter if applicable or The Open University].

Printed and bound in the United Kingdom by [name and address of printer].

## CYM-D172_1

# Y Gymru Gyfoes

## Contents

Cyflwyniad 5
Deilliannau dysgu 6
1 Rygbi - cyflwyniad i Gymru gyfoes 7
1.1 Gwahaniaeth 10
1.2 Gweithgareddau sain 16
1.3 Casgliad 17
2 Lle a pherthyn 19
2.1 Rhanbarthau Cymru 20
2.2 Casgliad 25
3 Gwaith 27
3.1 Yr economi a gwaith yn y Gymru gyfoes 27
3.2 Gwaith, pobl heb waith a thlodi 30
3.3 Casgliad 32
4 Rhywedd a 'hil' 33
4.1 Meddwl am 'hil' a Chymru 33
4.2 Meddwl am rywedd a Chymru 37
4.3 Casgliad 40
5 Dosbarth 41
5.1 Cysyniadau o ddosbarth yng Nghymru 44
5.2 Casgliad 53
5.3 Gweithgareddau sain 54
6 Cenedlaetholdeb a'r iaith Gymraeg 56
6.1 Iaith a hunaniaeth 57
6.2.Y Gymraeg a chenedlaetholdeb 62
6.3 Cenedlaetholdeb 66
6.4 Casgliad 73
7 Traddodiadau Llafur 75
Gwerthoedd 'Cymreig' Llafur (Andrew Edwards) 76
7.2 Llafur a datganoli 79

7.3 Casgliad 85
8 Cynrychiolaeth wleidyddol 87
8.1 Hanes cynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru 87
8.2 Ehangu ymgysylltu a chyfranogi yng ngwleidyddiaeth Cymru 96
8.3 Casgliad 101
9 Cynrychiolaeth ddiwylliannol 103
9.1 Sinema a Chymru 103
9.2 'Ffugchwedlau' teledu a Chymru 109
9.3 Casgliad 112
10 Casgliad y cwrs 115
Glossary 115
References 117
Further reading 126
Acknowledgements 129

# Cyflwyniad

Mae'r cwrs am ddim hwn yn ymdrin â'r gwahaniaethau sydd i'w gweld yng Nghymru a'r cysylltiadau sy'n cael eu creu ar draws y gwahaniaethau hyn. Mae'n ystyried gwahaniaethau o ran lle, rhywedd, 'hil', dosbarth a gwaith; a'r cysylltiadau o ran cenedlaetholdeb a'r Gymraeg, traddodiadau Llafur, cynrychiolaeth wleidyddol a phortreadau diwylliannol sy'n pontio'r gwahaniaethau hynny. Drwy edrych ar wahaniaethau a chysylltiadau, mae'r cwrs yn gofnod awdurdodol a diweddar o economi, cymdeithas, gwleidyddiaeth a diwylliant Cymru gyfoes ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o astudiaethau achos diddorol.

Byddwch yn dysgu am yr hyn sy'n unigryw am Gymru a hunaniaeth Gymreig; sut mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi trawsnewid y system ddemocrataidd yng Nghymru; ystyr y 'clear red water' sy'n gwahanu Llafur Cymru oddi wrth y blaid Lafur yn San Steffan; sut y cafodd economi Cymru ei hailstrwythuro ar ôl i'r pyllau glo gau; arwyddocâd yr iaith Gymraeg heddiw; p'un a yw Cymru yn wlad ddi-ddosbarth o gymharu â gweddill y DU; a sut mae rhaglenni teledu fel *Dr Who* a *Gavin and Stacey* yn cynrychioli dimensiynau pwysig o'r Gymru gyfoes.

Mae'r uned astudio hon yn ddyfyniad wedi'i addasu sy'n berthnasol i gwrs y Brifysgol Agored D172 *Contemporary Wales*, na chaiff ei addysgu bellach gan y Brifysgol. Os hoffech astudio'n ffurfiol gyda ni, efallai yr hoffech ystyried y cyrsiau eraill a gynigir gennym yn y maes pwnc hwn.

Mae'r uned hon hefyd ar gael yn Saesneg ar OpenLearn.

# Deilliannau dysgu

Erbyn diwedd y cwrs hwn, dylech allu gwneud y canlynol:

- deall rhai o'r prif gysyniadau ym maes y gwyddorau cymdeithasol, e.e. rhaniadau, hunaniaethau, cynrychiolaeth, fel cyflwyniad cyffredinol i bynciau'r gwyddorau cymdeithasol
- deall y cysyniadau craidd ynglŷn â threfn, prosesau llywodraethu a newid cymdeithasol yng Nghymru ar ôl y rhyfel
- deall yr amrywiaeth, yr anghydraddoldebau a'r gwahaniaethau sy'n bodoli yng Nghymru a'u goblygiadau ar gyfer hunaniaethau a mudiadau gwleidyddol
- defnyddio tystiolaeth a dadleuon i gymharu a beirniadu ffyrdd gwahanol o ddeall y Gymru gyfoes
- deall sut y gallwch ddefnyddio cysyniadau a dulliau'r Gwyddorau Cymdeithasol i ddadelfennu'r ddealltwriaeth gyffredinol am faterion sy'n ymwneud â Chymru.

# 1 Rygbi - cyflwyniad i Gymru gyfoes

*Hugh Mackay*

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru wedi dod yn llawer mwy unigryw o safbwynt ei sefydliadau a'i diwylliant. Yn 1982, sefydlwyd *Sianel Pedwar Cymru* (S4C), sef pedwaredd sianel deledu Cymru, agorodd Stadiwm y Mileniwm yn 1999 a Chanolfan Mileniwm Cymru (cartref Opera Cenedlaethol Gymru) yn 2004 a chyhoeddwyd *Gwyddoniadur Cymru* yn 2007. Yn hollbwysig, cafodd aelodau cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu (CCC) eu hethol yn 1999 ac ers hynny, rydym wedi gweld llu o bolisïau a chyrff Cymreig yn datblygu, o fewn y llywodraeth ac yn y gymdeithas sifil. Mae'r datblygiadau hyn yn deillio o'r ffordd y mae pobl yng Nghymru yn ystyried eu hunain ac yn uniaethu â'r genedl a hefyd yn effeithio ar y ffordd y maent yn gwneud hynny - ac mae'r nodweddion cyfoes hyn o ddiwylliant Cymreig hefyd yn dylanwadu ar farn pobl eraill ar Gymru a'i phobl. Yn draddodiadol, mae stereoteipiau'r Saeson o Gymru wedi bod yn ddifrïol yn bennaf (portreadu'r Cymry fel lladron ac ati) ac mae pobl yng Nghymru wedi cyfeirio at ddiffyg hyder yn eu gwlad yn aml. Heddiw, mae'r cysyniadau o Gymru a'i phobl yn newid.

Mewn sawl ffordd, mae'r hen eiconau a stereoteipiau'n fyw o hyd - efallai bod glowyr a'r capeli yn diflannu, ond mae defaid, corau, cennin, cennin Pedr a derwyddon yn parhau i fod yn amlwg. Mae'r Stereophonics, Manic Street Preachers, Dafydd Thomas (yr unig berson hoyw ym mhentref Llanddewi Brefi yn *Little Britain*), Catherine Zeta-Jones, Rhys Ifans, Ioan Gruffudd, Julien Macdonald, Stacey Shipman (o *Gavin and Stacey*), Russell T. Davies a Dr Who, yn cyfleu delwedd fwy modern o Gymru sy'n cyferbynnu â'r gorffennol. Ochr yn ochr â'r newydd, mae hen eiconau, enwogion a sefydliadau'n parhau ond mae eu ffurfiau a'u hystyron yn newid a chânt eu dehongli mewn ffyrdd newydd. Mae Shirley Bassey wedi perfformio yn Glastonbury ac mae Tom Jones yn parhau i ailddyfeisio ei hun. Mae rygbi yn enghraifft arall o hyn; caiff y gêm ei chwarae ledled y byd ond mae iddi arwyddocâd arbennig iawn yng Nghymru, lle cafodd ei mabwysiadu fel y gamp genedlaethol ar ddechrau'r 20 fed ganrif.

Gan gofio hyn, nodau'r adran hon yw:

- eich cyflwyno i'r pynciau sy'n cael eu trafod ymhob un o'r adrannau nesaf
- defnyddio rygbi fel prism, neu lens, i gyflwyno'r pynciau hyn.

Fel Cymru, a Chaerdydd yn enwedig, mae rygbi wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl un newyddiadurwr, mae Gavin Henson, y chwaraewr carismataidd a chwaraeodd ei gêm genedlaethol gyntaf yn 2001 a seren y tîm a gurodd Loegr yn 2005, wedi chwarae rôl hollbwysig i drawsnewid y delweddau cyffredin o rygbi yng Nghymru:

> He has almost single-handedly ushered the Welsh game out of the age of scrubbed-scalp, gap-toothed boyos into the new one of Cool Cymru peopled by those such as pop group Super Furry Animals and divas Katherine Jenkins and Charlotte Church.
>
> (Henderson, 2005)


Wrth gwrs, mae llawer mwy nag un chwaraewr wedi effeithio ar sut mae rygbi yng Nghymru wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi mabwysiadu ffurf newydd ac unigryw drwy ddod yn gêm broffesiynol a rhanbarthol a thrwy ei chartref newydd, sef

Stadiwm y Mileniwm. Mae'r stadiwm yng nghanol dinas Caerdydd, y brifddinas, wedi dod yn un o eiconau'r ddinas ac yn un o symbolau'r genedl. Drwy edrych ar rygbi, gallwn geisio gwneud synnwyr o lawer o bethau ynglŷn â Chymru gyfoes.

Mae'n gyffredin i bobl uniaethu â'u gwlad yng nghyd-destun digwyddiadau chwaraeon mawr: mae'n haws dychmygu'r wlad pan fo'r tîm cenedlaethol yn chwarae yn erbyn gwlad arall (Hobsbawm, 1990). Mae rygbi yng Nghymru enghraifft hynod o dda o'r ffenomenon hon, oherwydd efallai mai rygbi yw'r prif beth sy'n uno pobl yng Nghymru. Mewn sawl ffordd, mae rygbi yng Nghymru yn diffinio Cymru a'r hyn y mae pobl yng Nghymru yn ei rannu. Y tu allan i Gymru hefyd, rygbi yw'r prif beth sy'n diffinio'r wlad gan fod y gamp o ddiddordeb eang ac yn un o'r ychydig bethau cadarnhaol y mae pobl o wledydd eraill yn ei gysylltu â Chymru. I bobl Cymru yn enwedig, ystyrir bod rygbi, a sêr y gamp, yn ymgorffori nodweddion a gwerthoedd hanfodol y genedl - cydraddoliaeth, meritocratiaeth, patriarchaeth a chymdeithas ddiddosbarth (Evans et al., 1999). Dywedir yn aml fod hwyliau neu hyder pobl Cymru, a Chymru fel cenedl, yn gwella ac yn gwaethygu yn unol â chanlyniadau'r tîm rygbi cenedlaethol.

Yn rhyfeddol efallai, nid oes nifer fawr o bobl yn chwarae nac hyd yn oed yn gwylio rygbi yng Nghymru - heblaw pan fo'r garfan genedlaethol yn chwarae (yn enwedig ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad). Mae Ffigur 1 yn dangos y chwaraeon mwyaf poblogaidd yng Nghymru - nid yw'n cyfeirio at rygbi gan fod y ffigur mor isel nad yw wedi'i gynnwys hyd yn oed ar waelod y tabl. Mae 2.4 y cant o ddynion yng Nghymru yn chwarae rygbi, sef tua 1.2 y cant o'r boblogaeth. Mae pêl-droed a beicio mwy na phedair gwaith yn fwy poblogaidd, ac mae tua deg gwaith yn fwy o bobl yn nofio.

Mewn un ystyr, fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn gamarweiniol oherwydd gallem wahaniaethu rhwng gweithgareddau hamdden neu adloniant (fel cerdded) a chwaraeon cystadleuol, ond mae'r ffin yn niwlog i raddau. Gallwn hefyd ystyried gwylwyr: mae tua theirgwaith yn fwy o bobl yn gwylio tîm Dinas Caerdydd yn chwarae pêl-droed o gymharu ag un o'r pedwar tîm rygbi rhanbarthol proffesiynol (Dreigiau Gwent, Gleision Caerdydd, y Gweilch a'r Sgarlets). Fodd bynnag, drwy ychwanegu'r gwylwyr teledu at hyn, gwelwn fod mwy o ddiddordeb torfol yn y gêm. (Heb os, mae'r ffaith bod mwy o gyfleoedd i wylio rygbi ar y teledu wedi lleihau nifer y gwylwyr sy'n mynd i'r gemau). Ond, er gwaethaf y lefelau isel o chwaraewyr (a hyd yn oed gwylwyr, sy'n is na'r lefel ryngwladol), drwy gefnogi'r tîm rygbi cenedlaethol y mae pobl yng Nghymru yn dangos eu bod yn perthyn i'r genedl a'i balchder ynddi. Nid yw hyn yn digwydd mewn perthynas â ffenomena a digwyddiadau diwylliannol eraill, fel yr iaith neu gerddoriaeth.




Ffigur 1 Y gweithgareddau chwaraeon mwyaf poblogaidd yng Nghymru

Cyngor Chwaraeon Cymru, 2009, t. 13

### Gweithgaredd 1

Edrychwch ar Ffigur 2 sy'n dangos lluniau a gafodd eu cymryd yn Stadiwm y Mileniwm ar ddiwrnodau gemau rygbi rhyngwladol. Nodwch beth mae'r lluniau hyn yn ei ddweud wrthym am natur a rôl rygbi yng nghymdeithas a diwylliant Cymru.

- Beth maen nhw'n ei ddweud wrthym am hunaniaethau a gwahaniaethau?
- Pa ddelweddau neu bortreadau eraill sy'n gyffredin ar achlysuron o'r fath?




Ffigur 2 i) Prif Wenidog Cymru a phwysigion eraill mewn gêm rygbi ryngwladol; ii) Menywod mewn gêm rygbi ryngwladol gydag emblemau wedi'u paentio ar eu hwynebau a hetiau cennyn pedr iii) Charlotte Church, Max Boyce a Katherine Jenkins yn canu yn Stadiwm y Mileniwm ar ddechrau gêm rygbi ryngwladol.

Nid wyf yn honni fy mod yn rhoi cofnod diffiniol o ffenomenon rygbi yng Nghymru o safbwynt y gwyddorau cymdeithasol, ond yn yr adran hon rwy'n defnyddio'r gamp fel ffordd o gyflwyno agweddau craidd ar wahaniaethau a chysylltiadau yn y Gymru gyfoes.

# 1.1 Gwahaniaeth

Caiff cymunedau eu creu gan syniadau pobl o'r tu mewn a'r tu allan iddynt; maent yn dwyn pobl ynghyd a hefyd yn eu heithrio. Bu'n rhaid i Gymru ddiffinio ei hun bob amser mewn perthynas â Lloegr, ei chymydog mwy pwerus. Dyma un rheswm pam y gellir ystyried bod Cymru (yn enwedig ar ddiwrnodau gemau rhyngwladol) yn genedl gydryw a bod ei phobl yn rhannu set graidd o nodweddion a gwerthoedd. Fodd bynnag, efallai bod y rhaniadau, yr amrywiaeth neu'r gwahaniaethau sydd i'w gweld yng Nghymru yn bwysicach na'r hyn sydd gan bobl yn gyffredin. Pan edrychwn ar y gwahaniaethau hyn, rydym yn gweld delwedd tipyn yn wahanol o Gymru a delwedd sy'n sicr yn llai cydlynol. Fel yr eglurodd Nicky Wire o'r Manic Street Preachers:

> You have to be wary of romanticism. Wales is a much more complex and divided place than some people think. It isn’t this glowing ember of close-knit communities. There’s animosity there too. Some North and West Walians resent us talking about Welshness because we can’t speak Welsh.
>
> (Wire, 1998)

Mae'r adran hon yn rhoi sylw i wahaniaethau penodol yn y Gymru gyfoes, sef lle, gwaith, rhywedd a 'hil', a dosbarth.

### 1.1.1 Lle

Yn yr oes ddiwydiannol, tyfodd cymunedau yng Nghymru o gwmpas eu capeli, yr undeb, y pwll glo neu'r chwarel ac, yn enwedig yn y de, y clwb rygbi. Drwy'r sefydliadau hyn, roedd modd i bobl wneud pethau gwahanol gyda'i gilydd gan adeiladu cymunedau a hyd yn oed rhyw fath o ddinasyddiaeth neu hunaniaeth leol. A thrwy'r clybiau rygbi lleol, mae chwaraewyr a chefnogwyr yn dal i fynegi eu hymrwymiad, eu teyrngarwch a'u balchder tuag at eu tref neu'u hardal. Mae'r ymrwymiad hwn i'r ardal leol yn rymus o hyd. Mae'n cynnwys prosesau eithrio (sy'n diffinio'r bobl hynny o'r tu allan) yn ogystal â chynnwys - fel y dywed Gavin Henson:

> People in Swansea view Llanelli folk as foreigners, even though they’re only 15 miles away. It was certainly like that when I was at Swansea. Neath people were considered almost normal, but people from Llanelli were weird. They spoke funny and had a different outlook. As a Swansea player there was a rivalry with Neath. With Llanelli it was more of a hatred.
>
> (Henson, 2005a, t. 130)

Mae'r ymrwymiad i'r ardal leol, ym maes rygbi ac yn gyffredinol yng Nghymru, yn gryf iawn o hyd. Mae bywgraffiad Shane Williams (a chwaraeodd ei gêm ryngwladol gyntaf yn 1999), er enghraifft, yn cyfeirio'n fynych at ei ymlyniad cryf â Chwm Aman (Williams a Parfitt, 2008). Rhaid defnyddio'r dychymyg wrth ystyried yr ymdeimlad hwn o berthyn.

O ystyried y gwahaniaethau yng Nghymru, nid yw dychmygu'r wlad yn dasg syml, yn enwedig o gofio'r gwahaniaethau rhwng y de a'r gogledd. Yn y gogledd, bu llai o ddiddordeb mewn rygbi ac mae pêl-droed yn fwy poblogaidd. Fel llawer o bethau yng Nghymru - dosbarthiad y boblogaeth, gweithgarwch economaidd a lleoliad sefydliadau a mudiadau cenedlaethol - mae rygbi wedi'i ganoli yn y de. Serch hynny, mae rhai chwaraewyr blaenllaw o'r gogledd wedi'u cynnwys yn y garfan genedlaethol, yn arbennig Dewi Bebb o Fangor yn y 1960au ac yn fwy diweddar, Robin McBryde ac Eifion Lewis-Roberts. Tyfodd y rhaniad rhwng y de a'r gogledd pan fabwysiadwyd y strwythur rygbi rhanbarthol yng Nghymru yn 2003, oherwydd mae'r holl ranbarthau wedi'u lleoli yn y de. Eto i gyd mae tua 700 o ddeiliaid debenturau yn y gogledd, mae Undeb Rygbi Cymru (URC) yn rhoi bron 3,000 o docynnau i glybiau yn y gogledd ac, wrth gwrs, mae llawer yn teithio i lawr gyda thocynnau sydd wedi'u gwerthu'n breifat neu fel rhan o becynnau lletygarwch neu nawdd (gohebiaeth bersonol, URC, 16 Hydref 2009). Felly, er gwaethaf cyfyngiadau daearyddol a'r gwahaniaethau hanesyddol rhwng y gogledd a'r de, mae llawer o gefnogaeth yn y gogledd i'r tîm cenedlaethol, ond llai na'r de.

Mae'r newid i rygbi proffesiynol yn 1995 a'r strwythur rhanbarthol yn 2003 wedi golygu bod chwaraewyr yn torri i ffwrdd fwyfwy oddi wrth y syniadau traddodiadol o berthyn i le arbennig - maent yn chwarae dan gontract i unrhyw glwb, waeth ble y cawsant eu geni na ble y maent yn byw. Felly, bu cynnydd amlwg yn nifer y chwaraewyr a'r hyfforddwyr nad ydynt yn dod o Gymru. Er bod gan y gêm gysylltiadau cryf o hyd â'i gwreiddiau hanesyddol, nid yw clybiau na chwaraewyr rygbi yn cynrychioli cymunedau fel yr oeddent yn arfer ei wneud. Mae'n ddiddorol nodi, wrth i'r strwythur rhanbarthol gael ei fabwysiadu, fod cefnogwyr rygbi yn uniaethu mwy â'r tîm cenedlaethol er bod ei hunaniaeth leol wedi lleihau (Roderique-Davies et al., 2008).

Daeth rygbi rhanbarthol a phroffesiynol i fodolaeth tua'r un pryd â'r newid mawr arall yn hanes rygbi Cymru dros y blynyddoedd diwethaf: agor Stadiwm y Mileniwm. Mae'r adeilad hwn yng nghanol dinas Caerdydd, â'i gromen a'i goesau enfawr, ei 74,500 o seddi a'r to sy'n agor, i'w weld o'r holl brif ffyrdd sy'n dod i mewn i'r ddinas. Yn gyflym iawn, daeth yn

ddelwedd symbolaidd ac, yn wir, eiconig nid yn unig o'r ddinas ond o'r genedl, gan gymryd lle'r delweddau o gestyll, defaid, tirweddau a thraethau fel prif eiconograffi Cymru (Pritchard a Morgan, 2003). Tyfodd amlygrwydd y ddinas a'r wlad pan gafodd gemau terfynol Cwpan yr FA eu cynnal yn Stadiwm y Mileniwm am chwe blynedd tra roedd Wembley'n cael ei ailadeiladu (2001-06), ac mae'r un peth yn wir hefyd am gyngherddau pop a digwyddiadau eraill a gynhelir yn y stadiwm - maent yn cyfrannu'n fawr at y ddelwedd o Gaerdydd fel prifddinas fodern a chosmopolitan. Mae'r stadiwm newydd yn cysylltu Cymru'n agosach â Lloegr a diwylliant byd-eang. Mae'n gwneud Cymru yn fwy gweladwy, ond mae hefyd yn rhoi delwedd *wahanol* (a newydd) o'r wlad.

Mae'r brifddinas yn chwarae rôl hynod o bwysig wrth ddiffinio'r diwylliant cenedlaethol, felly mae'r syniad o Gaerdydd fel calon Cymru yn amharu ar ffyrdd eraill o ddeall Cymru. Er nad yw'n bell i ffwrdd o safbwynt diwylliannol ac economaidd, mae Caerdydd yn ymddangos fel byd arall o gymharu â rhai cymunedau yn y Cymoedd, heb sôn am leoedd mwy pellennig yng Nghymru.

## 1.1.2 Gwaith

Gellir ystyried bod llanw a thrai rygbi Cymru yn adlewyrchu cyflwr economi Cymru. Cyrhaeddodd rygbi ar yr un pryd â'r diwydiannu cyflym a'r mewnfudo a ddigwyddodd yn y de yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd rheolau a natur gystadleuol ond reoledig rygbi yn gyson ag anghenion a diddordebau'r gymdeithas ddiwydiannol: ystyriwyd bod rygbi yn weithgaredd llesol ac yn ddewis arall i'r neuadd gwrw a'r palas jin ac yn ffordd o amddiffyn aelodau'r dosbarth gweithiol rhag gormodedd eu diwylliant eu hunain (Smith a Williams, 1980). Mwynhaodd rygbi Cymru ei oes aur cyntaf yn ystod degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif, pan roedd economi'r de ar ei anterth. Gwelwyd dirywiad mawr rhwng y rhyfeloedd pan gollodd Cymru tua hanner miliwn o'i phoblogaeth. Chwalodd llawer o dimau rygbi yn ystod dirwasgiad economaidd y 1930au ac aeth llawer o chwarewyr, gan gynnwys pac Pont-y-pŵl bron i gyd, i weithio i glybiau rygbi'r gynghrair yng ngogledd Lloegr (Morgan, 1980, t. 230). Digwyddodd ail oes aur rygbi Cymru, sef y 1970au, pan roedd economi Cymru'n cael ei moderneiddio a phan roedd diwydiannau newydd yn ymsefydlu. Roedd y chwaraewyr tua'r adeg hon yn athrawon (yn enwedig yn nhîm Cymry Llundain), dynion busnes, cynghorwyr ariannol, ymgynghorwyr diwydiannol, perchenogion siopau chwarae a gwerthwyr (Smith a Williams, 1980). Er nad oeddent yn lowyr nac yn weithwyr dur eu hunain mwyach, roedd llawer ohonynt, gan gynnwys Barry John a Gareth Edwards, yn feibion i lowyr. Y gred gyffredin yw i rygbi yng Nghymru ddirywio yn y 1980 am iddo golli ei wreiddiau, gan fod y rhain wedi'u plannu mewn economi a oedd yn rhoi pwyslais ar waith trwm. Wrth i ddiwydiant trwm ddirywio, nid oedd y syniadau mwy traddodiadol am wrywdod mor bwysig.

Yn ogystal ag adlewyrchu newidiadau yn yr economi a dod o dan ddylanwad y newidiadau hynny, mae rygbi ei hun yn faes gwaith. Er ei bod yn gêm amatur yn ôl pob golwg nes 1995, roedd mathau o ffug amaturiaeth i'w gweld cyn dechrau'r ugeinfed ganrif, gan ddyddio'n ôl cyn 1897 pan brynodd y chwaraewr enwog Arthur J. Gould dŷ ar ei ben ei hun yng Nghasnewydd - rhywbeth dadleuol iawn ar y pryd. Ar ôl hynny, cefnogwyd y gêm gan 'boot money' a mathau eraill o ffug amaturiaeth er mwyn cadw diddordeb chwaraewyr a'u hannog i beidio ag ymuno â chlybiau rygbi'r gynghrair yn Lloegr, oherwydd ar ôl gwneud hynny ni fyddai hawl gan y chwaraewyr chwarae rygbi amatur yng Nghymru nac i Gymru. Am 100 mlynedd, defnyddiwyd arian o'r 'maes parcio' a swyddi segur (swyddi â thâl lle nad oes yn rhaid gwneud llawer o waith) yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i dalu'r chwaraewyr a hynny o dan drwyn Cyllid y Wlad a oedd yn ymddangos fel pe bai'n anwybyddu'r peth.

Ochr yn ochr â hyn, cafodd y gêm ei masnacheiddio fwyfwy, gan ddenu mwy o arian. Gwnaed hyn drwy farchnata (cylchgronau, memorobilia, darlledu) a nawdd (wrth i frandiau geisio llunio cysylltiadau â'r gêm a'r enwogion), a arweiniodd at droi'r gêm yn broffesiynol yn 1995. Disgrifiodd Shane Williams ei syndod (er ei fod yn ddigon cyffredin) ar ôl cael cynnig car chwaraeon heb do gan Toyota, a fyddai'n cael ei uwchraddio bob chwe mis (Williams a Parfitt, 2008). Mae proffesiynoldeb a masnacheiddio yn newid ystyr y gêm mewn rhaid ffyrdd a hefyd ffordd o fyw'r chwaraewyr.

Fel rhan o'r trawsnewidiad hwn, *gwaith* yw rygbi i'r sêr nawr, nid dim ond rhywbeth i'w wneud er mwyn balchder lleol neu genedlaethol. Yn amlwg, mae'r balchder o gynrychioli Cymru yn parhau i fod yn hollbwysig, ond mae'r gwobrau a'r ffordd o fyw sy'n gysylltiedig â'r gêm ar y lefel hon wedi newid y tu hwnt i adnabyddiaeth. Er enghraifft, mae Shane Williams yn dweud ei fod yn berchen ar blotiau o dir a deg eiddo (Williams a Parfitt, 2008). Mae'r gwaith, wrth gwrs, yn wahanol iawn i'r hyn a arferai fod: mae'n waith anodd a llafurus am chwe diwrnod yr wythnos yn ystod y tymor, gyda mwy o ffocws yn cael ei roi ar ffitrwydd a maeth, a chaiff cytundebau eu negodi ynglŷn â faint o gemau y dylai chwaraewr eu chwarae pob tymor a'r cyfnod o seibiant a gânt dros yr haf. Mae disgyblaeth yn llym ac mae'r cyflogwyr yn disgwyl i'r chwaraewyr gyflwyno eu hunain mewn ffyrdd penodol a siarad yn gyhoeddus ac i'r wasg. Felly, mae proffesiynoldeb nid yn unig wedi newid trefniadaeth y gêm a thâl y chwaraewyr, ond mae hefyd wedi newid gwaith y chwaraewr, sy'n llawer mwy disgybledig ac yn golygu mwy na'r ffordd y mae'n ymddwyn ar y cae.

## 1.1.3 Rhywedd a 'hil'

Delweddau gwrywaidd fu'r delweddau poblogaidd o Gymru a Chymreictod yn bennaf (heblaw am y 'Fam' Gymreig, sy'n cynrychioli mamolaeth a magu plant) (gweler Beddoe, 2000) - gan adlewyrchu tadolaeth yn gyffredinol ond, yn fwy penodol i Gymru, natur cyflogaeth, (dynion yn y diwydiannau glo a dur), gwleidyddiaeth a rygbi. Ers iddi ddatblygu ar ddiwedd oes Fictoria, mae hunaniaeth genedlaethol Cymru wedi bod yn wrywaidd iawn ac mewn sawl ffordd, mae chwaraeon yn gyffredinol yn parhau i fod yn rhyw fath o 'last bastion' ar gyfer gwerthoedd gwrywaidd traddodiadol (Messner, 1987). Yng Nghymru, mae rygbi yn cynrychioli rhyw fath o fersiwn eithafol o'r gwerthoedd hyn, o gofio'r math o wrywdod sydd wrth wraidd rygbi (y cryfder a'r ffyrnigrwydd sydd eu hangen) a phwysigrwydd y gamp i'r genedl.

Ar ôl cael eu heithrio o'r gamp genedlaethol nes yn gymharol ddiweddar, ni welwyd llawer o ferched mewn portreadau chwaraeon o'r wlad - sydd mor bwysig er mwyn diffinio natur y genedl (Andrews, 1996). Mae rygbi yn enghraifft eithaf eithafol o hyn, gan ei fod wedi'i wreiddio mewn math unigryw iawn o wrywdod, lle mae cadernid yn hollbwysig ac yn werthfawr iawn. Law yn llaw â'r gwrywdod hwn, ceir diwylliant yfed gwrywaidd dwfn. Mae hunangofiannau chwaraewyr cenedlaethol Cymru, hyd yn oed yn yr oes broffesiynol, yn portreadu diwylliant o gemau yfed, yfed drwy'r nos, chwydu ar fysys, cael eu cario gartref a meddwi'n dwll (Henson, 2005 a; Williams a Parfitt, 2008).

I ryw raddau, mae gwrywdod rygbi (fel gwrywdod yn fwy cyffredinol) wedi newid ac yn parhau i newid. Mor hwyr â chanol y 1990au, dim ond dynion allai fynd i far y chwaraewyr ym Mharc yr Arfau, yr hen stadiwm genedlaethol, a'r unig ferch yn y bar oedd y weinyddes; roedd bar ar wahân i'r gwragedd a'r cariadon (gohebiaeth bersonol, Eric Bowers, 22 Hydref 2009). Yn y 1970 au, roedd merched yn cefnogi rygbi drwy ddarparu'r te ar ôl y gêm, ond nid oeddent yn mynd i wylio gemau rhyw lawer. Mae newidiadau cymdeithasol ehangach - fel mwy o ferched yn gweithio ac yn fwy annibynnol - wedi

golygu bod mwy o ferched yn mynd i gemau rygbi. Mae hyn yn cyd-daro â thwf y diwylliant sy'n rhoi pwyslais ar bobl enwog.

Yn ogystal â dod yn fwy amlwg fel cefnogwyr, mae merched bellach yn cymryd mwy o ran fel chwaraewyr. Mae merched wedi chwarae rygbi yng Nghymru ers y 1970 au, er mai dim ond yn 1994 y cafodd Undeb Rygbi Merched Cymru ei dderbyn i URC, dechreuodd Pencampwriaeth y Chwe Gwlad i ferched yn 2003 a dim ond yn 2007 y cafodd rygbi i ferched ei integreiddio'n llawn yn URC. Erbyn hyn, rygbi merched yw un o'r elfennau o'r gêm sy'n tyfu gyflymaf, ond mae gor-wrywdod rygbi yn golygu ei bod yn anodd iawn bod yn 'fenywaidd'; felly, mae proffil y gêm yn isel iawn ac nid yw'r cyfryngau yn rhoi fawr ddim sylw i rygbi merched. Mae merched, felly, yn parhau i fod ar yr ymylon yma fel ag y maent mewn agweddau eraill ar fywyd yng Nghymru.

Ar yr un pryd, mae mathau newydd o wrywdod a benyweidd-dra yn datblygu. Un agwedd ar hyn yw diwylliant y 'laddette' (smygu, yfed, rhegi ac ymladd). Ac mae Henson yn cynrychioli elfen arall o'r newidiadau hyn. Dywed, ‘It takes two hours to get ready – hot bath, shave my legs and face, moisturise, put fake tan on and do my hair – which takes a bit of time’ (Henson, 2005b). Er ei fod yn eithriad, mae Henson yn herio'r delweddau gor-wrywaidd o chwaraewyr. Datgelodd Gareth Thomas, y chwaraewr â'r nifer fwyaf o gapiau dros Gymru (100 o gapiau) a chyn-gapten Cymru a'r Llewod, ei fod yn hoyw ym mis Rhagfyr 2009. Ef yw'r unig chwaraewr rygbi enwog i ddatgelu ei fod yn hoyw o hyd, sy'n eithaf rhyfeddol o gofio gwrywdod y diwylliant rygbi. Fel y dywedodd Thomas:

> ‘It is the toughest, most macho of male sports ... In many ways, it’s barbaric ... It’s pretty tough for me being the only international rugby player prepared to break the taboo ... I’m not aware of any other gay player in the game’.
>
> (BBC, 2009)

Nid oes llawer o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i'w gweld ledled Cymru, heblaw am ardaloedd fel Caerdydd a Butetown yn enwedig, sydd hefyd yn cael ei alw'n ardal y dociau, y bae neu Borth Teigr. O'r ardal hon y daeth un o chwaraewyr rygbi du enwocaf Cymru. Dechreuodd Billy Boston ei yrfa yn chwarae i Glwb Athletau Rhyngwladol Caerdydd (CIACs), cyn mynd ymlaen i chwarae rygbi'r gynghrair yn Wigan yn y 1950au a'r 1960au. Yn fwy diweddar, gwelwyd rhai chwaraewyr du enwog eraill o Gymru, yn arbennig Glen Webbe, Nigel Walker a Colin Charvis.

Mae CIACs wedi bod yn dîm amlddiwylliannol yng ngwir ystyr y gair. Ffurfiwyd y clwb yn 1946 gan filwyr du a oedd yn dychwelyd o'r rhyfel, ar y sail eu bod yn credu'n gryf mewn cymdeithas amlhiliol a goddefgarwch crefyddol, sy'n cynnwys pob 'hil' a chrefydd ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth leol. Mae bathodyn CIAC yn dangos dwylo gwyn a du yn plethu i'w gilydd ac arwyddair y clwb yw *Unus et idem*, 'Yr un bobl yn union'. ‘The name Cardiff Internationals came up because there were so many different nationalities. But sometimes the opposition thought we were actually international players from the Cardiff City team’ (CIACs, 2009). Roedd aelodau CIAC ymhlith trigolion Butetown a oedd yn weithgar yn y mudiad gwrth-apartheid yng Nghaerdydd o ddiwedd y 1960au. Gwnaethant ymuno ag un o'r protestiadau gwrth-apartheid cyntaf, gan gario baner yn dangos llaw ddu ar bêl rygbi ar y llinell gais gyda'r slogan 'Don't deny their right to try'.

Aelodau CIACs oedd yr unig chwaraewyr rygbi bron i wrthwynebu apartheid yn gyhoeddus nes yr ychydig flynyddoedd cyn diwedd apartheid, pan roedd bron pawb yn ei wrthwynebu. (Roedd John Taylor, chwaraewr i Gymry Llundain, ymhlith yr ychydig chwaraewyr eraill i wrthwynebu apartheid.) Drwy gydol y 1970au a'r 1980au, roedd URC yn eithaf bodlon i chwarae timau o Dde Affrica yn rheolaidd, er gwaethaf protestiadau

myfyrwyr, eglwysi ac undebau llafur, ac er i Dde Affrica gael ei wahardd o'r mudiad Olympaidd a dod o dan waharddiad ledled y Gymanwlad ar gysylltiadau diwylliannol a chysylltiadau chwaraeon. Gan arddel ei gred nad oes lle i wleidyddiaeth mewn chwaraeon, roedd URC a'i chwaraewyr ymhlith y cyrff mwyaf dylanwadol i ychwanegu hygrededd at y drefn apartheid a oedd yn cael ei hynysu fwyfwy, yn gwbl groes i wleidyddiaeth CIACs.

Yn fwy diweddar, bu rhai honiadau o hiliaeth yn y byd rygbi yng Nghymru, er enghraifft, gan y dorf yn erbyn Colin Charvis ac Aled Brew mewn gêm oddi cartref yn erbyn Ulster yn 2007, a honnwyd bod un o chwaraewyr Munster yng Nghwpan Rygbi Ewrop yn 2005 wedi galw canolwr y Gweilch, Elvis Seveali o Samoa, yn ‘f*cking black c*nt’. Er na chafodd yr honiad ei gadarnhau, dywedodd Henson:

> ‘Racist remarks do fly around, it does go on. You hear it in some games. You even get it during training sessions’
>
> (Henson, 2005a, t. 160).

Mae hyn yn chwalu'r myth nad yw hiliaeth yn broblem yng Nghymru. Wedi dweud hynny, mae URC yn cydnabod y broblem.

Yn 2013, ymunodd Show Racism the Red Card (SRtRC) ag Undeb Rygbi Cymru i lunio poster tîm gwrth-hiliaeth, a lansiwyd yn ystod pencampwriaeth y Chwe Gwlad. Mae'n debyg i Jason Webber, Gweithiwr Ymgyrchu SRtRC, ddweud:

> “The regional rugby clubs already back the campaign and we believed that through the power of rugby we can really tackle racism in society.”
>
> (Show Racism the Red Card, 2013)

## 1.1.4 Dosbarth

Yng Nghymru, mae rygbi'n cael ei drafod, ei hyrwyddo a'i ddeall yn aml fel gêm ddi-ddosbarth, yn wahanol i Loegr lle mae'n gysylltiedig ag ysgolion bonedd. Efallai nad yw'r realiti mor glir: yng Nghymru, tyfodd rygbi o gynghrair rhwng y dosbarthiadau gweithiol a'r elite.

Mae rygbi yng Nghymru yn tarddu o ysgolion bonedd Lloegr oherwydd cafodd ei drosglwyddo o'r ysgolion hynny yn y 1850au i Goleg Llanymddyfri, Coleg Crist, Aberhonddu ac Ysgol Trefynwy (Smith a Williams, 1980). Cafodd clybiau rygbi'r de eu sefydlu'n bennaf gan gyn-ddisgyblion o'r ysgolion hyn, a oedd yn perthyn i'r dosbarth cynyddol o gyfreithwyr, meddygon, clerciaid a pheirianwyr. Cafodd y gamp ei harwain, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gan bobl o ysgolion bonedd yn bennaf.

Ac mae llawer o chwaraewyr enwog wedi dod o ysgolion bonedd. Yn 1935, roedd holl gefnwyr Cymru yn erbyn Crysau Duon Seland Newydd wedi mynd i'r brifysgol, llawer ohonynt ar ôl mynd i ysgolion bonedd Llanymddyfri neu Rydal (Morgan, 1980).

Er bod gan y gamp gefndir Seisnig ac elitaidd, mae rygbi yng Nghymru wedi bod yn ffordd o ddwyn y dosbarthiadau cymdeithasol ynghyd. Mae David Smith a Gareth Williams yn cyfeirio at sut y cafodd yr anwiredd bonheddig bod unrhyw dor-rheol yn anfwriadol, a'i bod yn anghwrtais tybio fel arall, ei ddisodli gan ddyfarnwyr; sut y bu'n rhaid cyflwyno cosbau a chiciau rhydd am gamchwarae, rhwystro a chamsefyll; a sut y cafodd geirfa'r ysgolion bonedd fel collaring, sneaking, rouges a squashes ei disodli gan y termau tackling, offside, touch-downs a scrums (Smith a Williams, 1980). Ac yn hanesyddol, mae Cymru

wedi chwarae rhan flaenllaw i wrthwynebu statws amatur y gêm, gan ddadlau bod yn rhaid iddi fod yn agored i bawb, nid dim ond y rhai nad oedd angen iddynt boeni am ennill bywoliaeth.

Felly mae'r gêm wedi'i thrawsnewid a'i hailwampio gan ei bod wedi dod yn gêm Gymreig ac yn symbol o Gymru a'i chymdeithas ddi-ddosbarth. Y myth (ac mae llawer o wirionedd iddi) yw bod rygbi yng Nghymru yn rhyw fath o ddemocratiaeth, lle mae'r meddyg yn sgrymio ochr yn ochr â'r glöwr. Ac yn wir, mae hyn wedi digwydd ar sawl achlysur, er enghraifft gyda'r meddygon Teddy Morgan yn y tîm a gurodd y Crysau Duon yn 1905 a J. P. R. Williams, un o sêr y 1970au.

Fodd bynnag, mae pwy sy'n mynd i wylio gemau rhyngwladol wedi newid rhywfaint. Mae Caerdydd ar ddiwrnodau gemau rhyngwladol yn fwy ar gyfer pobl gefnog, y crachach, y Taffia, neu'r sefydliad, nag yr oedd. Mae llai o bobl gyffredin, dosbarth gweithiol i'w gweld. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ffordd y mae Caerdydd a'r ddelwedd ohoni yn cael eu datblygu a'u hyrwyddo ar hyd trywydd mwy dosbarth canol. Mae'r prisiau uwch am docynnau ar gyfer gemau rhyngwladol yn golygu nad yw rhannau tlotach y gymuned mor amlwg; ac mae twf lletygarwch corfforaethol wedi arwain at leihad yn nifer y cefnogwyr cyffredin. Fel tocynnau debentur, mae nawdd a lletygarwch corfforaethol wedi cymryd lle llawer o'r tocynnau sy'n cael eu dosbarthu drwy'r clybiau. Am eu bod yn ddrutach, mae llai o docynnau yn mynd i werin y gêm. Caiff y rhan fwyaf o docynnau'r clybiau rygbi eu gwerthu ar y farchnad agored neu'u defnyddio i ddenu nawdd, sy'n golygu mai nifer gymharol fach sy'n cael eu gwerthu i aelodau'r clybiau am bris cost. Mae URC yn dyrannu 120 o docynnau i glwb nodweddiadol yn y gogledd. Mae'r clwb yn rhoi ugain tocyn i aelodau sy'n cael eu dewis ar hap, ac mae'n gwerthu'r gweddill fel nawdd (gohebiaeth bersonol, URC, 16 Hydref 2009). Felly, mae natur y dorf wedi newid, gyda'r dosbarthiadau gweithiol yn cael eu gwthio i'r ymylon braidd.

Fodd bynnag, mae ystyr y term 'dosbarth gweithiol' wedi newid yn sylweddol, gyda'r dirywiad yn y diwylliant a'r economi glo a dur a thwf y gymdeithas defnyddwyr. Mae car chwaraeon a statws seren Gavin Henson yn wahanol iawn i'r gêm yn yr oes amatur, pan roedd dosbarth yng Nghymru yn rhywbeth llawer mwy syml rywffordd.

## 1.2 Gweithgareddau sain

Gwrandewch ar yr eitem sain isod a chwblewch y gweithgaredd.

# Eitem sain 1 (Rygbi yn y Gymru gyfoes)

Yn Eitem Sain 1 (isod), mae Hugh Mackay yn cyfweld â Gareth Williams, Athro Hanes yng Nghanolfan Cymru Fodern a Chyfoes ym Mhrifysgol Morgannwg, am rygbi yng Nghymru. Mae'n ysgolhaig brwdfrydig ac yn cefnogi'r gamp genedlaethol ac ef hefyd yw un o gydawduron hanes swyddogol URC, *Fields of Praise* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1980). Gwrandewch ar yr eitem sain nawr.

Mae'r eitem sain hon yn Saesneg; mae trawsysgrif Cymraeg ar gael.

Audio content is not available in this format.

### Gweithgaredd 2

Ystyriwch y cwestiynau isod a gwnewch nodiadau arnynt. Ar ôl ichi orffen, cymharwch eich nodiadau â'r drafodaeth isod.

1. Sut y daeth rygbi yn brif ffocws ar gyfer hunaniaeth genedlaethol yng Nghymru?
2. Pwy sy'n ymwneud â rygbi a phwy sydd wedi'u heithrio neu'u gwthio i'r ymylon?
3. Sut mae newidiadau yn y gêm yn newid ffyrdd poblogaidd o ymgysylltu â rygbi yng Nghymru?

---

#### Discussion

1. Fel y trafodwyd yn Adran 1 ac Eitem Sain 1, mae'r cysylltiad rhwng hunaniaeth genedlaethol a rygbi yn hirsefydledig. Cafodd rygbi ei gyflwyno i Gymru yng nghanol y ddeunawfed ganrif a chafodd ei fabwysiadu gan boblogaeth de Cymru a oedd yn tyfu ac a oedd yn cynnwys nifer fawr o fewnfudwyr, ar adeg o ddiwydiannu cyflym. Er i'r gamp gyrraedd Cymru drwy'r system ysgolion bonedd, erbyn buddugoliaeth 1905 yn erbyn y Crysau Duon, rygbi oedd y gamp genedlaethol. Mae wedi llwyddo i apelio at y de a'r Gogledd, yn ogystal ag ardaloedd gwledig a threfol, ac wrth i'r genedl dyfu (o ran ei sefydliadau cenedlaethol a'r graddau y mae pobl Cymru yn uniaethu â'r genedl) mae rôl rygbi fel camp sy'n uno'r genedl a gweithgaredd diwylliannol wedi cynyddu hefyd.
2. Fel y gwnaethoch ddarllen yn Adran 1, mae rygbi yng Nghymru yn ymwneud ag eithrio yn ogystal â chynnwys, a theimlir yr angerdd a'r cynnwrf mwyaf pan fydd Cymru yn chwarae Lloegr. Fel y mae'r Stereophonics yn canu: ‘As long as we beat the English we don’t care.’ Ond hyn yn oed o fewn Cymru, mae rhai wedi'u heithrio i ryw raddau: er enghraifft, mae llai o gefnogaeth i'r gêm yn y gogledd na'r de. Mae rhaniadau mawr rhwng dynion a merched hefyd, ond gwelwyd twf sylweddol yn nifer y merched sy'n cefnogi ac yn chwarae rygbi dros y blynyddoedd diwethaf. Yn gymharol ddiweddar (cyfnod apartheid yn Ne Affrica), nid yw hanes rygbi Cymru ar faterion yn ymwneud â hil wedi bod yn dda. A gellir ystyried bod y gamp yn un hynod o wrywaidd sydd wedi'i gwreiddio mewn heterorywioldeb (heb gynnwys penderfyniad Gareth Thomas i ddatgelu ei fod yn hoyw). Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru, wrth gwrs, yn chwarae rygbi nac yn ei wylio, heblaw ar ddiwrnodau Rhyngwladol, a hyd yn oed bryd hynny, lleiafrif bach o'r boblogaeth sy'n gwneud hynny.
3. Mae'r clip hwn yn dadlau nad yw rygbi bellach yn gêm gymunedol ac, yn amlwg, mae nodweddion economaidd-gymdeithasol y dorf sy'n mynd i gemau'r Chwe Gwlad yng Nghaerdydd yn wahanol iawn heddiw o gymharu â'r cyfnod cyn-broffesiynol. Yn lleol, fodd bynnag, mae'r gêm yn gymunedol iawn a bellach mae llawer mwy o rygbi ar y teledu ac mae llawer o bobl yn ei wylio. Mae dyfodiad y gêm broffesiynol a'r strwythur rhanbarthol, sydd wedi lleihau statws rhai timau lleol, hefyd yn golygu bod pobl yn uniaethu mwy â'r tîm cenedlaethol.

## 1.3 Casgliad

- Mae ymlyniadau i dimau rygbi lleol yn adlewyrchu ymdeimlad cryf o berthyn i dref neu ardal benodol yng Nghymru.

- Wrth i broffil cyflogaeth Cymru newid, mae trefniadaeth rygbi wedi newid hefyd, yn enwedig ar ôl dyfodiad yr oes broffesiynol a'r cynnydd mewn masnacheiddio.
- Mae rôl merched a phobl o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn rygbi yn adlewyrchu eu sefyllfa mewn cymdeithas yng Nghymru yn gyffredinol, a sut mae hyn wedi newid.
- Er ein bod yn ystyried bod rygbi yng Nghymru wedi'i wreiddio yn y dosbarth gweithiol traddodiadol, mae'r realiti yn fwy cymhleth - mae'n pontio dosbarthiadau a beth bynnag, mae syniadau ynglŷn â dosbarthiadau yn llai syml erbyn hyn.

Nid dim ond lle yw Cymru ond gwlad sy'n cael ei nodweddu gan set arbennig o werthoedd gwleidyddol a moesegol. Beth bynnag fo'r gwahaniaethau rhwng grwpiau ac unigolion, mae'r gwerthoedd hyn yn darparu cysylltiadau sydd, gyda'i gilydd, yn creu'r gymdeithas rydym yn ei gweld yng Nghymru. Mae'r genedl yn meithrin ymdeimlad o berthyn ac undod, ac mae rygbi yn parhau i ddwyn pobl ynghyd yn wahanol i unrhyw ffenomenon neu weithgaredd diwylliannol arall. Caiff nodweddion craidd y genedl, sy'n cael eu herio a'u trawsnewid dros amser, eu hymgorffori yn y gêm genedlaethol, ei chwaraewyr, ei sefydliadau a'i chefnogwyr. Er iddi newid o fod yn gêm amatur i gêm sy'n cael ei marchnata llawer mwy ac sy'n denu llawer mwy o sylw yn y cyfryngau, mae rygbi yn parhau i fod yn elfen amlwg o'r ffordd y caiff Cymru ei phortreadu ac yn ffocws i bobl uniaethu â'r genedl.

# 2 Lle a pherthyn

*Graham Day*

Wrth ysgrifennu'r adran hon, bu'n rhaid imi deithio ar y trên sawl gwaith o Fangor yn y gogledd i'r brifddinas, Caerdydd. Mae'r daith yn cymryd rhai oriau ac yn dechrau ar hyd arfordir y gogledd gan wibio heibio i'r cyrchfannau glan-môr amrywiol iawn yn Llandudno, y Rhyl a Phrestatyn. Weddill yr amser, mae'r trên yn dilyn y ffin rhwng Cymru a Lloegr, drwy gyfres o drefi marchnad hanesyddol yng Nghymru a Lloegr, gyda golygfeydd a thirweddau gwledig godidog ar bob ochr. O'r diwedd, rydych yn cyrraedd dinasoedd mawr y de - Casnewydd yn gyntaf ac wedyn Caerdydd. Bron bob tro y byddaf yn siarad â phobl yng Nghaerdydd am y daith, byddant yn dweud nad ydynt wedi bod i'r gogledd yn aml iawn neu nad ydynt byth wedi bod yno. Drwy fynd o un pen o Gymru i'r llall fel hyn, pellter cymharol fyr o dua 230 o filltiroedd, gallwn weld rhai amrywiadau mawr iawn yn hanes, cyflwr a phrofiadau lleoedd a phobl wahanol. Yn dibynnu ar ble rydych, gall Cymru edrych yn lle gwahanol iawn.

Er ei bod yn wlad fach, mae Cymru yn amrywiol ac weithiau, caiff ei rhannu gan ei gwahaniaethau cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol, yn ogystal â'i gwahaniaethau daearyddol.

Mae'r adran hon yn archwilio rhai o'r prif amrywiadau rhanbarthol yng Nghymru.

### Gweithgaredd 3

Meddyliwch am beth rydych yn ei wybod yn barod am Gymru, a'r ffordd y mae wedi'i rhannu'n fathau gwahanol o leoedd a chymunedau.

- Beth yw'r prif wahaniaethau sy'n dod i'r meddwl?
- I ba raddau rydych chi'n gyfarwydd â Chymru - a oes rhannau o Gymru rydych yn eu hadnabod a'u deall yn dda iawn?
- A oes rhannau eraill nad ydych yn gyfarwydd iawn â nhw, sydd y tu allan i'ch 'map meddyliol'?
- Pam?

#### Discussion

Byddai fy ateb fy hun yn cynnwys y ffaith bod rhai rhannau o Gymru yn Gymraeg iawn, tra bod y Saesneg yn llawer mwy cyffredin mewn ardaloedd eraill. Mae rhai amrywiadau rhanbarthol amlwg o ran lleferydd ac acenion hefyd. Mae rhannau helaeth o Gymru yn wledig a thenau eu poblogaeth, a cheir ardaloedd o ddiffeithwch bron a harddwch naturiol eithriadol. Ond mae yna leoedd â hanes o ddatblygu diwydiannol anhygoel, yn ogystal â dirywiad. Mae clystyrau o gyfoeth sylweddol, gyda buddsoddiad mewn rhai datblygiadau pensaernïol ac amgylcheddol cyffrous newydd, ynghyd â mannau sy'n adnabyddus am broblemau o ran amddifadedd, tlodi ac esgeulustod. Mae gennym ganol trefi hanesyddol, a lleoedd sy'n adnabyddus am dreftadaeth Gymreig, ond ceir hefyd lawer o ystadau tai a diwydiannol newydd, canolfannau siopa a lleoedd sy'n ymddangos nad oes ganddynt fawr o gymeriad o gwbl. Ar ôl treulio'r rhan fwyaf o'm bywyd yn ardaloedd gwledig y gogledd a'r gorllewin, rwy'n llai cyfarwydd â'r de a'r Cymoedd mwy diwydiannol, a all ddylanwadu ar y ffordd rwy'n gweld y wlad yn ei chyfanrwydd.

Er ei bod yn wlad fach, mae llawer o amrywiaeth i'w weld yng Nghymru, o ran:

- amrywiadau daearyddol a ffisegol
- datblygiad cymdeithasol a hanesyddol
- gwahaniaethau o ran cyfoeth ac amddifadedd cymharol.

Yn yr adran hon, byddwch yn ystyried sut y gall yr ymdeimlad o 'fod yn Gymro/Cymraes' amrywio rhwng rhanbarthau gwahanol Cymru.

# 2.1 Rhanbarthau Cymru

## 2.1.1 Un Gymru neu fwy?

Dywedir mai eu hymlyniad at le a'u hymdeimlad cryf o berthyn i'r ardal leol yw un o nodweddion unigryw pobl Cymru. Y rheswm am hyn yw er bod Cymru yn fach ac yn glos, mae wedi datblygu mewn ffyrdd sy'n meithrin amrywiaeth a nodweddion unigryw. Mae ganddi boblogaeth o bron 3 miliwn ac mae cyfran fawr ohoni yn parhau i fyw mewn trefi bach a phentrefi. Mae wedi'i rhannu a'i gwahanu yn ddaearyddol, gan fryniau a mynyddoedd sydd hyd yn oed heddiw yn ei gwneud hi'n anodd cyfathrebu â phob rhan o'r wlad, a chan ddatblygiadau hanesyddol a greodd raniadau dwfn rhwng y Gymru wledig a'r Gymru ddiwydiannol, a rhwng y rhannau Cymraeg o Gymru a'r rhannau mwy Seisnigaidd. Er bod globaleiddio ac integreiddio yn golygu bod y gwahaniaethau hyn yn lleihau, maent yn gadael syniadau a meddyliau sy'n ein helpu i ddeall bywyd cyfoes ac yn rhoi cefndir dylanwadol i gryn dipyn o benderfyniadau a pholisïau diweddar.

Mae awduron blaenllaw, sy'n amrywio cymaint yn eu hagweddau at Gymru a Chymreictod â'r nofelydd a'r adolygwr Raymond Williams a'r bardd R. S. Thomas yn cytuno y dylid rhoi pwys ar bobl sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn eu tirlun lleol a'i hanes a'r gydberthynas gymdeithasol sydd ganddynt â'r bobl eraill sy'n byw o'u cwmpas. Mae Williams wedi ysgrifennu am yr amgylchedd cymdogol y cafodd ei fagu ynddo, a roddodd iddo ei ddiddordeb gydol oes ym mhosibiliadau cynhesrwydd a chysylltiadau dynol yn y gymuned fach, lle mae pobl yn gyfarwydd â'i gilydd ac yn dod i adnabod ei gilydd yn dda. Mae Thomas wedi portreadu agosatrwydd pobl wledig Cymru at y tir a'i amgylchedd naturiol, a'r diwylliant a'r ffordd o fyw sy'n cyd-fynd ag ef. Mae gwyddonwyr cymdeithasol sy'n ysgrifennu am Gymru wedi rhannu'r diddordeb hwn ym mhwysigrwydd eithriadol yr ardal leol a'r gymuned, a'r ymdeimlad o berthyn i le penodol.


## 2.1.2 Gwahaniaethau rhanbarthol yng Nghymru

Er ei bod yn wlad fach, mae ysgolheigion y Gymru gyfoes yn aml wedi pwysleisio maint ei rhaniadau a'i gwahaniaethau mewnol, sy'n golygu bod pobl sy'n byw mewn rhannau gwahanol o'r wlad yn wynebu amrywiaeth o amodau a phrofiadau gwahanol. O ganlyniad, awgrymwyd bod rhai gwahaniaethau sylfaenol o ran canfyddiadau a buddiannau sy'n tueddu i rannu pobl Cymru yn hytrach na'u cysylltu. Un ymdrech ddylanwadol i geisio cofnodi'r amrywiadau hyn yw model Denis Balsom o dri math o Gymru (1985), sy'n gwahaniaethu rhwng y Gymru Gymreig, y Gymru Brydeinig a'r *Fro Gymraeg* (gweler Ffigur 3).

Gan seilio ei ddadansoddiad ar atebion i gwestiynau arolwg, canolbwyntiodd Balsom ar ddau brif fesur: p'un a oedd person yn siarad Cymraeg ai peidio, a ph'un a oedd yn ateb ei fod yn 'Gymro/Cymraes', yn 'Brydeinig' neu'n rhywbeth arall. Drwy gyfuno'r dangosyddion

hyn, llwyddodd i rannu Cymru yn dair ardal wahanol â nodweddion diwylliannol a gwleidyddol gwahanol yn gysylltiedig â grwpiau cymdeithasol penodol. Yn ôl Balsom:

> The Welsh-speaking, Welsh identifying group is perhaps most distinctive and largely centred upon the north and west of Wales. This area is designated *y Fro Gymraeg*. The Welsh-identifying, non-Welsh-speaking group is most prevalent in the traditional south Wales area and labelled Welsh Wales. The British identifying non- Welsh speaking group dominates the remainder of Wales, described therefore as British Wales.
>
> (Balsom, 1985, t. 6)




Ffigur 3 Model Balsom o'r tri math o Gymru

(Balsom, 1985, t. 5)

Prif nod Balsom wrth lunio'r categorïau hyn oedd rhagweld ac egluro amrywiadau ym mhatrymau pleidleisiau'r pleidiau gwleidyddol. Awgrymodd fod y rhanbarthau hyn eisoes yn newid cryn dipyn wrth iddo baratoi'r gwaith. Roedd patrymau gwaith a diwydiant newydd a newidiadau yn y boblogaeth yn tanseilio'r hen ddelwedd o'r 'Celtic Fringe' a oedd wedi'i seilio ar Gymru wledig ac amaethyddol, a chadarnle'r Blaid Lafur yn y diwydiant glo. Roedd Balsom yn poeni'n benodol y byddai newidiadau a oedd yn effeithio ar ardal draddodiadol De Cymru fel yr oedd yn ei galw (ei 'Gymru Gymreig'), yn codi amheuaeth ynglŷn â math o hunaniaeth Gymreig a ddatblygwyd ac a fynegwyd drwy gyfrwng y Saesneg. Dywedodd fod hyn yn ei gwneud hi'n anodd meddwl am ymdeimlad o Gymreictod yn y dyfodol nad oedd wedi'i wreiddio yn yr iaith Gymraeg. Hynny yw, roedd yn rhagweld bod y Gymru Gymreig yn debygol o ddiflannu wrth iddi gyfuno fwyfwy â'r Gymru Brydeinig. Ar y llaw arall, cydnabu fod ymdeimlad cyffredin o Gymreictod yn dal i ddal Cymru at ei gilydd ac ,yn wir, fod tystiolaeth ar gael i ddangos bod dyfodiad sefydliadau gwleidyddol Cymreig yn atgyfnerthu'r ymdeimlad hwn. O'n safbwynt ni nawr, chwarter canrif yn ddiweddarach, gallwn farnu cywirdeb y rhagfynegiadau hyn.

## Gweithgaredd 4

Edrych yn ôl dros eich bywyd eich hun:

- Yn eich barn chi, i ba raddau roedd Balsom yn gywir i ragweld y byddai unrhyw ymdeimlad o Gymreictod nad oedd yn gysylltiedig â'r Gymraeg yn gwanhau?
- A oes mwy o bobl yn teimlo eu bod yn Gymry nawr o gymharu â thua 25 mlynedd yn ôl?
- Heblaw am iaith, am ba resymau eraill y gallai pobl ystyried eu bod yn Gymru?

### Discussion

Er bod siarad Cymraeg yn agwedd hynod o bwysig ar Gymreictod, gall pobl deimlo eu bod yn Gymry am lawer o resymau eraill. Gall y rhain gynnwys teyrngarwch i'r man lle cawsant eu geni a'u magu, ymdeimlad o gysylltiadau teuluol a chymunedol â Chymru, brwdfrydedd dros gyflawniadau artistig Cymru a'i chyflawniadau ym maes y campau, neu gyfranogiad mewn prosesau gwleidyddol a gweithgareddau gwirfoddol yng Nghymru. Gall pob un o'r rhain hyrwyddo ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig. Er y gellid disgwyl y byddai datganoli wedi cynyddu'r ymdeimlad o Gymreictod, nid oes llawer o dystiolaeth i gefnogi hyn. (Curtice 2013, t.17; Llywodraeth Cymru 2014)

Mae'n amheus p'un a oedd yr ardaloedd a ddiffiniwyd gan Balsom erioed mor daclus o hunangynhwysol a phenodol ag y mae Ffigur 3 yn awgrymu; mewn realiti, roedd y ffiniau rhyngddynt yn llawer mwy amwys yn ôl pob tebyg. Er enghraifft, roedd llawer o'r bobl yn y 'Gymru Gymreig' yn dod yn wreiddiol o ardaloedd mwy gwledig o'r *Fro Gymraeg* ac am gryn amser ar ôl hynny, roeddent yn dal i gynnal cysylltiadau gwirioneddol, neu sentimental, â'r ardaloedd hynny. Serch hynny, nid yw'n anarferol i Gymru gael ei rhannu fel hyn yn ardaloedd penodol fel y Gymru wledig; y *Fro Gymraeg*, a gaiff ei galw weithiau'n 'gadarnle' y Gymraeg; y Cymoedd; y dinasoedd, neu'r Gymru drefol (Caerdydd, Abertawe, Casnewydd, Wrecsam) ac ati. Dywedir yn aml fod gan yr ardaloedd hyn nodweddion gwahanol, gydag ystyron cysylltiedig, neu ddiwylliannau rhanbarthol, sydd nid yn unig yn adlewyrchu maint a dosbarthiad eu poblogaeth, ond sydd hefyd yn adlewyrchu gwahaniaethau o ran dosbarth, swyddi a ffordd o fyw, sy'n cyflwyno problemau a chyfleoedd gwahanol i'w trigolion.

Mae gan yr ardaloedd hyn eu heiriolwyr a'u cynrychiolwyr gwleidyddol a chânt eu cynrychioli mewn mathau penodol o ymatebion polisi a chyfeiriad polisi. Er enghraifft, lluniwyd llawer o bolisïau a strategaethau ar gyfer y Gymru wledig a lluniwyd rhai eraill er mwyn ceisio adfywio ardaloedd trefol. Am sawl blwyddyn arweiniodd y llywodraeth Raglen ar gyfer y Cymoedd, a luniwyd i wella cyfleoedd economaidd a chymdeithasol mewn rhan amddifad o'r de. Ers 2000, mae gorllewin Cymru i gyd wedi cael arian Ewropeaidd (Amcan 1, Arian Cydgyfeirio ac wedyn, ar gyfer 2014-2020, arian Strwythurol), am fod ei CDG y pen yn werth llai na 75% o gyfartaledd yr UE. Er mwyn pledio'r achos dros gael cymorth Ewropeaidd, bu'n rhaid ail-lunio map Cymru er mwyn tynnu sylw at y rhaniadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin gan bwysleisio'r problemau cyffredin a oedd yn wynebu'r Gymru wledig a Chymoedd y de a oedd yn dad-ddiwydiannu yn hytrach na'r gwahaniaethau rhwng y gogledd (gwledig) a'r de (diwydiannol) fel sy'n digwydd mor aml mewn dadleuon gwleidyddol yng Nghymru.

Ymdrech fwy diweddar i rannu Cymru yn ardaloedd amrywiol yw *People, Places, Futures: the Wales Spatial Plan* (2004; diweddarwyd yn 2008), a gafodd ei baratoi ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hwn yn rhannu Cymru yn nifer o 'ranbarthau' neu ardaloedd penodol â nodweddion gwahanol a'r bwriad yw ei ddefnyddio er mwyn helpu i wneud penderfyniadau datblygu priodol dros yr 20 mlynedd nesaf. Yn ôl y dadansoddiad hwn, mae gan Gymru chwe phrif 'isranbarth': gogledd-ddwyrain Cymru; gogledd-orllewin Cymru; canolbarth Cymru; de-ddwyrain Cymru; Bae Abertawe a'r Cymoedd Gorllewinol; a Sir Benfro a dyfrffordd Aberdaugleddau.

Nid oes ffiniau pendant i'r ardaloedd hyn; maent yn annelwig oherwydd ceir llawer o gysylltiadau trawsffiniol rhwng gweithgareddau dyddiol. Fodd bynnag, ar sail gwybodaeth ystadegol allweddol a data am amodau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, mae'r cynllun yn rhoi argraff o'r gwahanol fathau o 'ddaearyddiaeth gymdeithasol' sy'n bodoli yn y Gymru gyfoes. Dysgwn, er enghraifft fod gan y gogledd-orllewin hunaniaeth gref sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg a'r tirlun a'r arfordir godidog (Llywodraeth Cymru, 2004, t. 38) tra bod y gogledd ddwyrain yn cael ei ddisgrifio fel un

o'r prif ardaloedd sy'n sbarduno economi Cymru (t. 41). Dywedir bod 'rhwydwaith y brifddinas' yn y de-ddwyrain, sydd â'i ganolbwynt yng Nghaerdydd, yn rhwydwaith trefol sydd heb ei gynllunio ond sy'n rhyngddibynnol (t. 49) sy'n cynnwys rhai enghreifftiau o anghyfartaledd economaidd a chymdeithasol mawr. Mae'r canolbarth yn cynnwys clytwaith o aneddiadau cymharol fach (t. 45) sy'n ddeniadol iawn am eu hansawdd byw a'u hamgylchedd.

Mae'r Cynllun Gofodol yn darparu fframwaith sy'n dwyn awdurdodau cynllunio lleol ynghyd drwy ddyheadau a strategaethau cenedlaethol. Y rhagdybiaeth yw y bydd pobl sy'n byw mewn ardal benodol, fel arfer, yn profi manteision gwahanol, neu'n wynebu problemau gwahanol, o gymharu â phobl sy'n byw mewn mannau eraill ac felly rhaid llunio polisïau gwahanol ar eu cyfer a'u trin mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, mae pellter a mynediad at wasanaethau iechyd ac addysg yn peri mwy o broblemau i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle mae'r boblogaeth wedi'i gwasgaru ac lle nad oes cymaint o drafnidiaeth, na phobl sy'n byw yn y dinasoedd. Mae'n peri mwy o broblem byth i'r rhai nad oes ganddynt ddigon o arian nac adnoddau eraill i oresgyn y pellter - fel bod yn berchen ar gar neu fynediad at gar. Ond mae'n bwysig peidio â gorsymleiddio pethau, gan fod grwpiau ac unigolion yn byw mewn ardaloedd mwy trefol sy'n wynebu'r un fath o amddifadedd ac sy'n cael eu hymyleiddio i'r un graddau.

Mae'r gwahaniaethau hyn yn ymwneud â mwy nag adnoddau materol ac anghydraddoldebau - neu 'siawns bywyd' pobl - maent hefyd yn ymestyn i'r ffordd y mae pobl yn meddwl am ble y maent yn byw a'i nodweddion cadarnhaol a negyddol. Gall hyn gael ei fynegi ar ffurf gwahaniaethau mewn agweddau a diddordebau cymdeithasol a gwleidyddol.

Felly, mae Cymru yn wlad ddwyieithog yn swyddogol ac mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus (a chyn bo hir, cyrff preifat fel cyfleustodau) roi statws cyfartal i'r ddwy iaith. Ond oherwydd nad yw'r iaith wedi'i dosbarthu'n gyfartal drwy Gymru, mae gwleidyddiaeth yr iaith a'r ffordd y caiff polisïau iaith eu gweithredu yn amrywio o ardal i ardal. Mae'r iaith yn fwy amlwg mewn dadleuon a thrafodaethau yng Ngwynedd a Cheredigion nag y mae yn Sir Benfro am fod llawer llai o bobl yn Sir Benfro yn siarad Cymraeg neu'n teimlo ei bod yn bwysig. Yn yr un modd, mae dadleuon ynglŷn â mynediad agored i gefn gwlad, neu gyfreithlondeb hela, yn ennyn ymateb gwahanol mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig gan grwpiau sy'n ymwneud â ffermio ac amaethyddiaeth, o gymharu â rhai sy'n byw yn y dinasoedd sydd â diddordebau mwy 'trefol', yn naturiol. Mae ardaloedd gwahanol yn cynnwys poblogaethau gwahanol sydd, i ryw raddau, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol ac felly yn datblygu diddordebau gwahanol.

## 2.1.3 Safbwyntiau ar wahaniaethau rhanbarthol y 'cymeriad Cymreig'

Mae'r mathau o wahaniaethau mawr neu 'facro' â diffiniadau swyddogol yr ydym wedi'u hystyried hyd yma ond yn rhoi darlun cyffredinol o amrywiadau yng Nghymru, ac nid ydynt yn debygol o gyd-fynd yn union ag argraffiadau pobl gyffredin, sy'n aml yn gweld pethau o safbwynt lleol neu 'ficro' manylach a ddatblygwyd 'ar lawr gwlad'. Mae eu safbwyntiau nhw yn fwy tebygol o ddibynnu ar wybodaeth 'bob dydd' synhwyrol, y math o wybodaeth 'sydd gan bawb', yn hytrach nag ymchwil wyddonol systematig a gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ystadegol. Yn yr un modd, nid yw pobl bob amser yn defnyddio iaith gymdeithasegol neu academaidd wrth drafod y pynciau hyn ond eto i gyd, yn eu ffyrdd eu

hunain, maent yn dangos diddordeb mawr ynddynt a thipyn o ymwybyddiaeth ohonynt. Er enghraifft, yn narn Brian Roberts ar ei ymchwil i agweddau at Gymreictod yn un o gymoedd y de, mae'n dweud wrthym i un cyfrannwr gyfeirio at wahaniaethau yng 'nghymeriad' pobl sy'n byw mewn lleoedd gwahanol. Wrth gymharu trigolion rhanbarth amaethyddol cyfagos â thrigolion y cwm dan astudiaeth, dywedodd, 'In my opinion there's a difference in the people there and in the Valleys. A different character you know' (dyfynnwyd yn Roberts, 1999, t. 121). Ymhelaethodd ymatebydd arall ar yr awgrym hwn, gan ddefnyddio geiriau tebyg:

> There's a Valleys' character. If you went to West Wales, you'd find the Welshman is different, it's a land-working Welshman. Here you have the industrial, south Welshman who is totally different to the north. There is a division between north and south and mid Wales.
>
> (quoted in Roberts, 1999, t. 121)

Mae 'cymeriad', fel y caiff ei ddefnyddio yma, yn debyg iawn i'r term 'hunaniaeth' a gaiff ei ddefnyddio'n eang mewn gwaith ymchwil diweddar ym maes y gwyddorau cymdeithasol. Fel y dangosir yn y dyfyniadau hyn, gall unigolion a grwpiau ddatblygu ymdeimlad o'u hunaniaeth eu hunain drwy gymharu eu hunain ag eraill, gweld pwy sy'n debyg iddynt a phwy sy'n wahanol. Wrth lunio'r cymariaethau hyn, byddant yn meddwl am eu profiadau bob dydd, yn y lleoedd lle maent yn byw, yn gweithio ac yn mwynhau eu hunain. Mae cyfoeth o wybodaeth a dealltwriaeth yn gudd y tu ôl i sylwadau fel y rhai a ddyfynnwyd uchod, ac mae'n drawiadol pa mor bwysig yw gwahaniaethau daearyddol wrth drefnu'r safbwyntiau hyn ynglŷn â gwahaniaethau cymdeithasol. Maent yn awgrymu bod gan yr unigolion dan sylw fap o amrywiadau cymdeithasol, wedi'i drefnu yn ôl pwyntiau'r cwmpawd, y gellir eu crynhoi drwy'r cymariaethau a wnânt rhwng ardaloedd gwahanol fel y 'gorllewin' a'r 'Cymoedd'.

## Gweithgaredd 5

Cymerwch amser i bwyso a mesur yr hyn rydych wedi'i ddarllen hyd yma.

- I ba raddau y byddech chi'n cytuno bod 'cymeriadau' Cymreig gwahanol i'w gweld mewn rhannau gwahanol o Gymru?
- Pam felly?
- Pe gallech chi drafod y cwestiwn â'r rhai a gafodd eu cyfweld gan Brian Roberts, ym mha ffordd y byddai eu barn nhw yn wahanol i'ch barn chi?

---

### Discussion

Fel mae'n digwydd, roedd y ddau ymatebydd a ddyfynnwyd uchod yn ddynion 60 oed neu drosodd. Maent yn pwysleisio'r math o waith (diwydiannol neu amaethyddol) sydd, yn eu barn nhw, yn helpu i ffurfio cymeriad dynion Cymreig yn benodol. A fyddai'r un peth yn berthnasol i fenywod Cymreig? Neu i bobl iau? Pan fyddwch yn ystyried y peth, mae'n annhebygol y bydd pobl yn y de yn 'hollol wahanol' i bobl sy'n byw yn y gogledd (fel yr awgrymwyd). Yn wir, mae'n sicr y bydd ganddynt lawer yn gyffredin. Mae p'un a fyddwch yn pwysleisio'r gwahaniaethau neu'r tebygrwydd yn dibynnu ar eich pwynt cyfeirio: efallai na fyddai pobl o'r tu allan i Gymru yn sylwi ar y gwahaniaethau a nodwyd yn y sylwadau hyn. Eto i gyd, mae rhai gwahaniaethau gwirioneddol ddiddorol ac arwyddocaol rhwng lleoedd yn y de a'r gogledd, sy'n deillio o'r hyn a ddigwyddodd yno yn y gorffennol a nodweddion y sefyllfa ar hyn o bryd, ac

mae'n ddigon posibl bod hyn yn effeithio ar sut mae'r bobl sy'n byw yn y lleoedd hynny yn meddwl ac yn ymddwyn.

Mae'r amrywiadau lleol hyn, sy'n gysylltiedig â lleoedd, wedi creu traddodiad cyfoethog o astudiaethau lleol gan wyddonwyr cymdeithasol yng Nghymru (er enghraifft, Alwyn Rees (1950) ar Lanfihangel-yng-Ngwynfa; Ronald Frankenberg (1957) ar Lynceiriog; ac Isabel Emmett (1964) ar Lanfrothen). Mae'r astudiaethau hyn yn ystyried hunaniaeth a'r ymdeimlad o berthyn, a natur Cymreictod, mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol. Yn sgil y traddodiad hwn o waith ymchwil ym maes y gwyddorau cymdeithasol, mae gwyddonwyr cymdeithasol yng Nghymru, a lleoedd yng Nghymru, wedi dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r materion hyn yn fwy cyffredinol. Hefyd, mae gweithiau ysgrifenedig llenyddol pwysig am leoedd a chymunedau Cymreig sy'n cyfateb i'r gwaith academaidd sy'n ceisio cyplysu'r hyn sydd mor arbennig ac unigryw am leoedd gwahanol.

## 2.2 Casgliad

- Mewn ymchwil gymdeithasol, at ddibenion swyddogol ac ar lawr gwlad, caiff Cymru ei rhannu'n aml yn rhannau neu'n ardaloedd penodol y tybir bod ganddynt nodweddion gwahanol.
- Mae'r gwahaniaethau cymdeithasol a daearyddol hyn yn rhoi sail i'r ddadl bod mathau gwahanol o Gymry, neu fathau gwahanol o Gymreictod, sy'n dod i'r amlwg drwy agweddau ac ymddygiad.
- Fodd bynnag, nid yw'r ffiniau rhwng y rhanbarthau hyn yn bendant nac yn benodol a gall map cymdeithasol Cymru gael ei ddarlunio mewn ffyrdd gwahanol, at ddibenion gwahanol.

Caiff y themâu a ystyrir yn yr adran hon eu dwyn ynghyd mewn sylw gan ddau academydd, sy'n myfyrio ar bwysigrwydd parhaus cymuned ac iaith ym mywyd gwleidyddol Cymru ac, felly, ar y math o ymateb y gall mudiad fel Cymuned, sef y grŵp gwrthwladychol sy'n ymgyrchu dros gymunedau Cymraeg, ei ysbrydoli. O'n safbwynt ni, yr hyn sy'n nodedig yw'r ffordd y mae'n uno elfennau o'r ffisegol a'r cymdeithasol ('tir' a 'chymuned') â chyfeiriadau at iaith, diwylliant a hunaniaeth, er mwyn rhoi datganiad ar y galon sy'n curo yng Nghymru. Fel llawer o'r safbwyntiau rydym wedi eu hystyried, mae hefyd yn awgrymu bod dadl ynglŷn â beth yn union y mae gwir Gymreictod yn ei olygu:

> In Wales, ‘heartland communities’ ... provide a powerful focus for policy initiatives developed in their name. The phrase appeals to a hierarchy of presumed cultural authenticity, distinguishing a set of favoured enclaves where the ‘heart’ of Wales beats loudest. These communities are rooted most deeply in the ‘land’ of Wales, building on a productive association between supposed national distinctiveness or identity and images of gwlad –, as in *Hen Wlad Fy Nhadau*, of the Welsh national anthem. Phrases like ‘Welsh-speaking communities’ or even the innocent-sounding ‘small communities’ tap into a familiar ideological seam of meaning which predisposes us to find intense cultural value in communities, often with the idea of the Welsh language embedded in this idea.
>
> (Coupland and Bishop, 2006, t. 36)

Mae'r arolwg byr hwn o arwyddocâd cymdeithasol rhai o'r gwahaniaethau o ran lle a pherthyn sy'n bodoli yng Nghymru yn awgrymu bod sawl fersiwn o Gymreictod yn cystadlu â'i gilydd, yn hytrach na bod un ateb i'r cwestiwn 'Ymhle y gallwch fod yn Gymro/Cymraes go iawn?' na hyd yn oed hierarchaeth daclus o'r lleoedd mwyaf Cymreig i'r lleoedd lleiaf Cymreig. Gall pob un ohonynt newid ac oherwydd hyn, mae'n anodd diffinio ffiniau pendant a phenodol rhyngddynt.

Mae rhai prosesau cymdeithasol pwysig ar waith, fel y gyfradd symudedd sy'n tyfu'n gyson, sy'n tueddu i danseilio'r hyn sy'n gwneud lleoedd yn unigryw a gwanhau hunaniaeth cymunedau. Un o'r ffyrdd y mae pobl yn ymateb i'r grymoedd hyn yw drwy fynnu, weithiau yn gryfach nag erioed o'r blaen, bod angen diogelu ac amddiffyn eu cymunedau a'u cydberthnasau cymdeithasol presennol a'r hyn y maent yn ei olygu. Yng Nghymru, gallwn weld llawer o enghreifftiau o bobl yn amddiffyn syniadau ynghylch cymunedau a hunaniaeth sydd fel pe baent dan fygythiad, fel Cymuned.

Yn ystod yr hanner canrif ddiwethaf, mae rhai newidiadau cymdeithasol ac economaidd syfrdanol wedi digwydd yng Nghymru. Eto i gyd, ni ddylai hyn ein hatal rhag gweld bod rhai pethau'n parhau hefyd. Mewn enghraifft brin o ddychwelyd at astudiaeth flaenorol, mae ymchwilwyr o Abertawe wedi ailadrodd rhywfaint o'r gwaith a wnaed gan Rosser a Harris (1965) ac wedi darganfod fod nifer fawr o bobl (59 y cant o'r sampl a astudiwyd) yn parhau i fyw y rhan fwyaf o'u bywyd yn y dref (Charles a Davies, 2005). Ymhlith y rhain, roedd cysylltiadau teuluol cryf i'w gweld o hyd yn ogystal â phrofiadau cyffredin; er enghraifft, pobl a oedd wedi mynd i'r ysgol gyda'i gilydd, gweithio gyda'i gilydd a byw yn yr un gymdogaeth. Drwy'r lefel uchel hon o sefydlogrwydd preswyl, ffurfiwyd rhai rhwydweithiau lleol, clos. Teimlir yn aml fod perthyn i'r math hwn o rwydwaith yn rhywbeth nodweddiadol Gymreig ac mae'n gwneud i bobl deimlo'n hynod o Gymreig. Mewn geiriau eraill, mae'r 'gymuned' yn parhau ym mhrofiad llawer o bobl yn Abertawe. Fodd bynnag, mae'n sicr hefyd nad oes llawer o bobl yng Nghymru yn profi'r lefel hon o sefydlogrwydd ac agosatrwydd am fod eu bywydau yn llawer mwy symudol a newidiol. Er mwyn deall y Gymru fodern, rhaid inni ystyried y ddau brofiad hyn a'r safbwyntiau gwahanol o Gymreictod y maent yn eu creu.

I gloi, dylid nodi eich bod, ar wahanol bwyntiau yn yr adran hon, wedi dod ar draws y bwlch rhwng cymunedau fel y maent mewn gwirionedd ac fel y tybir mae'r cymunedau hynny. Er enghraifft, mae'r ymatebwyr i ymchwil wledig Cloke et al (1997), a oedd yn ceisio rheoli'r mathau o geir, llenni neu erddi a oedd gan eu cymdogion er mwyn cydymffurfio â delfryd o gymuned Gymreig go iawn, yn diffinio'r hyn sy'n dderbyniol yn eu barn nhw er mwyn creu ymdeimlad o berthyn. Mae hyn yn datgelu cryn dipyn am sut y maent yn dychmygu y dylai eu cymuned fod ond nid yw bob amser yn datgelu rhyw lawer am sut mae'r gymuned honno mewn gwirionedd. Wedi'r cyfan, nid dim ond pobl estron neu fewnfudwyr o Loegr sy'n teimlo nad oes angen mynd i'r capel, neu osgoi glanhau eu ceir ar ddydd Sul; mae'r rhan fwyaf o'u cymdogion Cymreig yn teimlo'n union yr un fath. Mae'n ymddangos bod y person a gwynodd nad oedd pobl yn cadw at reolau'r Sul yn meddwl am fath o Gymreictod sy'n briodol i gyfnod yr astudiaethau cymunedol clasurol, nad yw wedi adlewyrchu'r ffordd y mae'r rhan fwyaf o Gymry yn byw mewn gwirionedd ers blynyddoedd lawer. Un o'r pethau pwysicaf a ddysgwyd o ymchwil i faterion yn ymwneud â lle, cymuned a pherthyn yw bod angen cymryd gofal i beidio â gadael i argraffiadau hiraethus a rhamantus o fywyd yn y gorffennol guddio gwir gymeriad ac ansawdd bywyd lleoedd a chymunedau heddiw.

# 3 Gwaith

*Dave Adamson*

Mae'r adran hon yn edrych ar fyd gwaith yng Nghymru. Ei phrif amcan yw datblygu dealltwriaeth o'r gydberthynas rhwng newidiadau economaidd yng Nghymru a phatrymau gwaith a chyflogaeth sydd wedi dod i'r amlwg ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Mae economi Cymru wedi newid yn gyflym yn ystod y cyfnod hwn ac mae bywyd gwaith wedi newid hefyd. Mae'r diwydiannau a'r gweithgareddau a arferai ddominyddu economi Cymru wedi diflannu bron ac mae globaleiddio economaidd ac arloesed technolegol wedi cyflwyno patrymau gwaith a chyflogaeth newydd. Mae newidiadau mawr wedi digwydd i strwythur y gweithlu ac amodau gwaith pobl.

Mae'r adran hon yn ystyried siâp a natur economi gyfoes Cymru a'r patrymau gwaith sy'n deillio ohoni. Er mwyn gwneud synnwyr o ran helaeth o fywyd cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol yng Nghymru, rhaid deall cryfderau a gwendidau economi Cymru. Un o brif dasgau Llywodraeth Cymru yw creu sylfaen economaidd gadarn er mwyn cyflawni llawer o'i hamcanion cymdeithasol a diwylliannol. Fodd bynnag, mae gwendidau strwythurol allweddol yn economi Cymru sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn i Gymru gael yr un cyfoeth a ffyniant o gymharu â gweddill y DU.

## 3.1 Yr economi a gwaith yn y Gymru gyfoes

Mae'r adran hon yn adolygu'r economi a byd gwaith yng Nghymru ar hyn o bryd.

### Gweithgaredd 6

Cymerwch amser i feddwl am ba ddelweddau sydd gennych eisoes o waith yng Nghymru.

- Pa bortreadau o fywydau gwaith yng Nghymru rydych wedi'u gweld mewn ffilmiau a llenyddiaeth?
- Sut mae'r cyfryngau torfol yn cyfleu economi Cymru?
- Nodwch y tair prif ddelwedd rydych yn eu cysylltu â gwaith a chyflogaeth yng Nghymru.

#### Discussion

Gallaf ddweud yn gwbl sicr bron y bydd un o'ch delweddau yn cynnwys glöwr yn gwisgo helmed ac yn cario lamp Davy, neu efallai löwr â'i wyneb yn ddu a chap fflat ar ei ben. Efallai y bydd delwedd arall yn cynnwys gweithiwr dur â'r ffwrnes yn llosgi y tu ôl iddo a gwreichion o ddur tawdd yn neidio. Efallai bod eich trydedd ddelwedd yn cynnwys ffermwr defaid unig, yn crafu byw ym mryniau uchel gogledd Cymru. A wnaethoch chi hefyd feddwl am 'Fam' Gymreig, gan ei dychmygu mewn llun sepia bron efallai, yn pwyso yn erbyn drws ei 'phalas', y mae ei gwaith yn y cartref yn ategu gwaith mwy gweledol y dynion o'i chwmpas?

Mewn llawer o ffyrdd, mae'r rhain wedi dod yn ddelweddau ystrydebol o Gymru, sy'n ymddangos dro ar ôl tro mewn llenyddiaeth, celf, ffilmiau, ffotograffau ac ar y teledu. Fodd bynnag, mae economi fodern Cymru yn gymysgedd amrywiol a chymhleth o

weithgareddau sy'n amrywio o gynhyrchu diwydiannol trwm i ddiwydiannau sy'n gwneud defnydd arloesol o uwch-dechnoleg. Cymru yw un o ranbarthau'r DU sy'n dibynnu fwyaf ar y diwydiant gweithgynhyrchu o hyd ac er bod pwysigrwydd gweithgynhyrchu dur a gwneuthuro trwm wedi lleihau, mae mathau eraill o weithgynhyrchu diwydiannol wedi cymryd eu lle. Mae rhai o'r gweithgareddau modern, uchel eu proffil yn cynnwys gweithgynhyrchu adenydd awyrennau Airbus ym Mrychdyn yn y gogledd a chynhyrchu injans ceir ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn y de. Mae'r polisi o ddenu mewnfuddsoddiad i Gymru wedi sicrhau presenoldeb diwydiannau gweithgynhyrchu tecstilau, electroneg, rhannau ceir a nwyddau traul. O ganlyniad, y ffatri yw canolbwynt profiad gwaith llawer o bobl yng Nghymru ac yn 2012 roedd
10 y cant o'r gweithlu yn cael ei gyflogi mewn prosesau gweithgynhyrchu.

Er bod nifer a chyfran y gweithwyr ym maes gweithgynhyrchu wedi bod yn gostwng, gwelwyd twf yn y sector gwasanaethau - sy'n cynnwys y gwasanaethau cyhoeddus (e.e. iechyd ac addysg), cyfanwerthu, manwerthu, dosbarthu a chludiant, bancio a chyllid a hamdden. Yn 2012, roedd tua 86% o swyddi Cymru yn y sector gwasanaethau. Mae Tabl 1 yn dangos dosbarthiad swyddi (yn 2012) yn y sectorau diwydiannol gwahanol yng Nghymru.

### Tabl 1 Swyddi'r gweithlu yng Nghymru yn ôl diwydiant, 2012

| Sector diwydiannol | Nifer | canran |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 35,600 | 2.7 |
| Cloddio a chwareli | 2,200 | 0.2 |
| Gweithgynhyrchu | 130,300 | 9.9 |
| Cyflenwi trydan, nwy, stêm a systemau aerdymheru | 6,600 | 0.5 |
| Cyflenwi dŵr; carthffosiaeth, gweithgareddau rheoli ac adfer gwastraff | 12,500 | 0.9 |
| Adeiladu | 89,700 | 6.8 |
| Cyfanwerthu, manwerthu, cludiant, gwestai a bwyd | 342,000 | 25.9 |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 25,900 | 2.0 |
| Gweithgareddau cyllid ac yswiriant | 30,900 | 2.3 |
| Gweithgareddau eiddo tiriog | 18,500 | 1.4 |
| Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth | 136,400 | 10.3 |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, diogelwch cymdeithasol gorfodol | 87,600 | 6.6 |
| Addysg | 129,100 | 9.8 |
| Gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol | 200,600 | 15.2 |
| Gweithgareddau gwasanaeth eraill - celfyddydau, adloniant a hamdden | 39,400 | 3.0 |
| Gweithgareddau gwasanaeth eraill - diwydiannau eraill | 32,200 | 2.4 |
| | 1,319,500 | 100 |

Llywodraeth Cymru (2013)

Gallwn nodi'r tair prif broblem sy'n wynebu economi Cymru ar hyn o bryd (Bryan a Roche, 2009). Y cyntaf yw'r ffaith bod Cymru yn tanberfformio'n gyson o gymharu â'r rhan

fwyaf o ranbarthau eraill y DU. Fel arfer, mae allbwn economaidd rhanbarth yn cael ei fesur yn ôl ei werth ychwanegol gros (GVA).

Mae'r nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru ond yn cyfateb i 72 y cant o GVA y DU (yn 2013), gyda'r lefelau isaf yn Ynys Môn, 49 y cant, a Chymoedd Gwent, 57 y cant. Mae'r bwlch hwn yn dechrau tyfu'n raddol hefyd er bod yr Undeb Ewropeaidd (UE) wedi buddsoddi llawer o arian strwythurol. Er mwyn bod yn gymwys i gael yr arian hwn, rhaid i gynnyrch domestig gros (GDP) Cymru fod yn llai na 75 y cant o gyfartaledd y DU. Disgrifiwyd hyn fel 'a badge of failure' (Hill, 2000, t. 1); gan ei fod yn dangos mai Cymru oedd un o'r rhanbarthau tlotaf yn Ewrop cyn i wladwriaethau'r olyniaeth yn Nwyrain Ewrop gael eu hychwanegu'n ddiweddar. Yn anffodus, ni lwyddodd y cylch cyntaf hwn o arian Ewropeaidd i newid GDP yng Nghymru yn sylweddol a dyrannwyd cylch newydd o arian yn 2008. Mae'r arian hwn, a gaiff ei alw'n 'arian cydgyfeirio' erbyn hyn, yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd fwy strategol na rhaglen Amcan 1. Gyda'r arian cydgyfeirio, mae Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan ganolog o ran sut y caiff yr arian ei ddefnyddio, yn wahanol i'r model mwy datganoledig a oedd yn rhoi mwy o rôl i lywodraeth leol a sefydliadau yn y trydydd sector.

Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymyriadau hyn, siomedig yw perfformiad economaidd Cymru o hyd. Un o'r rhesymau mwyaf dros hyn yw ail brif broblem economi gyfoes Cymru: y gyfradd gyflogaeth isel. Mae'r ffigur hwn yn wahanol i'r gyfradd ddiweithdra, sydd ond yn mesur faint o bobl sy'n chwilio am waith. Yn lle hynny, mae'r gyfradd gyflogaeth yn mesur y rhai sy'n gweithio fel cyfran o'r holl boblogaeth oedran gweithio. Mae'r gyfradd gyflogaeth yn rhoi gwybodaeth inni am bob math o anweithgarwch economaidd, gan gynnwys diweithdra, ymddeoliadau cynnar a'r rhai nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch neu analluogrwydd. Cymru sydd â'r gyfradd gyflogaeth isaf yn y DU bob tro, ar wahân i ogledd-ddwyrain Lloegr. Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl o oedran gweithio yng Nghymru yn economaidd anweithgar ac nad ydynt yn chwilio am swyddi ar hyn o bryd. Dyma un o brif wendidau economi Cymru ac mae'n rhwystro unrhyw welliannau mewn allbwn. Edrychwn ar ganlyniadau cymdeithasol cyfraddau uchel o anweithgarwch economaidd yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Y broblem fawr arall yn economi Cymru yw bod cyflogau'n tueddu i fod yn is na mannau eraill yn y DU (gweler Ffigur 4). Er bod amrywiadau rhwng sectorau gwahanol o'r economi, mae'r patrwm cyffredinol yn dangos bod enillion cyfartalog yng Nghymru ond yn cyfateb i 87 y cant o lefel y DU. Yn y DU ym mis Ebrill 2013, £620 oedd yr enillion wythnosol gros cyfartalog o gymharu â chyfartaledd Cymru o £539 ac mae hyn yn dangos bod y bwlch wedi tyfu rhywfaint dros y blynyddoedd diwethaf. Cyflogau isel yw un o brif achosion tlodi yng Nghymru erbyn hyn, yn hytrach na diweithdra a oedd yn gyfrifol am dlodi'r rhan fwyaf o bobl yn y 1990au. Fodd bynnag, mae effeithiau'r dirwasgiad a ddechreuodd yn 2007 ac effaith mesurau cynilo Llywodraeth Glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn golygu bod diweithdra yn adfer ei statws fel un o brif achosion tlodi unwaith eto.



Ffigur 4 Gwaith cyflog isel yn y diwydiant gwasanaethau yng Nghymru

Jason Bye/Rex Features

Gan ddychwelyd at ein delweddau o Gymru a'r patrwm gwaith, gallwn weld bod economi Cymru yn llawer mwy cymhleth nawr nag y byddem wedi dychmygu a bod problemau strwythurol craidd yn economi Cymru sy'n peri heriau mawr i'r llywodraeth yng Nghymru ond, yn bwysicaf oll, i'r bobl sydd heb waith neu sydd ar gyflogau isel. Nid yw'r delweddau o lowyr, gweithwyr dur a ffermwyr yn disgrifio'r byd gwaith a chyflogaeth cyfoes yng Nghymru mwyach. Mae'r ddelwedd o'r 'Fam' Gymreig yn perthyn i'r gorffennol hefyd, gan fod cyfraddau gweithgarwch economaidd ymhlith merched yn parhau i dyfu. Er mwyn deall y trawsnewidiadau sydd wedi digwydd yn llawn, mae'n rhaid olrhain y prif newidiadau mewn gweithgarwch economaidd yng Nghymru ers yr Ail Ryfel Byd. Mae'r economi sydd gennym heddiw a'r patrymau gwaith a welwn yn deillio o newidiadau economaidd a chymdeithasol mawr a gaiff eu hystyried yn adran nesaf y cwrs.

## 3.2 Gwaith, pobl heb waith a thlodi

Mae'r adran hon yn amlinellu'r gydberthynas rhwng economi Cymru a phatrymau gwaith a phrofiadau gwaith yng Nghymru. Yn anffodus, un o ganlyniadau mwy negyddol yr economi Gymreig yw lefelau uchel o dlodi. Dros y blynyddoedd diwethaf, mesurwyd tlodi yn bennaf yn nhermau tlodi plant:


> ‘The child poverty rate in Wales is 32 per cent, currently the highest in the UK where the average is 31 per cent. In comparison, Scotland and Northern Ireland have child poverty rates of 25 per cent’.
>
> (Kenway et al., 2008)

Mae ymchwil ddilynol yn nodi ffigur o 29% ac mae wedi aros yn weddol gyson dros y degawd diwethaf (Sefydliad Joseph Rowntree, 2013).

Mae'r patrwm gweithgarwch economaidd yn dylanwadu ar lefelau tlodi yng Nghymru mewn dwy ffordd. Y cyntaf yw'r ffordd y mae cyflogau isel yn lleihau incwm teuluoedd. Yng Nghymru, nid yw'r ffaith bod gennych swydd yn golygu o reidrwydd na fyddwch yn profi tlodi. Yn 2010, roedd 23 y cant o ddynion a 19 y cant o ferched mewn gwaith amser llawn yng Nghymru yn ennill llai na £7 yr awr, gan arwain at y casgliad ‘Wales remains a low-pay economy’ (Kenway et al., 2007, t. 4). Mae patrymau gofodol yn gysylltiedig â dosbarthiad cyflogau isel hefyd, gyda mwy o swyddi cyflog isel mewn ardaloedd gwledig. Dylanwad arall yr economi dros lefelau tlodi yw canlyniadau lefelau uchel o anweithgarwch economaidd.

Yn hyn o beth, mae Cymru yn adlewyrchu'r profiad ehangach o fod heb waith mewn ardaloedd a arferai fod yn gadarnleoedd i'r diwydiant glo, y diwydiant gweithgynhyrchu dur a diwydiant trwm. Wrth i'r sylfaen ddiwydiannol yng Nghymru ddymchwel ar ddechrau'r 1980au, tyfodd lefelau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn gyflym. Mae 'anweithgarwch economaidd' yn derm mwy defnyddiol i'w ddefnyddio gan ei fod yn cynnwys llawer mwy o gategorïau o bobl heb waith na dim ond pobl sy'n ddi-waith. Er enghraifft, mae'n cynnwys pawb o oedran gweithio nad ydynt mewn gwaith, gan gynnwys pobl â salwch ac anabledd hirdymor a'r rhai sydd wedi ymddeol yn gynnar yn ogystal â'r rhai sy'n chwilio am waith ar hyn o bryd. Un patrwm clir a ddaeth i'r amlwg yn y 1980au oedd bod nifer fawr o bobl yn cael Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Anabledd Difrifol. Mae Ffigur 5 yn dangos cyfraddau anweithgarwch economaidd yng Nghymru ers 1984 a'r gwrthgyferbyniad rhwng y cynnydd graddol ymhlith dynion a'r gostyngiad ymhlith merched. Eglurir hyn yn rhannol gan y cynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth i ferched wrth i swyddi ym maes manwerthu a gwasanaethau (sy'n cyflogi mwy o ferched na dynion yn

draddodiadol) ddod yn fwyfwy pwysig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r nifer sylweddol sy'n hawlio Budd-dal Analluogrwydd yng Nghymru yn destun pryder mawr ac yn cael sylw cynyddol ym mholisïau'r llywodraeth.




Ffigur 5 Anweithgarwch economaidd yng Nghymru, 2007 (diweddarwyd gydag Ystadegau Cymru (2013) SB 112/2013))

## Gweithgaredd 7

Astudiwch Ffigur 5 sy'n dod o fwletin ystadegol gan Lywodraeth Cymru am weithgarwch economaidd. Wrth ichi wneud hynny:

- Cymharwch gyfraddau gweithgarwch dynion a merched.
- Cofiwch rai o'r prosesau rydych wedi darllen amdanynt yn yr adran hon a nodwch pam bod y gyfradd anweithgarwch economaidd yn parhau i ostwng ymhlith merched.

### Discussion

Mae'r graff hwn yn dangos y mesur rhifol syml o anweithgarwch economaidd. Byddwch wedi sylwi bod cyfradd anweithgarwch dynion yn parhau i gynyddu, tra bod gostyngiad graddol yng nghyfraddau anweithgarwch merched. Y rheswm am hyn yw bod mwy o le i ferched ym myd gwaith bellach. Er ei bod yn bwysig deall yr ystadegau ynglŷn ag anweithgarwch economaidd, mae hefyd yn bwysig deall yr effaith gymdeithasol a gaiff lefelau uchel o bobl sydd heb waith am gyfnodau hir. Mewn llawer o gymunedau yng Nghymru, mae rhai teuluoedd yn cynnwys tair cenhedlaeth o unigolion economaidd anweithgar.

Un ffactor ddifrifol yw y gall pobl heb waith a chyflogau isel gael eu canoli mewn cymunedau a theuluoedd penodol. Gall y canlyniadau i'r unigolyn, y teulu a'r gymuned fod yn sylweddol. Yn ogystal, mewn ardaloedd lle mai cyflogau isel ac anweithgarwch economaidd yw'r prif brofiadau, gall newid diwylliannol mawr ddigwydd sy'n datgysylltu'r gymuned oddi wrth y gwerthoedd diwylliannol ehangach sy'n ategu ymrwymiad i waith Gall lefelau isel o gyfleoedd economaidd greu agwedd ffatalaidd sy'n derbyn mai dyfodol heb waith yw'r norm. At hynny, gall anweithgarwch

economaidd fod yn ddewis rhesymegol mewn amgylchiadau lle ceir cyflogau isel ynghyd â phatrymau cyflogaeth ansefydlog a nifer uchel o swyddi rhan-amser ac achlysurol. Mewn ardaloedd fel hyn mae pobl ifanc yn y system addysg yn aml yn colli cymhelliant a gall diwylliant ddatblygu sy'n gwrthod gwerthoedd academaidd yr ysgol ac yn tanseilio perfformiad addysgol. Gall pwysau gan gyfoedion i beidio â gweithio ddatblygu a gall diffyg dyhead a hyder cyffredinol orchfygu'r profiad cymdeithasol lleol.

Mae'r addasiadau cymdeithasol a seicolegol hyn i ddiweithdra a chyflogau isel yn cuddio achosion strwythurol tangyflogaeth yn yr ardaloedd hyn. Mae'r rhwystrau ystyfnig i gyflogaeth yn cynnwys unigedd a phellter daearyddol o fannau gwaith, cysylltiadau trafnidiaeth gwael ac, yn y bôn, sylfaen sgiliau isel y boblogaeth. At y rhestr hon gallwn ychwanegu gwerthoedd unigol a chyffredinol sy'n golygu bod pobl yn gwrthod teithio i fannau gwaith ac yn dechrau derbyn bod byw mewn tlodi yn normal a hyd yn oed yn foddhaol.

Fel y mae byd gwaith wedi dylanwadu ar ddiwylliant Cymreig yn y gorffennol, mae bod heb waith yn dylanwadu'n wael ar ymgysylltiad a chyfranogiad yn y gymuned ehangach. Gall cymunedau a nodweddir gan bobl heb waith gael eu hynysu a'u gwthio i'r ymylon yn ddiwylliannol, proses a elwir fel arfer yn allgau cymdeithasol. Gall gorwelion cymdeithasol y bobl sy'n byw yn y cymunedau hyn gael eu cyfyngu i'r ardal honno a ffiniau'r ystâd neu'r gymuned fydd gorwel cymdeithasol pellaf y trigolion. Gall profiadau diwylliannol lleol gael eu cywasgu a gall cymunedau cyfan golli eu cysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol â'r economi a byd gwaith.

## 3.3 Casgliad

- Cyflogau isel yw un o achosion tlodi, yn enwedig yn ardaloedd gwledig Cymru.
- Mae lefelau uchel iawn o bobl heb waith mewn ardaloedd a arferai fod yn gadarnleoedd y diwydiant glo, y diwydiant gweithgynhyrchu dur a diwydiant trwm.
- Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd yn cynyddu ymhlith dynion, ond yn gostwng ymhlith merched.
- Un o ganlyniadau anweithgarwch economaidd yw bod yr unigolion a'r cymunedau dan sylw yn cael eu gwthio i'r ymylon.

Yn yr adran hon, rydych wedi astudio prif nodweddion yr economi Gymreig gyfoes a'r patrymau gwaith sy'n deillio ohoni. Mae newidiadau cymdeithasol mawr wedi digwydd mewn ymateb i batrymau economaidd newydd, yn enwedig rôl gynyddol merched yn y gweithle a'r profiad o fod heb waith. Mae'r ddau newid hyn wedi effeithio ar fywyd teuluol a chymdeithasol; yn wir, mae'r profiad cymdeithasol a diwylliannol o fyw yng Nghymru wedi newid. Mae sicrhau dyfodol mwy ffyniannus i economi Cymru yn her fawr i Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â goresgyn rhai o wendidau strwythurol yr economi, bydd yn rhaid i bolisïau herio effaith gymdeithasol a diwylliannol cyflogau isel ac anweithgarwch economaidd hirdymor yn llwyddiannus er mwyn i holl ddinasyddion Cymru fwynhau safonau byw sy'n cymharu'n ffafriol â gweddill y DU.


# 4 Rhywedd a 'hil'

*Sandra Betts a Charlotte Williams*

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y prif wahaniaethau hiliol a'r prif wahaniaethau rhwng dynion a merched yn y Gymru gyfoes, ond mae'n bwysig trafod y materion hyn mewn cyd-destun hanesyddol. I'r perwyl hwn, mae'r adran hon yn edrych ar rai syniadau, portreadau a damcaniaethau ynglŷn â hil a rhywedd yn ystod yr 20fed ganrif hyd at heddiw.

## 4.1 Meddwl am 'hil' a Chymru

Mae llenyddiaeth a pholisïau ar gysylltiadau hiliol wedi tueddu i ganolbwyntio ar ardaloedd lle ceir grwpiau mawr o leiafrifoedd ethnig yn y DU. Am nifer o resymau, nid yw Cymru wedi'i chynnwys fel arfer ar fap cysylltiadau hiliol Prydain. Mae hyn yn rhyfedd gan fod Cymru yn gartref i un o'r cymunedau du neu, yn fwy priodol, amlddiwylliannol hynaf yn Ewrop (gweler Ffigur 6).



Ffigur 6 Delweddau o Butetown yn y 1950au o *Down the Bay*, ffotograffau gan Bert Hardy
Bert Hardy/Getty Images

Yn y 1940au, astudiodd Kenneth Little ‘the coloured people of Cardiff’ fel y'u galwodd, gan roi cipolwg ar wyddor cymdeithasol cysylltiadau hiliol yng Nghymru (Little, 1948). Roedd y rhan o Gaerdydd a elwid ar ddechrau'r 20fed ganrif yn Tiger Bay, sef ffocws astudiaeth Little, wedi hen ennill enw iddi ei hun am fod yn 'ecsotig' cyn troad y ganrif hyd yn oed. Roedd hanesion gan nofelwyr, colofnwyr papurau newydd, gweithwyr cymdeithasol, gweision sifil, diwygwyr cymdeithasol ac eraill wedi cyfrannu at greu portread digon amwys o'r ardal fel lle brwnt, afiach, treisgar ac anfoesol ond, ar yr un pryd, lle diddorol ac un o'r enghreifftiau gorau yn y byd o gysylltiadau hiliol cytûn.

Yn wyneb y cefndir hwn, aeth Little ati i gynnal arolwg cymdeithasol manwl a oedd yn cofnodi amgylchiadau economaidd-gymdeithasol rhai o fewnfudwyr 'croendywyll' (term a ddefnyddiwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd) cyntaf Cymru:

> We can proceed to consider the coloured community itself. The main elements consist of Arab, West African and West Indian seamen, but it has been estimated that altogether in this Loudoun Square quarter [in Butetown] some fifty different nationalities are to be found. ... The square itself serves as a

> convenient centre. Here the density of the coloured population is greatest – with perhaps eight out of every ten persons.
>
> (Little, 1948, t. 68)

Gan grynhoi'r sefyllfa o ran cyflogaeth yn yr ardal ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, dywed Little ‘the community may be expected to undergo further vagaries of economic hardship’ (1948, t. 75), ac wrth adolygu cyflwr cysylltiadau hiliol rhwng y gymuned groendywyll a'r boblogaeth fwyafrifol o bobl wyn ar y pryd, dywed ‘the community is segregated with some considerable degree of rigidity from the rest of the city in the geographical, social and psychological senses; in the last respect the existence of strong patterns of colour prejudice among residents of the town is the main causal factor’ (1948, t. 183).

Mae angen ystyried patrymau mewnfudo a'r amrywiaeth ethnig a ddeilliodd o hynny yn eu cyd-destun hanesyddol. Yng nghanol y 19eg ganrif, denodd ffyniant y diwydiant glo a'r diwydiant llongau masnachol forwyr du o Affrica, America ac India'r Gorllewin. Erbyn yr Ail Ryfel Byd, roedd y gymuned hon wedi hen ymsefydlu; roedd llawer o ryngbriodasau a gwelwyd ail genhedlaeth neu drydedd genhedlaeth o bobl 'gymysg eu hil'. Ni chafodd Cymru fewnfudwyr o India'r Gorllewin yng nghyfnod y *Windrush* a oedd mor nodweddiadol o nifer o ddinasoedd yn Lloegr (Evans, 2002). Mae astudiaeth Little yn nodi pedwar mater pwysig yn ymwneud â 'hil' yng Nghymru. Mae'r anheddiad hwn yn cynrychioli rhywbeth gwahanol iawn i rannau eraill o'r DU, lle cafodd yr aneddiadau cyn y rhyfel mewn trefi mawr fel Llundain, Bryste a Lerpwl eu sefydlu'n bennaf o ganlyniad i economeg y diwydiant llongau a'r busnes o gludo caethweision. Yr ail bwynt, sy'n bwysig er mwyn deall rhaniadau hiliol cyfoes, yw bod astudiaeth Little yn dangos bod y mater o 'hil' yng Nghymru wedi'i gyfyngu i ardal ychydig llai nag un filltir sgwâr yn ardal y dociau yng Nghaerdydd. Yn drydydd, mae'r gwaith yn cofnodi'r mathau o wahaniaethu, hiliaeth ac eithrio a wynebwyd gan yr unigolion hyn a'u disgynyddion sy'n parhau i gael effaith heddiw. Y pedwerydd pwynt, sy'n hynod o ddiddorol, yw bod yr astudiaeth yn gofyn a oes rhywbeth gwahanol neu unigryw am Gymru o ran deall 'hil' a hiliaeth

Yn hanesyddol, pan ddaeth y boblogaeth fwyafrifol Gymreig a'r mewnfudwyr duon ac ethnig lleiafrifol i gysylltiad â'i gilydd, ceir tystiolaeth o gysylltiadau hiliol cyfeillgar a gwrthdaro ethnig dwfn ac eto i gyd, un o brif fythau hunaniaeth genedlaethol Cymru yw ei bod yn portreadu Cymru fel cenedl oddefgar, yn enwedig o gymharu â'i chymdoges, Lloegr. Wrth ddarllen unrhyw hanes am gysylltiadau hiliol yng Nghymru, bydd yn amlwg bod ffawd y Cymry eu hunain fel lleiafrif ethnig yng nghyd-destun ehangach Prydain yn ffactor bwysig er mwyn ceisio deall y myth poblogaidd hwn ynglŷn â goddefgarwch y Cymry.

Cymru, yr Alban ac Iwerddon oedd trefedigaethau (mewnol) cyntaf prosiect imperialaidd mawr Prydain. Mae hyn wedi arwain at ymdeimlad parhaol o orthrwm cenedlaethol. Er enghraifft, mae profiad Cymru o oruchafiaeth ddiwylliannol Lloegr pan gollodd ei hymreolaeth, pan gafodd ei hiaith a'i diwylliant eu darostwng ac y bu'n rhaid i'r Cymry eu hunain wynebu hiliaeth, wedi arwain at ymdeimlad treiddiol a pharhaol o orthrwm cenedlaethol. Mae gwleidyddiaeth ymreolaeth ac ymdrechion i adfer lle'r Gymraeg a diwylliant Cymru ym mywyd cyhoeddus wedi bod yn ffocws allweddol i wleidyddiaeth gwrthdaro ethnig yng Nghymru. Y math hwn o wrthdaro ethnig, rhwng y Cymry a'r Saeson, sydd wedi cael y sylw'n bennaf gan ddisodli unrhyw ffocws ar raniadau hiliol eraill.

Cred gyffredin, ond anghywir o bosibl, yw bod y profiad hanesyddol hwn wedi creu empathi cryf a goddefgarwch tuag at leiafrifoedd hiliol eraill. Y ddadl yw bod y Cymry, am iddynt gael eu gorthrymu eu hunain, yn deall gorthrwm pobl eraill yn well, gan gynnwys

gorthrwm pobl ddu. Yn yr ystyr hwn, caiff cymeriad cenedlaethol y Cymry ei bortreadu fel un gwrthimperialaidd, goddefgar a rhyngwladol, yn wahanol i'r Saeson, sy'n cael eu hystyried yn bobl wladychol a hiliol. Wrth gwrs, rhan o'r myth cenedlaethol a ddatblygwyd yw hyn ac nid oes tystiolaeth hanesyddol na chyfoes i'w gefnogi. Fodd bynnag, mae'n gred ddofn a grymus. Defnyddiwyd y syniadau hyn i raddau amrywiol yn y Gymru gyfoes i bortreadu'r Cymry fel cenedl anhiliol. Un o ganlyniadau'r myth hwn yw'r farn nad yw materion yn ymwneud â 'hil' a hiliaeth yn broblem yng Nghymru. Mae'r syniad nad yw 'hil' yn broblem yma wedi bod yn ddadl rymus er gwaethaf tystiolaeth sylweddol i'r gwrthwyneb.

Yn sgil y syniadau hyn, ar ôl datganoli, nid ystyriwyd bod 'hil' yn fater ar gyfer ymyriadau polisi cyhoeddus. Wrth gwrs, roedd llawer o bolisïau cyhoeddus y DU ar hil (e.e. Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976) yn gymwys i Gymru. Y dybiaeth oedd nad oedd angen polisïau o'r fath yng Nghymru gan mai dim ond nifer gymharol fach o bobl a oedd yn dod o leiafrifoedd ethnig. Yn wyneb y dybiaeth hon, ni chafodd hiliaeth ei chydnabod gan y llywodraeth ac roedd agwedd o laesu dwylo ymhlith gweision sifil a llunwyr polisi yn golygu na roddwyd fawr ddim sylw i faterion yn ymwneud â 'hil'. Prin roedd Cymru'n cael ei chydnabod fel cymdeithas amlddiwylliannol mewn bywyd cyhoeddus.

Ar yr un pryd, am nad oedd ganddynt ddylanwad gwleidyddol, ni allai lleiafrifoedd sicrhau bod eu pryderon yn cael sylw ar yr agenda wleidyddol. Mae'r boblogaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn amrywiol iawn, yn wasgaredig ac wedi'i hynysu ac mae hyn wedi'i gwneud hi'n anodd iddi ddatblygu unrhyw fath o hunaniaeth wleidyddol gyfun, gref er mwyn ysgogi newid. Roedd unrhyw weithgarwch ar lawr gwlad wedi'i gydgysylltu'n wael ac wedi'i drefnu mwy ar sail cymorth cymdeithasol na lobïo gwleidyddol. I bob pwrpas, roedd lleiafrifoedd ledled Cymru yn parhau i fod yn ddifreiniedig, yn ddi-rym ac yn gudd. Dim ond ag ardal fach iawn yng Nghaerdydd y cysylltwyd y syniad o Gymru amlddiwylliannol ac roedd y ffaith na welwyd gwrthdaro rhyngethnig yn yr ardal fach hon o Gymru wedi helpu i greu'r myth o gysylltiadau hiliol cytûn.

Mae'r gallu i uniaethu â'r gymuned genedlaethol a bod yn aelod ohoni yn bwysig er mwyn arfer hawliau dinasyddiaeth a sicrhau cydraddoldeb. Os byddwch yn teimlo eich bod yn perthyn, mae'n bosibl hefyd y byddwch yn teimlo bod hawl gennych i fanteisio ar rai o gyfleoedd y gymdeithas honno. Mae'r rhan fwyaf o bobl o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru wedi profi rhwystredigaeth yn hyn o beth. Caiff yr ymdeimlad o berthyn i'r gymuned genedlaethol ei arddangos mewn nifer o ffyrdd a'i gyfleu drwy syniadau ynglŷn â 'Chymreictod': pwy sy'n cael eu hystyried yn Gymry a phwy nad ydynt yn cael eu hystyried yn Gymry. Mae sefyllfa ymylol lleiafrifoedd ethnig wedi'i dwysáu gan y prif ddehongliadau o hunaniaeth genedlaethol Gymreig sydd i'w gweld mewn delweddau poblogaidd a thrafodaethau gwleidyddol. Gall y ffordd y mae cenedl yn adrodd ei stori drwy ei phortreadau diwylliannol a'r ffordd y mae'n portreadu pwy sy'n Gymry a phwy nad ydynt yn Gymry, eithrio rhai grwpiau. Mae'n anochel bod rhywfaint o dyndra rhwng dyheadau gwlad sy'n awyddus i ddatblygu ei hun fel cenedl ar wahân ac un sy'n dymuno portreadu delwedd o wlad sy'n croesawu ac yn derbyn pob grŵp ethnig.

Mae Gweithgaredd 10 yn edrych ar y tyndra hwn: sut i ddatblygu ymdeimlad o gymundod cenedlaethol a hunaniaeth genedlaethol unigryw gan fynd ati ar yr un pryd i ymgorffori poblogaeth ethnig sy'n gynyddol amrywiol. Mae'r materion hyn wedi cael cryn sylw gan wleidyddion ac ysgolheigion yng Nghymru, yn enwedig ar ôl datganoli.

## Gweithgaredd 8

Daw'r darn isod, 'Can we live together? Wales and the multicultural question', o ddarlith gyhoeddus i Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, yn Llundain, gan Charlotte Williams, un o awduron yr adran hon.

Wrth ichi ddarllen, ystyriwch y cwestiynau canlynol:

- Beth a olygir gan y 'paradocs' o geisio cysoni amrywiaeth ag uniondeb cenedlaethol?
- Pam bod hwn yn gyfyng-gyngor cyfoes?

### Darn 1 Can we live together? Wales and the multicultural question

Addressing a multicultural audience at the Global Britons Conference in Cardiff, the First Minister, Rhodri Morgan, spoke of the 'ultimate paradox of a country'. On the one hand, there is the recognition of huge diversity and long standing diversity as a product of Wales' industrialised and globalised past. On the other hand, he referred to the 'Celtic nature of Wales' – the Celtic essence, Wales' cultural integrity 'as maintained through its language' (Morgan, 2003). This is the paradox: how to square diversity and national integrity.

The First Minister is, of course, correct in his acknowledgement of long standing diversity. Cultural diversity is not a new phenomenon to Wales. Wales has always been in one sense multi-cultural. ... However, it is the era of modern globalisation coinciding with the emergence of the nation state that brings a more complex encounter with difference to Wales. It is no longer reasonable to think of nation states as ethnically homogenous entities. Economic expansion, technological and information advance and increased migrations mean that modern nations are increasingly and consciously diverse. However, as the world is opened up to us, so we feel insecure and try to shrink it back to size. Thus, the potential for ethnic conflict increases as the assertion of who we are becomes all the more important ...

The idea of multiculturalism is nevertheless popular. Most people would argue that multiculturalism is a good thing. But what if it isn't?

Yn y darn blaenorol, gwelsoch fod Kellas yn nodweddu cenedlaetholdeb Cymreig fel math o fudiad dros ‘national secession’, mudiad cynhwysol yn yr ystyr bod ‘the existing citizens of a territory were acceptable as members of the nation’ (Kellas, 1991, t. 73) ac un enghraifft o blith llu o fudiadau tebyg sydd wedi ymddangos o fewn traddodiad democrataidd rhyddfrydol. Fodd bynnag, mae gan fathau eraill o genedlaetholdeb - ac yn enwedig yr hyn y mae Kellas yn ei alw yn ‘integral nationalism’ - nodweddion gwahanol:

cul; awtocrataidd; anoddefgar; hiliol. Felly, mae cenedlaetholwyr Cymreig wedi gorfod wynebu cyhuddiadau gan wrthwynebwyr gwleidyddol o 'genedlaetholdeb cul', a hyd yn oed 'hiliaeth' a 'ffasgaeth', sy'n deillio'n bennaf o fethiant i gydnabod yr amrywiaeth eang iawn o fudiadau a gaiff eu labelu'n genedlaetholgar.

Trown yn awr i ystyried rhai agweddau ar athroniaeth a pholisïau gwleidyddol Plaid Cymru er mwyn nodweddu'r mudiad cenedlaetholgar yng Nghymru yn well.

## Cenedlaetholdeb a rhyng-genedlaetholdeb

Cenedlaetholdeb Cymreig oedd un o ganlyniadau'r wleidyddiaeth radicalaidd a'r delfrydau sosialaidd a ddatblygodd yng Nghymru yn ystod degawdau cyntaf yr 20fed ganrif. Roedd pwysigrwydd gwleidyddol hunaniaeth Gymreig yn rhan hollbwysig o'r cyd-destun hwn - roedd Keir Hardie, yr aelod seneddol Llafur annibynnol cyntaf o Gymru, yn gefnogol i hunaniaeth genedlaethol Cymru ac ymgyrchodd dros ymreolaeth i Gymru. Yn ystod y blynyddoedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, ceisiodd sawl aelod blaenllaw o'r Blaid Lafur Annibynnol sefydlu Plaid Lafur Annibynnol ar wahân yng Nghymru ac er mai methiant fu eu hymdrechion, gwnaethant barhau i ddadlau dros uno delfrydau sosialaidd cenedlaetholgar a datganolaidd (Davies, 1983). Ymunodd rhai ohonynt â Phlaid Genedlaethol Cymru ar ôl ei sefydlu yn 1925.

Yr hyn a oedd yn unigryw am Blaid Genedlaethol Cymru oedd ei phwyslais ar y Gymraeg a diwylliant Cymru a'i bod yn annibynnol ar unrhyw blaid wleidyddol Brydeinig. Ond ni ellid cyhuddo'r blaid o arddel meddylfryd 'cenedlaetholgar cul'. Yn ystod ysgol haf flynyddol gyntaf y Blaid yn 1926, trafododd llywydd y blaid, Saunders Lewis, y mater o genedlaetholdeb yn erbyn rhyng-genedlaetholdeb yn uniongyrchol. Yn ei ddarlith '*Egwyddorion Cenedlaetholdeb*', haerodd mai'r '[y] peth a ddinistriodd wareiddiad Cymru ac a wnaeth alanas o'r diwylliant Cymreig, a achosodd y cyflwr enbyd y mae Cymru ynddo heddiw, oedd – cenedlaetholdeb' (Lewis, 1975, t. 5). Ei ddadl oedd bod y cysyniad o genedlaetholdeb a ymddangosodd wrth i wladwriaethau Ewrop gael eu sefydlu yn faterolaidd ac yn gyfan gwbl seiliedig ar rym. Argymhellodd y dylai cenedlaetholdeb Cymreig gael ei ysbrydoli gan egwyddor gynharach, pan dderbyniwyd awdurdod rhyngwladol, sef awdurdod yr Eglwys Gristnogol, ledled Ewrop ynghyd â pharch at ddiwylliannau amrywiol. Yna, aeth Lewis yn ei flaen i ddadlau bod Cynghrair y Cenhedloedd a sefydlwyd yn ddiweddar yn 'ymgais... i ddatrys cadwyni celyd cenedlaetholdeb materol' (Lewis, 1975, t. 9) ac argymhellodd y dylai Cymru gael sedd yng Nghynghrair y Cenhedloedd pe bai'n cael hunanlywodraeth.

## Cenedlaetholdeb a sosialaeth

Roedd elfen sosialaidd ymhlith aelodau Plaid Genedlaethol Cymru o'r dechrau, ond roedd yn llai amlwg ymhlith yr arweinwyr. Eglurodd Kate Roberts, aelod o 1926 a chyfaill agos i Saunders Lewis, ei phenderfyniad i beidio ag ymuno â'r blaid i ddechrau: 'as I am a Socialist I really cannot reconcile myself with his [Lewis'] ideas. Personally, I see no difference between doffing one's cap to an English merchant and doffing one's cap to our old Welsh princes' (Davies, 1983, t. 124).

Yng nghynhadledd y blaid yn 1938, heriodd grŵp o fyfyrwyr prifysgol o Fangor raglen gymdeithasol arfaethedig Saunders Lewis, gan ddadlau mai athroniaeth sosialaidd a oedd gan y blaid yn ei hanfod ac y dylid cydnabod hyn er mwyn denu sosialwyr Cymreig i gyflawni'r nod o hunanlywodraeth i Gymru. Cafodd eu cynnig ei wrthod o blaid cysyniad

Lewis o *berchentyaeth*, ond efallai nad mater o wrthod sosialaeth oedd hyn ond adlewyrchiad o'r parch personol mawr a oedd gan yr aelodau at Lewis (Davies, 1983, tt. 104–5). Er gwaethaf y penderfyniad hwn i wrthod label sosialaeth, roedd prif lefarydd economaidd y blaid yn ystod ei dau ddegawd cyntaf, Dr D.J. Davies, yn gyn-aelod o'r Blaid Lafur Annibynnol a datblygodd bolisi economaidd y blaid ar sail ei weledigaeth sosialaidd.

Dechreuodd Plaid Cymru symud tuag at safbwynt sosialaidd pendant yn y 1960au pan ddechreuodd math newydd o aelod effeithio ar y blaid. Yr aelodau newydd hyn oedd ffrwyth y cyfleoedd addysgol a grëwyd gan y wladwriaeth les ar ôl yr Ail Ryfel Byd i bobl o'r dosbarth gweithiol; roedd llawer ohonynt yn ifanc, yn ddi-Gymraeg ac yn dod o ardaloedd diwydiannol y de. Er bod y rhan fwyaf ohonynt yn dod o deuluoedd a chymunedau a oedd yn deyrngar yn draddodiadol i'r Blaid Lafur, gwnaethant wrthod y Blaid Lafur am iddi fradychu sosialaeth yn eu barn nhw. Dywedodd un aelod o'r blaid o etholaeth yn y Cymoedd, a gafodd ei gyfweld yn 1977, iddo ymuno â Phlaid Cymru pan roedd yn ei arddegau yng nghanol y 1960au.

> My generation began to realise that all this tremendous loyalty to Labour had got us nowhere in our area and had got Wales nowhere as a whole ... We suspected Labour not just on practical grounds, that they had not delivered on their promises, but also on ideological grounds that they were not a true socialist party ... We chose nationalism as the best way to pursue socialist ideals.
>
> (Davies, 1989, t. 72)

Erbyn dechrau'r 1970au, roedd rhai deallusion adain chwith yn dechrau cydnabod cyfeiriad sosialaidd Plaid Cymru yn ogystal â'r mudiad ieithyddol.

### Gweithgaredd 19

Darllenwch y darn canlynol gan Raymond Williams o'i adolygiad o lyfr Ned Thomas, *The Welsh Extremist*, ar yr iaith Gymraeg a'r mudiad ieithyddol, a gyhoeddwyd yn 1971. Yn eich barn chi, beth oedd rhesymau Williams dros newid ei farn bod cenedlaetholdeb Cymreig yn blwyfol ac yn geidwadol gan ei ystyried yn rhan o achos '[a cause] better than national and more than international ... a very general human and social movement' (Williams, 2003 [1971], t. 3)?

#### Darn 7

I used to think that born into a Border country at once physical, economic, and cultural, my own relationship to the idea of Wales was especially problematic. But I now see, from Ned Thomas, among others, that it was characteristic. I remember focusing first on the powerful political culture of industrial South Wales: in the first half of this century one of the major centres of socialist consciousness anywhere in the world. But the necessary movement from that kind of centre was into a larger society. ...

But there was always another idea of Wales: the more enclosed, mainly rural, more Welsh-speaking west and north. For me, in the beginning, that was much more remote. ... In the last decade especially ... another idea of Wales, drawn from its alternative source, has come through in the campaigns of Plaid Cymru and the Welsh Language Society.

> The relation between these two phases has been especially difficult. Many English Socialists, and many Welsh Labour Party people, have seen the later phase as a marginal or romantic irrelevance, or as worse. 'Nationalism means Fascism', somebody said to me angrily. He is especially the kind of man who should read Ned Thomas's book. For the strange thing is this: that through its radical emphasis on identity and community, and in its turn to popular campaigning, to demonstrations and to direct action, this new Welsh movement ... has come through as part of the new socialism and the new thinking about culture ...
>
> ... [I]t seems to be true that in late capitalist societies some of the most powerful campaigns begin from specific unabsorbed (and therefore necessarily marginal) experiences and situations. Black Power in the United States, civil rights in Ulster, the language in Wales ...
>
> Williams, 2003 (1971), y. 3–4

Discussion

Mae taith ddeallusol Williams yn dangos yr anawsterau a wynebir gan genedlaetholdeb Cymreig o ganlyniad i'r amrywiaeth eang o fudiadau sydd wedi cael eu labelu'n 'genedlaetholgar'. Mae hefyd yn awgrymu newidiadau yn y ddealltwriaeth o sosialaeth, yn enwedig y derbyniad cynyddol pwysigrwydd profiadau 'lleol' ac ystyron diwylliannol sydd wedi peri i'r ddwy ideoleg symud yn nes at ei gilydd.

Ar ddechrau 1980au, gwnaeth Plaid Cymru ymgorffori sosialaeth yn swyddogol yn nodau'r blaid tra'n ymwrthod â sosialaeth y wladwriaeth a oedd yn gysylltiedig â'r Blaid Lafur yn nhyb Plaid Cymru. Gwnaeth Comisiwn Ymchwilio i ddyfodol y blaid ddiffinio ei safbwynt gwleidyddol fel 'decentralist socialist'. Fodd bynnag, roedd rhai yn y blaid yn pryderu o hyd ynglŷn â'r anghysondebau rhwng datganoliaeth a sosialaeth ac, mewn adroddiad lleiafrifol, dadleuodd Phil Williams y dylai swyddogaethau llywodraeth gael eu cynnal a lefel mor isel â phosibl heb danseilio 'the basic equality of individuals and communities within society'. Felly, gellid cyfuno sosialaeth a datganoliaeth, 'but when the two principles contradict it is to socialism that we should give our highest priority' (Plaid Cymru, 1981, t. 111).

# Cenedlaetholdeb gwyrdd

Roedd adroddiad lleiafrifol Phil Williams yn ymgodymu â mater a oedd yn debyg i'r un a godwyd gan Raymond Williams – y berthynas rhwng gwahanol lefelau o drefniadaeth gymdeithasol a'u hystyron diwylliannol cysylltiedig. Bu Raymond Williams yn uniaethu â math newydd o sosialaeth, y Chwith Newydd, a oedd yn cynnwys mudiadau cymdeithasol eang (mudiad y merched, Grym i Bobl Dduon, yr iaith Gymraeg) ond a oedd wedi'i gwreiddio yn nodweddion penodol lleoliad a budd cyffredin. Daeth mudiad cymdeithasol arall, sef y mudiad ecolegol, yn fwyfwy blaenllaw o'r 1980au ymlaen, gan eiriol dros gyfuniad tebyg o ymwybyddiaeth fyd-eang a gweithredu lleol.

Roedd Phil Williams, a fu'n un o'r recriwtiaid ifanc 'anhraddodiadol' i genedlaetholdeb ar ddechrau'r 1960au ac yr oedd ei syniadau wedi cael dylanwad mawr ar bolisïau Plaid Cymru dros bedwar degawd, ymhlith y cyntaf i bwyso ar y blaid i weithredu ynglŷn â materion gwyrdd. Darbwyllodd Gynhadledd 1983 i sefydlu gweithgor ar faterion ecolegol ac amgylcheddol. Datblygwyd cysylltiad agos iawn rhwng y maes polisi hwn a gorllewin

Cymru o ganlyniad i'r cytundeb rhwng Plaid Cymru a'r Blaid Werdd y byddai ymgeisydd ar y cyd yn ymladd etholaeth Ceredigion a Gogledd Penfro yn etholiad cyffredinol 1992. Arweiniodd y penderfyniad hwn at fuddugoliaeth i Cynog Dafis, a ddaeth yn bedwerydd AS Plaid ac yn AS cyntaf y Blaid Werdd yn San Steffan. Parhaodd y cytundeb â'r Blaid Werdd tan 1995 a bu'n allweddol o ran cael rhai mesurau amgylcheddol drwy'r senedd.

Ar ôl iddo gael ei ethol i'r Cynulliad yn 1999, parhaodd Phil Williams â'i waith ar broblem newid yn yr hinsawdd, gan ddadlau y gallai Cymru gyfrannu'n sylweddol tuag at weithredu i leihau allyriadau nwy tŷ gwydr byd-eang. Mewn araith i'r Cynulliad ym mis Mai 2000, disgrifiodd newid yn yr hinsawdd fel 'the overriding imperative of global politics and ... the most important single issue since the 1980s'. Fel ffisegydd proffesiynol, teimlai o dan rwymedigaeth i gyfleu 'sense of reasoned, responsible panic' gwyddonwyr amgylcheddol allweddol. Ar yr un pryd, nododd y camau gweithredu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a fyddai, yr honnai, yn gwneud cyfraniad gwirioneddol i fynd i'r afael â'r argyfwng. Gan siarad fel cenedlaetholwr ond gan gydnabod anghenraid cydweithredu rhyngwladol, daeth i'r casgliad:

> [A] though no single parliament has the power to solve the problem globally, this Assembly, with the exception of the climate change levy, has all the necessary powers to ensure that Wales plays not only its full role but perhaps a leading role. That is my dream.
>
> (Williams, 2004, t. 62)


## 6.3.3 Cenedlaetholdeb o dan ddatganoli

Cadarnhaodd cytundeb Plaid Cymru â'r Blaid Werdd yn y 1990au allu'r blaid i apelio i etholaeth lle roedd cyfran uchel o fewnfudwyr a phobl ddi-Gymraeg, nad oeddent yn cael eu hystyried yn gefnogwyr naturiol i'r blaid. Roedd hefyd yn arwydd o barodrwydd Plaid Cymru i weithio gyda phleidiau gwleidyddol eraill er mwyn cyflawni nodau cyffredin. Bu'r ddau ffactor yn allweddol o ran y blaid yn sefydlu ei hun yn fudiad cenedlaethol 'dinesig', a chyfrannu at y ffaith i'r blaid ennill rhywfaint o rym gwleidyddol o'r diwedd mewn llywodraeth yng Nghymru o dan ddatganoli.

Mae sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael dwy effaith fawr ar y mudiad cenedlaethol. Ym maes cenedlaetholdeb gwleidyddol, symudodd Plaid Cymru o fod yn lleiafrif bach iawn yn San Steffan i fod yn blaid fwyaf ond un Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr etholiadau cyntaf yn 1999. Bu hyn yn newid sylweddol i genedlaetholdeb ym mywyd gwleidyddol Cymru. Ac yn wir, yn y degawd dilynol, gwelwyd pob plaid wleidyddol yng Nghymru yn symud tuag at safbwyntiau mwy 'cenedlaetholgar', gan gynnwys hyd yn oed y Blaid Geidwadol yng Nghymru, a ddaeth i gefnogi ymestyn pwerau'r Cynulliad i gynnwys pwerau deddfu. At hynny, ar ôl etholiadau 2007, gwnaeth pob plaid arall cymryd rhan mewn trafodaethau gyda Phlaid Cymru fel darpar bartner mewn llywodraeth glymblaid, a chytunwyd yn y pen draw ar glymblaid â'r Blaid Lafur a barhaodd tan etholiadau'r Cynulliad yn 2011. Dangosodd y digwyddiadau hyn, yn dilysu rôl y 'cenedlaetholwyr' fod Plaid Cymru wedi cael ei derbyn o'r diwedd o fewn prif ffrwd gwleidyddiaeth Cymru.

O ran hunaniaeth genedlaethol Cymru, bu creu corff cynrychioliadol a etholir yn ddemocrataidd yn rhoi sail hanesyddol newydd i hunaniaeth Gymreig. Gwnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru atgyfnerthu hunaniaeth Gymreig mewn sawl ffordd: daeth yn ffocws pwysig i lobïo a gwrthdystio, am ei fod yn fwy hygyrch na San Steffan ac (er gwaetha'r cyfyngiadau ar ei bwerau) yn fwy perthnasol i'r hyn a oedd yn bwysig i bobl Cymru.

Gwnaeth hefyd annog datblygiad cymdeithas sifil yng Nghymru, gan wneud darpariaethau penodol - a hyd yn oed sefydlu sefydliadau mantell - er mwyn meithrin dulliau o gyfathrebu â sefydliadau yn y Trydydd Sector (h.y. nid er elw, gwirfoddol ac anllywodraethol).




Ffigur 13 poster gan Gymdeithas yr Iaith yn dangos y Prif Weinidog ar y pryd Rhodri Morgan. Mae'n hyrwyddo rali yn 2005 dros ddeddf iaith newydd, a gynhaliwyd y tu allan i bencadlys Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd.

Mae'r ystyriaethau hyn yn dod â ni yn ôl at berthynas yr iaith a hunaniaeth genedlaethol â'n man cychwyn. Pa effaith y mae'r Cynulliad wedi cael ar y Gymraeg fel un o ddynodwyr hunaniaeth Gymreig? Yn 2003 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei pholisi manwl ynglŷn â'r iaith Gymraeg, *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*. Dyma'r ymrwymiad mwyaf erioed gan lywodraeth i'r Gymraeg gyda'r nod o greu yn y pen draw 'Cymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu’r ddwy iaith a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd' Llywodraeth Cymru, 2003, t. 11). Fodd bynnag, parhaodd y goblygiadau ymarferol i'r iaith i fod yn destun dadlau wrth i amheuon mawr gael eu mynegi ynglŷn â digonolrwydd darpariaeth ar gyfer dulliau gweithredu penodol ac adnoddau ychwanegol i roi polisïau ar waith.

## 6.4 Casgliad

- Mae cysylltiad agos rhwng iaith a hunaniaeth. Rydym yn defnyddio iaith i fynegi hunaniaeth bersonol unigol a meithrin hunaniaethau ar y cyd ac undod.
- Gall iaith genedlaethol unigryw gyfrannu at fudiad cenedlaetholgar fel prif ysbrydoliaeth ymgyrchwyr – hyd yn oed y rhai sy'n dewis canolbwyntio eu gweithgareddau ym myd gwleidyddol mwy confensiynol yn hytrach nag mewn ymgyrchoedd dros yr iaith.
- Mae mudiadau cenedlaetholgar yn amrywio'n eang o fod yn rhai democrataidd a rhyddfrydol i rai unbenaethol ac anoddefgar Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau cenedlaetholgar (Plaid Cymru, Cymdeithas yr Iaith) yn eiriol dros genedlaetholdeb 'dinesig' cynhwysol.
- Mae nifer fach o sefydliadau (e.e. Cymuned) yn ymwrthod â chenedlaetholdeb dinesig, tra'n arddel safbwynt gwrth-hiliol.
- Mae athroniaeth wleidyddol Plaid Cymru wedi ymgorffori rhyngwladoldeb, sosialaeth a chenedlaetholdeb gwyrdd.
- Yn y cyfnod wedi datganoli, daeth Plaid Cymru yn blaid wleidyddol brif ffrwd ac yn blaid llywodraeth yn y pen draw. Symudodd pleidiau gwleidyddol eraill yng Nghymru yn agosach at safbwynt 'cenedlaetholgar'. Cafodd hunaniaeth genedlaethol ei hatgyfnerthu a'i dilysu, a gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad cadarn i'r

Gymraeg, ond roedd amheuon o hyd ynglŷn â darpariaethau ymarferol ar gyfer gweithredu.

Mae iaith yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn meithrin ac yn cynnal ein hunaniaethau personol, yn ogystal â'n hunaniaethau ar y cyd. Mae hunaniaeth genedlaethol yn un fath o hunaniaeth ar y cyd y mae iaith a gwahaniaethau ieithyddol yn bwysig iddi.

Mae'r Gymraeg wedi bod yn bwysig i hunaniaeth genedlaethol Gymreig ac i'r mudiad cenedlaetholgar yng Nghymru mewn sawl ffordd. Bu'n ysbrydoliaeth i ymgyrchwyr yn y mudiad. Mae'r Gymraeg hefyd wedi cael ei defnyddio i ennyn cydnabyddiaeth swyddogol i'r genedl drwy ei harddangos yn gyhoeddus (e.e. ar arwyddion) a'u defnyddio'n gyhoeddus (e.e gan wasanaethau cyhoeddus). Ac mae'r iaith wedi bod yn sail i sefydlu sefydliadau penodol i Gymru (e.e. ysgolion cyfrwng Cymraeg).

Fodd bynnag, mae'r iaith o dan bwysau oherwydd nifer o brosesau cymdeithasol ac economaidd, ac mae anghytundebau ynglŷn â'r ffordd briodol o ymateb i'r pwysau hwn wedi arwain at anghydfod o fewn y mudiad cenedlaetholgar ac ymosodiadau o'r tu allan.

Er bod llawer math o genedlaetholdeb, mae rhai ohonynt yn unbenaethol ac yn anoddefgar, mae cenedlaetholdeb Cymreig yn tarddu o draddodiad sosialaidd democrataidd radical yng Nghymru ac mae'n ymwneud â democratiaeth ryddfrydol a chydraddoliaeth sy'n nodweddiadol o'r traddodiad hwn. Gellir dweud mai un o nodweddion y mudiad cenedlaetholgar Cymreig yw ei fod yn fath democrataidd a chynhwysol o genedlaetholdeb 'dinesig' sy'n arddel safbwynt gwleidyddol sy'n cwmpasu rhyngwladoldeb, sosialaeth, ac amgylchfydaeth.

# 7 Traddodiadau Llafur

Ychydig iawn sy'n digwydd yng Nghymru sy'n rhagweladwy – yn sicr nid y tywydd, ffawd y timau chwaraeon cenedlaethol na'r economi. Fodd bynnag, dros y ganrif ddiwethaf, bu un eithriad. Os cawsoch eich geni unrhyw bryd ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, efallai na allech gynllunio barbiciw, gosod bet ddiogel ar ganlyniad gêm o bêl-droed yng Nghymru, na darogan rhagolygon economi Cymru, ond gallech, yn eithaf hyderus, ragweld y byddai Llafur yn ennill y rhan fwyaf o seddau yng Nghymru mewn unrhyw etholiad cyffredinol.

O'r 1920au ymlaen, y Blaid Lafur fu'r blaid bennaf yng ngwleidyddiaeth Cymru, gan ennill y rhan fwyaf o seddau seneddol am y tro cyntaf yn 1923 a churo ei gwrthwynebwyr yn ddidrafferth ar sawl achlysur arall (yn enwedig, fel y gwelwn, yn 1966 pan enillodd y blaid 32 allan o'r 36 o seddau ac unwaith eto yn 1997 pan enillodd 34 allan o 40).

Nid yw'n syndod felly bod haneswyr, sylwebyddion gwleidyddol a chymdeithasegwyr, yng Nghymru a thu hwnt, wedi dod yn gyfarwydd â gweld gwleidyddiaeth Cymru drwy lens coch 'Llafur Cymru'. Ym myd trafodaeth gyhoeddus, mae 'Llafur Cymru' yn gysylltiedig â'r de diwydiannol, capeli, pyllau glo, tai teras, clybiau dynion gweithiol, corau meibion a thraddodiadau balch dosbarth gweithiol diwydiannol. Mae'r ffaith nad oedd llawer o bobl yng Nghymru yn pleidleisio i Lafur – roedd tua un o bob pum pleidleisiwr yng Nghymru yn pleidleisio i'r Ceidwadwyr yn rheolaidd ar ôl 1918 – yn cael ei hanwybyddu gan lawer. Ers gormod o amser mae'r ffaith ynglŷn â delwedd 'Llafur Cymru' a amlinellir uchod yn gamarweiniol: bodolodd Llafur a'r traddodiad Llafur (a chafodd lwyddiant) i ffwrdd o'r de, mewn ardaloedd gwledig, ac yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

Fodd bynnag, yn 2009, ymddangosai fel petai nad oedd 'Llafur Cymru' yn ddiogel mwyach. Mae canlyniadau etholiadau a barn y cyhoedd yn awgrymu bod y traddodiad Llafur yn edwino. Yn etholiad Ewropeaidd 2009, cipiodd Llafur 20 y cant yn unig o'r bleidlais, ar ôl perfformiad siomedig yn etholiadau 2007 Cynulliad Cymru pan gipiodd 32 y cant yn unig o'r bleidlais. Yn 2009, awgrymodd arolwg barn y gallai Llafur gael 26 y cant yn unig o'r bleidlais yng Nghymru mewn etholiad cyffredinol, sef llai na'r Ceidwadwyr (30 y cant) am y tro cyntaf yn yr oes ddemocrataidd (Kettle, 2009).

Cafodd y problemau a wynebai Llafur gan y newyddiadurwr Martin Kettle yn *The Guardian*:

> Let’s not mince words. If those figures are even approximately right, Wales would experience a political and existential earthquake ... it would massively challenge aspects of the way that many in Wales see themselves and their nation ... in the twentieth century, the electoral geography of Wales was predictable. Labour held the heavily populated old industrial south from Newport across to Llanelli and through the mining valleys ... but it is all to change now...
>
> (Kettle, 2009)

Yn ymarferol, bu Kettle yn gyfeiliornus: Cafodd Llafur 36% o'r bleidlais yn etholiad cyffredinol 2010, o gymharu â 26% gan y Blaid Geidwadol. Fodd bynnag yn yr etholiadau Ewropeaidd yn 2014 gostyngodd cyfran Llafur i 28% - gyda'r Ceidwadwyr yn ennill 17% ond UKIP yn ennill 27.5%.

# Gwerthoedd 'Cymreig' Llafur (Andrew Edwards)

## 7.1.1 Gwerthoedd Llafur a gwerthoedd Cymreig

O ganlyniad i oruchafiaeth Llafur dros wleidyddiaeth Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif a thu hwnt, ystyrir bod Cymru yn 'wlad Lafur' ym myd trafodaeth gyhoeddus. Wrth geisio esbonio poblogrwydd Llafur, mae rhai wedi awgrymu bod gan y Cymry 'Lafur' yn eu DNA. Mae cryn dipyn o bropaganda Llafur dros y blynyddoedd wedi cyfeirio at y 'ffaith' bod pobl Cymru, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn gynhenid sosialaidd ac yn coleddu gwerthoedd a olygai eu bod yn barod i dderbyn neges ac apêl Llafur, a sosialaeth. Tybir yn aml fod pobl Cymru yn fwy democrataidd, mwy rhyddfrydig, mwy goddefgar, mwy di-ddosbarth na phobl o sawl rhan arall o Brydain.

### Gweithgaredd 20

Cymerwch eiliad i feddwl am werthoedd 'Llafur' a gwahanol fathau o hunaniaeth Gymreig a'r hyn y mae rhai yn ystyried yn werthoedd 'Cymreig'. Ysgrifennwch yr atebion i'r cwestiynau canlynol:

1. A oes elfennau o'r cymeriad cenedlaethol Cymreig sy'n ein helpu i ddeall yr ymlyniad at Lafur a gwerthoedd 'Llafur' yng Nghymru?
2. A fyddai'n well esbonio'r traddodiad Llafur drwy ddeall profiad cymdeithasol ac economaidd Cymru?
3. Beth yw gwerthoedd 'Llafur'?

#### Discussion


Pe bawn yn ateb Cwestiwn 3, byddwn yn dechrau gyda'r rhai hawdd – bod Llafur yn sefyll dros radicaliaeth, cyfunoliaeth a chydraddoldeb. Pe bawn yn ateb deng mlynedd ar hugain yn ôl, byddwn wedi dweud sosialaeth fwy na thebyg, ond nid wyf mor siŵr y byddwn yn dweud hynny heddiw. Felly, mae angen i ni feddwl am werthoedd nad ydynt yn sefydlog o reidrwydd.

## 7.1.2 Y traddodiad Llafur yn y 1980au a'r 1990au

Bu'r amodau a helpodd i ffurfio'r traddodiad Llafur yng Nghymru yn y 1920au a'r 1930au bron â diflannu yn ystod tri degawd olaf yr ugeinfed ganrif. Dechreuodd yr hen ddiwydiannau Cymreig a fu'n fodd i gynnal y traddodiad hwnnw ddiflannu. Yn y gogledd gwelwyd tranc y diwydiant llechi ar ddiwedd y 1960au, a fu'n ergyd drom i lawer cymuned leol. Yn y de, caeodd pyllau glo a gweithfeydd dur gyda chanlyniadau cymdeithasol ac economaidd yr un mor drychinebus yn y 1970au a'r 1980au. Cyrhaeddodd lefelau diweithdra yng Nghymru 10 y cant yn 1989 a'r lefel uchaf erioed, sef 14 y cant, yn 1986. Wrth gwrs, ffigurau cyfartalog yw'r rhain, ac roedd y darlun dipyn yn waeth mewn llawer o drefi. Yn amlwg, cafodd digwyddiadau gwleidyddol mawr yn 1980au - yn enwedig streic y glowyr yn 1984-1985 - effaith ddinistriol ar gymunedau 'Llafur' ond, yn eironig ddigon, nid yr etholaethau hyn a gefnodd ar Lafur ar ddechrau'r 1980au.

Roedd ardaloedd dur a glo, fel y gwelsom, yn symbolau o nerth a gwerthoedd Llafur. Bu'r galwedigaethau a gefnogodd y Blaid Lafur mewn niferoedd mawr bron â diflannu. Ochr yn

ochr â newid economaidd, heriwyd hen syniadau a strwythurau cymdeithasol a thrwy ymddangosiad anghyfiawnderau ac anghydraddoldebau newydd yn ogystal â disgwyliadau newydd. Mewn sawl rhan o Gymru, cafodd y traddodiad Llafur ei fygwth gan gystadleuaeth gan genedlaetholdeb diwylliannol a gwleidyddol a chan frand poblogaidd o geidwadaeth. Ar lefel Brydeinig, cafodd y blaid ei rhwygo gan anghydfodau chwerw ynglŷn â pholisi.





Ffigur 14 Map etholiadol o Gymru, 1983

Jones, 1999, t. 176

Amlygodd yr argyfwng a wynebai'r Blaid Lafur yng Nghymru yn etholiad cyffredinol 1984 pan ostyngodd pleidlais y blaid yng Nghymru o dan 40 y cant am y tro cyntaf ers cenhedlaeth. Dengys Ffigur 15 fap o Gymru wedi etholiad cyffredinol 1983.

## Gweithgaredd 21

Cymharwch Ffigur 14 uchod â Ffigur 15 isod, sy'n dangos Cymru wedi etholiad cyffredinol 1966. Ystyriwch y rhesymau pam y gwnaeth cefnogaeth Llafur edwino.




Ffigur 15 Map etholiadol o Gymru, 1966

Jones, 1999, t.175

### Discussion

Erbyn 1987, roedd Llafur wedi colli tri etholiad cyffredinol yn olynol (1979, 1983 a 1987) ac roedd y problemau cymdeithasol ac economaidd a wynebai Cymru (a

amlinellir uchod) yn gorfodi llawer o gefnogwyr a gwrthwynebwyr datganoli i feddwl eto. Cafodd 'Thatcheriaeth' dri chanlyniad negyddol i ddemocratiaeth Cymru: (i) canoli pŵer yn San Steffan; (ii) dirymu llywodraeth leol drwy dynnu pwerau ymaith oddi wrth lawer o gynghorau a etholwyd yn ddemocrataidd (o dan reolaeth Llafur yn aml); (iii) cynnydd yn nifer y sefydliadau anllywodraethol, lled-ymreolaethol (quangos) (annemocrataidd).

Yr un mor rymus o ran tynnu sylw at argyfwng y 'diffyg democrataidd' yng Nghymru oedd perfformiad y Blaid Geidwadol yng Nghymru yn ystod ei blynyddoedd mewn grym yn San Steffan (1979-1997). Yn etholiad cyffredinol 1979, enillodd y Blaid Geidwadol 11 o seddau yng Nghymru. Yn 1983, ei pherfformiad gorau ers dros genhedlaeth, enillodd 16. Fodd bynnag, yn 1987 a 1993 enillodd 8 a 6 o seddau yn y drefn honno. yn 1997, methodd ag ennill yr un sedd, 'camp' a gyflawnodd y blaid eto yn 2001.

Felly, bu'r Ceidwadwyr yn llywodraethu ar Gymru ar sail pleidleisiau Lloegr (ac i raddau llai) a'r Alban. Ni chafodd y blaid ei chefnogi gan y mwyafrif yng Nghymru. Dyna un rheswm pam y gwnaeth rhai a wrthwynebodd ddatganoli yn 1979 newid eu meddwl yn y 1990au. Dechreuwyd sylweddoli erbyn dechrau'r 1990au bod pobl Cymru yn pleidleisio'n gyson i'r Blaid Lafur ond eu bod yn cael eu llywodraethu gan y Blaid Geidwadol. Un a gafodd dröedigaeth i ddatganoli oedd Ron Davies, AS Llafur dros Gaerffili, ac wedyn ysgrifennydd gwladol Cymru yn llywodraeth Lafur Newydd yn 1997. Darllenwch y darn isod, a ddaw o dystiolaeth Davies i Gomisiwn Richard yn 2002. Bydd yn eich helpu i ddeall pam bod Davies yn credu bod y math o lywodraeth a oedd yn gweithredu cyn datganoli yn anfoddhaol.

### Darn 8

I think that the point is worth making that the form of government we have now is infinitely better than we had before 1997 and in that sense I am proud of it. But that doesn’t mean it couldn’t be better. So the question is in what ways? I think we have improved governance in Wales ... there are a number of reasons why we had devolution, one of those clearly was the idea of the democratic deficit. There were others relating to the performance of public services and indeed the national question: identity and image and nation building. But the question that really resonated with the public during the 1990s was the question of the democratic deficit, the issue of the quangos, the issue of the Secretary of State, the issue of legislation going through Parliament. I think we have done that, I think that we do have a form of government now that, despite its imperfections, despite the sense of isolation that comes from its distant geography, I think we have opened up Wales.

Davies, 2002, t. 3

Mae'n bwysig pwysleisio nad Davies oedd yr unig un a gafodd ei ddarbwyllo gan agweddau cadarnhaol datganoli.

Roedd ymrwymiad i ddatganoli wedi cael ei gynnwys ym maniffesto etholiad 1992 Llafur. Pan gafodd Llafur Newydd o dan Tony Blair fuddugoliaeth ysgubol yn etholiad Mai 1997, roedd datganoli unwaith eto yn un o ymrwymiadau'r maniffesto. Yn ddiweddarach yn ystod yr un flwyddyn, cafodd pleidleiswyr Cymru gyfle i hawlio datganoli. Yn refferendwm mis Medi 1997, pleidleisiodd 50.3% y cant o blaid datganoli. Nid oedd maint y

fuddugoliaeth yn dangos cefnogaeth gref i'r math gweithredol o ddatganoli a gynigiwyd, ond cafwyd cynnydd sylweddol yn y bleidlais 'Ie' o gymharu â 1979. Cynhaliwyd ymgyrch refferendwm 1997 mewn awyrgylch gwleidyddol gwahanol iawn i'r hyn a welwyd yn 1979. Er bod llawer yn rhengoedd Llafur yng Nghymru yn dal i wrthwynebu datganoli, ychydig iawn ohonynt a wrthwynebodd y mesur yn gyhoeddus, yn bennaf am nad oeddent am danseili statws nac enw da'r llywodraeth Lafur gyntaf ers deunaw mlynedd na digio'r rhai a oedd wedi dioddef yn ystod y cyfnod hir hwn o lywodraethu Ceidwadol.

Nid un rheswm penodol a barodd i safbwyntiau ynglŷn â datganoli gael eu trawsnewid, ond amrywiaeth o faterion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gwleidyddol. Yn yr adran nesaf byddwch yn edrych ar ddatblygiad y traddodiad Llafur ar ôl dyfodiad datganoli.

# 7.2 Llafur a datganoli

## 7.2.1 Y traddodiad Llafur a datganoli

Esgorodd dyfodiad datganoli yn 1999 bennod newydd yn hanes y Blaid Lafur yng Nghymru. Yn groes i ofnau llawer o genedlaetholwyr, ni lwyddodd Llafur i ennill mwyafrif yn y Cynulliad. Mae gan y Cynulliad 60 sedd, y mae rhai'n cael eu dosbarthu ar sail etholaethol 'y cyntaf i'r felin' draddodiadol, ac y mae eraill yn cael eu dosbarthu ar sail 'cynrychiolaeth gyfrannol' ranbarthol. Yn y tri etholiad cyntaf i'r Cynulliad yn 1999, 2003, 2007 a 2011 enillodd Llafur 27, 30, 24 a 30 o seddau yn y drefn honno. Felly mae'r Blaid Lafur, hyd yma, wedi methu â sicrhau mwyafrif yng Nghaerdydd. Un o nodweddion diffiniol y Cynulliad fu dyfodiad llywodraeth glymblaid. Yn 2000 sicrhaodd Llafur reolaeth dros y Cynullid drwy glymblaid â'r Democratiaid Rhyddfrydol ac, yn 2007, glymblaid annhebygol iawn â Phlaid Cymru (o gofio'r elyniaeth rhwng y pleidiau am y rhan fwyaf o'r ganrif flaenorol). O 2011 mae wedi llywodraethu heb fwyafrif. Fel y dengys canlyniadau'r tri etholiad cyntaf i'r Cynulliad, mae pleidiau 'radical' eraill wedi perfformio'n dda hefyd ac, am y tro cyntaf ers dros ganrif, mae'r Blaid Geidwadol yn ymateb i heriau'r Gymru gyfoes gyda llais a mandad sy'n nodedig Gymreig ac ag agenda sy'n cydymdeimlo i ryw raddau â rhai materion 'radical' (yn enwedig yr angen i warchod, a hyd yn oed, estyn hunanlywodraeth i Gymru).

Mae'n amlwg bod datganoli a llywodraethu drwy glymblaid wedi cyflwyno heriau i Lafur. Ymhlith yr agweddau cadarnhaol i Lafur (ac, yn wir, y pleidiau eraill) yn ystod deng mlynedd gyntaf datganoli fu'r ymgais i ymdrin â'r diffyg cydbwysedd rhwng y rhywiau yng ngwleidyddiaeth Cymru. O ganlyniad i bolisi, a elwid yn 'wahaniaethu cadarnhaol' gan rai, roedd prosesau dewis y Blaid Lafur yn cynnwys rhestrau byr i ferched yn unig mewn sawl etholaeth cyn etholiad y Cynulliad yn 1999. Yn rhannol o ganlyniad i hyn, yn y Cynulliad cyntaf, roedd merched yn dal 46 y cant o'r seddi. Yn 2003, cynyddodd hyn i 50 y cant. Cyn etholiad 2007, roedd 29 o'r Aelodau Cynulliad (ACau) yn ddynion a 31 yn ferched. Yn 2003, roedd mwyafrif o ferched yn y Cabinet hefyd (5 allan o 9 o weinidogion). Ym mis Mai 2007, roedd 47% o ACau yn ferched. Ym mis Mehefin 2014, roedd traean o'r Cabinet yn ferched a 44 y cant o ACau - felly bu dirywiad yng nghynrychiolaeth merched yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn San Steffan, 19.5 y cant o ASau sy'n ferched ac 20 y cant o ASau o Gymru sy'n ferched.

Mantais arall fu parhad traddodiad Llafur Cymru i geisio creu agenda Lafur a oedd yn unigryw i Gymru. Pan feddyliaf am gyfatebiaeth Morgan o 'dreigiau coch' a 'baneri coch' (rhaniad Llafur Cymru yn garfan ddatganolaidd ac yn garfan ganoliaethol), credaf y gellir

dweud â sicrwydd bod ysbryd y ddwy yn cyniwair ym Mae Caerdydd. Yn ystod blynyddoedd cyntaf datganoli, cafodd Llafur Cymru anhawster i dorri'n rhydd oddi wrth lyffetheiriau arweinwyr y blaid yn Llundain. Tynnwyd sylw at hyn yn ystod yr anghydfod ynglŷn â chyfnod Alun Michael yn Brif Weinidog rhwng 1999 a 2001, pan gafodd Michael ei ystyried gan sylwebwyr yn y cyfryngau, gwrthwynebwyr y blaid a hyd yn oed aelodau o Lafur Cymru fel Paul Flynn yn 'groupie', neu 'poodle' Tony Blair yng Nghaerdydd (Flynn, 1999, t. 44). Roedd Michael hefyd yn amhoblogaidd ymhlith llawer o gefnogwyr datganoli am fod ganddo record o fod yn llugoer, ar y gorau, tuag at ddatganoli. Fodd bynnag, ar ôl i Michael ymddiswyddo yn 2001, ceisiodd ei olynydd, Rhodri Morgan, greu agenda Lafur i Gymru sy'n wahanol i'r agenda yn Llundain. Holl ddiben datganoli oedd y gallai Cymru, pe dymunai, ddatblygu polisïau a oedd yn wahanol i'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU. Crisialwyd yr angen am weithredu felly gan Morgan ym mis Rhagfyr 2002 mewn araith enwog sydd bellach yn cael ei galw'n araith y 'clear red water'. Drwy hyn amlygwyd awydd yng Nghymru nid yn unig i fod yn wahanol, ond hefyd i'r Blaid Lafur goleddu rhannau o'i threftadaeth a'i thraddodiad. Mae'r darn isod yn trafod y pwnc a daw o araith a draddodwyd yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2003.

### Darn 9

> The key point is that we organise ourselves and the values that we hold are shaped by this experience of living in relatively small settlements and medium sized villages, towns, valley agglomerates and cities. The consumerist approach to choice in public services that stresses differentiation may fit best the practicalities and the experience of those metropolitan settlements of a million or several million people that are a feature of counties that are urbanised in a different way to Wales. As an Assembly Government, we have given higher priority to the provision of high quality, community based, comprehensive secondary schools than we have to the development of a choice of specialist schools. This does not mean we area against choice and diversity ... it seems to me that our values and our geography lead us to stress the community basis of our schools ... involving parents, families and community groups in the life of the schools.
>
> Morgan, March 2003

Ysbytai oedd ffocws araith y ‘clear red water’. Yma, mae Morgan yn canolbwyntio ar ysgolion fel maes lle mae gwahaniaethau o ran polisi yn beth dymunol.

### Gweithgaredd 22

Ystyriwch a nodwch feysydd polisi eraill lle mae'r gwahaniaeth rhwng anghenion a gwerthoedd Lloegr yn wahanol o bosibl i werthoedd traddodiadol Llafur a Chymru. Er enghraifft, gallech ystyried sut nad yw polisïau ynglŷn â thwristiaeth yng ngweddill y DU o bosibl yn addas bob amser ar gyfer anghenion Cymru

Felly fe welwn ddreigiau coch, baneri coch a dŵr coch bellach yn cael eu defnyddio i ddiffinio'r hyn a olygir gan y traddodiad Llafur. Gallem bortreadu Rhodri Morgan fel draig goch mewn gwirionedd, rhywun sy'n dod o gefndir tebyg i James Griffiths, siaradwr Cymraeg, sy'n cydymdeimlo â diwylliant ac iaith Cymru, ond hefyd â daliadau a thueddiadau sosialaidd amlwg a chefnogwr di-syfl dros hunanlywodraeth i Gymru.

## 7.2.2 Y traddodiad Llafur yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain

Soniais yn gynharach am hunaniaethau Llafur a hunaniaethau Cymreig. Un o ganlyniadau'r Cynulliad yw bod trafodaethau ynglŷn â gwerthoedd 'Cymreig' a blaenoriaethau gwleidyddol 'Cymreig' wedi blodeuo. Mewn nifer o ddatganiadau ac areithiau gwleidyddol, mae'r GIG a'r egwyddorion tybiedig sy'n sail iddo wedi cael rôl amlwg mewn 'ffordd Gymreig' nodedig i bob golwg. Mae'r llwybr tybiedig hwn yn cynnwys ymrwymiad i bolisïau mwy cymunedol a chyfunol nag mewn sawl rhan arall o'r DU (Tanner a Michael, 2007, t. 38). Darllenwch Ddarn 10, o erthygl a ysgrifennwyd gan Duncan Tanner a Pam Michael, sy'n adeiladu ar Weithgarwch 22 ynglŷn â gwerthoedd Llafur a gwerthoedd Cymreig. Ystyriwch sut mae'r darn hwn yn cyfateb i'ch syniadau'ch hun.

### Darn 10

Few people can detect a neat transition from ‘English’ to ‘Welsh’ values upon entering Wales. Nevertheless, references to ‘Welsh values’ within policy circles and political debate are now common. During the campaign for devolution and since the establishment of the National Assembly for Wales, politicians have frequently appealed to ‘Welsh values’ as a distinctive marker and as a justification for policy deviation. Indeed, an appeal to ‘Welsh values’ has almost become a hallmark of true ‘Welshness’. It is much used by politicians seeking to establish their credentials as representatives of Welsh opinion and by central government ministers charged with managing Welsh affairs – perhaps especially where their own policies are not particularly distinctive or are tied by the policies of a UK-wide party. Thus on 26 November 2002 Peter Hain, newly appointed Secretary of State for Wales in the Labour government, duly assessed the National Assembly for Wales, declaring the need to protect ‘our very own and very special values in Wales ... Welsh values of community. Welsh values of caring. Welsh values of family life. Welsh values of mutual co-operation and mutual respect. Welsh values of democracy. Welsh values of internationalism. Welsh values of multi-racialism’ ... The innumerable references to Aneurin Bevan in political speeches ... and to the NHS, is part of a process through which populist history has become a powerful contemporary influence. For example, in 1998, Alun Michael, then Secretary of State for Wales, enunciated Wales’ special commitment to the principles of the NHS and adherence to the values articulated in the NHS in the preface to the policy document *Putting Patients First*: ‘None of the values enshrined in the NHS when Aneurin Bevan created it will be lost. The NHS in Wales will continue to be a truly national service available to all on the basis of need’... Swearing allegiance to Bevan’s legacy is an important political gesture in Wales. In an online opinion poll in 2005 to find the top 100 Welsh heroes, Aneurin Bevan beat allcomers, ahead of the charismatic 15th-century hero of Welsh resistance to English rule, Owain Glyndwr, the singer Tom Jones, and the ‘Welsh wizard’ and architect of state pensions, David Lloyd George.

*Tanner a Michael, 2007, t. 39-40*

Felly, mae cyfeirio at draddodiad a hanes yn ddull pwysig o alluogi'r to presennol o wleidyddion Llafur i ddatblygu neges sy'n taro tant, gan eu galluogi i gyfleu syniadau a gwerthoedd y gall pobl gyffredin ymgysylltu â hwy a'u deall.

Mae'r Blaid Lafur wedi defnyddio ei threftadaeth a'i thraddodiadau mewn ffyrdd eraill. O dan gytundeb y glymblaid â'r Democratiaid Rhyddfrydol yn 2000, roedd blaenoriaethau polisi yn cynnwys diddymu taliadau am bresgripsiynau a thaliadau deintyddol i bobl dros 60 oed, llaeth ysgol am ddim, teithio am ddim i bensiynwyr a diwygiadau addysgol. Nid gor-ddweud yw awgrymu bod y polisïau hyn yn eithaf tebyg i flaenoriaethau pleidiau gwleidyddol radical yng Nghymru ganrif yn ôl. Pan ddaeth Cymru yn wlad gyntaf ac unig wlad y DU i gyflwyno presgripsiyau am ddim yn 2007, bu hon yn enghraifft arall o ymgais radical i ddilyn agenda sosialaidd nodedig yng Nghymru ac un ac iddi apêl hirsefydledig.

Wrth gwrs, mae datblygu polisïau yng nghyd-destun datganoli wedi arwain at nifer o broblemau a heriau. Fel y bu erioed, mae manteision ac anfanteision datganoli wedi parhau i greu amrywiaeth barn ymhlith rhengoedd y Blaid Lafur. Fel yr awgrymais yn gynharach, mae sefydlu llywodraeth glymblaid rhwng Llafur a Phlaid Cymru ynghyd â chyhoeddi dogfen bolisi *Cymru'n Un* yn 2007 yn gyflawniad mawr ac yn drobwynt yn hanes y traddodiad radical/Llafur yng Nghymru (yn enwedig am fod hon yn gynghrair a fyddai'n annychmygol yn y 1970au ac yn annhebygol yn y 1980au a'r 1990au. Ym mhob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol yng Nghymru ceir pobl sy'n benderfynol o sicrhau bod datganoli yn llwyddo ac yn benderfynol ei fod yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gwneud cyfiawnder â hanes, traddodiadau a diwylliannau Cymru. Ond ceir pobl o hyd (fel Bevan chwe deg mlynedd yn ôl a Kinnock yn y 1970au) sy'n credu bod datganoli yn wastraff amser ac yn wastraff arian. Yn 2003, pan oedd Comisiwn Richard yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ymestyn pwerau'r Cynulliad, cymerodd dystiolaeth gan nifer o unigolion a chyrff yng Nghymru. Ymhlith yr unigolion roedd yr AS Llafur Llew Smith, un o'r ychydig ymgyrchwyr 'na' yn 1997 i gael tipyn o sylw yn y cyfryngau. Daw Darn 11 o dystiolaeth Smith i'r Comisiwn. Darllenwch y darn a nodwch pam bod Smith yn parhau i amau gwerth y Cynulliad.

### Darn 11

Are we, for example, to accept that the NHS in Wales is run more efficiently than in England, since many of the powers have been devolved to Cardiff. Do we accept that Wales is any less a quango state since the establishment of the Welsh Assembly? No. Is there anything fair about and Assembly continuing to subsidise one of the richest areas in Wales, in Cardiff Bay, at the expense of some of the poorest communities? Has the Assembly benefitted those deprived communities in a way which a Labour government would have failed to do so? No ... To save any further embarrassment for the Welsh Assembly, I will refrain from providing any other examples, but there are many ... other than a ‘bonfire of the quangos’, the other claim made by Ron Davies and supported by the ‘Yes’ campaign was (that) £20 million would amply fund a democratically elected and accountable Welsh Assembly and with a lot to spare. This money ... will obviously not be sufficient ... the ridiculous claim that £20 million would fund the Welsh Assembly was highlighted by Jim Pickard in the Financial Times (8/3/02) when he revealed that ‘government officials have admitted that the annual running costs of the Welsh Assembly are now £148 million, more than double the £72 million spent in the last year of the Welsh Office ... The revelation makes a mockery of New Labour’s claim in 1997 that Welsh devolution would only cost an extra £15 – £20 million each year’.

*Smith, 2003, t. 4-5*

Fel y bu yn y 1970au, roedd costau rhedeg Cynulliad a'i fethiant honedig i sicrhau atebolrwydd democrataidd ymhith pryderon pennaf Smith.

I lawer, defnyddiwyd perfformiad siomedig Llafur yn etholiadau'r Cynulliad yn 2007 fel sbardun i agor llygaid y Blaid Lafur i bwysigrwydd ei hanes a'i thraddodiadau. Daeth mudiadau i fodolaeth a sefydlwyd grwpiau ffocws megis ‘Wales 20:20’ ('melin drafod' â'r nod o ysgogi dadleuon ynglŷn â sosialaeth) er mwyn adnewyddu'r mudiad Llafur ledled Cymru, ail-greu Llafur fel sefydliad a oedd yn cael ei ysgogi gan bolisi a helpu i hwyluso dadl eang a chynhwysol o dan yr hyn y mae'n ei alw yn faner 'sosialaidd ddemocrataidd' yng Nghymru. Ymhlith gweithgareddau amlycaf Wales 20:20 oedd yr ymgyrch i ddileu tlodi plant yng Nghymru.

Drwy grwpiau a mudiadau o'r fath, mae unigolion newydd yn y Blaid Lafur wedi dod i'r amlwg sy'n gweld y Cynulliad fel modd i wella bywydau pobl gyffredin sy'n byw yng Nghymru. Un sy'n dod o dan y categori hwn yw Huw Lewis, yr Aelod Llafur dros Ferthyr yn y Cynulliad, a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Roedd Lewis yn weithgar yn Wales 20:20, adolygodd brif raglen wrthdlodi Llywodraeth Cymru 'Cymunedau yn Gyntaf' a lluniodd gynllun Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant. Soniodd Lewis am yr angen i ail-greu'r cysylltiadau a fu erioed yn rhan o'r traddodiad Llafur, rhywbeth yr oedd llawer yn ei ystyried yn ymgais i fod yn arweinydd ar Lafur Cymru yn 2009. Daw Darn 12 o lyfryn a gyhoeddwyd gan Lewis a ‘Wales 20:20’ yn 2009. Fe sylwech ei fod yn dadlau dros ail-greu'r cysylltiadau a fu erioed yn rhan o'r traddodiad Llafur Cymreig radical.

### Darn 12

The Labour Party was created to represent the interests of progressive people organised in the workplace. In this respect little has changed – it is that group of people for whom we try to effect most change and who make up our most valuable resource in terms of members, thinkers and supporters. However, a growing dislocation between different branches of the Labour movement in Wales risks not just a weakening of these ties, but schism. There is something profoundly disturbing about the current relationship between the Labour Party in Wales and what should be its most natural of brethren – the Trade Unions and the cooperative movement. The latter have become the undervalued pair in the progressive triumvirate needed to drive Wales forward. Elsewhere in Europe, Trade Unions are the vanguard of policy creation in areas like health and safety and work/life balance – we need the same action and support in Wales. Genuine social partnership must be the cornerstone of a renewed Welsh Labour. Historically, co-operatives and the Unions have not just helped, or followed Labour in Wales, they have led on the policy agenda, and quietly through successful stand alone projects they continue to do fantastic work, but we have stopped recognising that and no longer progress common values from a common platform. This goes for all affiliates who make up the Labour family – Young Labour and Labour Students in Wales for example should be, as it once was, the training ground for new leaders and great Trade unionists of the future – these organisations are now undervalued, underused and underfunded.

*Lewis, 2009, pp. 14-15*

Byddwch wedi sylwi fwy na thebyg mai prif nodwedd y darn hwn yw bod Lewis yn gweld dyfodol ar gyfer y gynghrair draddodiadol rhwng y Blaid Lafur a'r undebau llafur. Efallai eich bod wedi nodi hefyd y ffordd y mae'r cyfeirio at fodolaeth 'teulu Llafur' yng Nghymru.

Mae ffigyrau amlwg eraill yn Llafur Cymru hefyd wedi galw mewn ffordd debyg am adfywio traddodiad Llafur yr ymddengys ei fod wedi diflannu. Ymhlith y rhain fu Peter Hain, yr Aelod Llafur dros Gastell-nedd, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru o 2002 a hyd at 2008. Daw Darn 13 o bapur a ysgrifennwyd gan Hain. Wrth ei chi ei ddarllen, byddwch yn nodi sut y mae'n ystyried y traddodiad Llafur, ei werthoedd a'r newidiadau sydd wedi digwydd ers y 1980au.

## Darn 13

Wales is a very different place compared with when I first came to live here 18 years ago, and has developed at a pace since Labour came to office in 1997, accelerating even further since the assembly began work in 1999 ...

The communities in which the roots of Labour’s support and bases of activism were bred and sustained for generations are disappearing, increasingly fragmented with neighbours more strangers than family friends. The caring values which have for generations epitomised many Welsh neighbourhoods – especially in the valleys – can no longer be taken for granted. The large workplaces that were the heart of the old labour movement in Wales as elsewhere have all but disappeared. Trade unions – the bedrock of the old Welsh Labour – have steadily declined. Even under Labour, trade union membership in the workforce fell sharply by 13 per cent between 1998 and 2006 ... significantly greater than almost every part of Britain: four times greater than Scotland and three times the north-east. While public sector membership is high (68 per cent), private sector membership is very low (22 per cent). Just a third of all Welsh workers are trade union members today – though high by European standards, sharply down on the past. Solidarity and class have been eroded as the key voting determinants. The Labour vote traditionally passed down from parents and grandparents to children and grandchildren is no longer the binding glue of the Labour party’s electorate. Typically, young people encountered on the doorstep ‘don’t know’ or ‘don’t care’ or ‘won’t vote’.

In traditional Labour areas in Wales where the older vote can be rock solid, the younger people are less likely to vote Labour or to vote at all. In the 2007 assembly elections fully 80 per cent of registered 18–34-year-olds did not vote; half of 18-24-year-olds knew nothing about the Assembly.

*Hain, 2008*

Mae'r heriau a wyneba'r Blaid Lafur wrth iddi geisio ail-greu ei hapêl draddodiadol yng Nghymru yn niferus. Yn y darn canlynol, sydd hefyd yn dod o bapur Hain, mae'n nodi y bydd angen ail-greu apêl draddodiadol Llafur er mwyn bod yn addas ar gyfer anghenion ac uchelgeisiau cyfoes.

## Darn 14

Alongside party renewal there are four ideological challenges facing Welsh Labour. First and above all, Welsh Labour must be the party for an aspirational Wales, and this means appealing both to ‘middle Wales’ as well as motivating our ‘traditional Welsh Wales’ vote to turn out in a way it has been increasingly reluctant to do. These constituencies are not at all incompatible: on the

> contrary, appealing to both simultaneously holds the key to a Labour revival, as was the case in 1997. Second, we have to win the argument for deepening devolution within Britain rather than as a bridgehead to separatism outside Britain. Third, we must not allow the nationalists to claim the Welsh language as their fiefdom: we must advance a positive vision for the language with a distinctive global perspective rather than the parochial one of Plaid and too many of their fellow travellers in Welsh public life. Where their instinct is to make Welsh speaking almost obligatory, ours is to ensure choice for all, Welsh and non-Welsh speakers alike. Fourth, we must claim authorship of a proud Welsh patriotism that is simultaneously British, European and internationalist, rather than separatist. Devolution for Labour was never about creating an inward looking, parochial Wales, or about satisfying that strand in Welsh society which is basically so insecure that it seeks to huddle with its back to the outside world ... Our citizens have quite different aspirations from 1997. The issues are no longer mass unemployment and collapsing public services. The modern Wales majority has different aspirations and different pressures. People now rightly expect to have not just any job, but a decent job with opportunity to progress; not just any school for their children but a high-achieving one; not just low hospital waiting times but high-quality personalised care; not just a roof over their heads but affordable housing to buy or rent; not just more police but better neighbourhood policing; not just reduced crime but reduced violence, reduced antisocial behaviour and more respect. And they are right to demand this of Welsh Labour.
>
> *Hain, 2008*

Yn sgil penderfyniad Rhodri Morgan i ymddiswyddo fel arweinydd Llafur Cymru a Phrif Weinidog yn 2009, crisialodd y frwydr i fod yn arweinydd y blaid yr angen i lafur aildanio ac ailddarganfod ei hapêl draddodiadol yng Nghymru. Carwyn Jones, AC Llafur dros Ben-y-bont ar Ogwr enillodd y frwydr. Addawodd y byddai Llafur yn ymladd i adfer ei safle etholiadol yng Nghymru, gan adnewyddu ei hapêl draddodiadol yng Nghymru drwy ymrwymiad i wasanaethau cyhoeddus a ‘putting ordinary working people first’ (Jones, 2009).

Felly, mae'r heriau a wynebir gan y Blaid Lafur yng Nghymru yn niferus. Fel y cydnabu Hain, mae Cymru wedi newid cryn dipyn o'r wlad a uniaethodd â'r traddodiadau Llafur yn y 1920au a'r 1930au. Mae'n wahanol, hyd yn oed, i'r wlad a fodolai cyn datganoli ddegawd yn ôl. Mae angen i'r Blaid Lafur ymateb i'r heriau newydd a'r uchelgeisiau newydd er mwyn i'r traddodiad oroesi.

## 7.3 Casgliad

- Mae rhai yn credu bod cymesuredd rhwng gwerthoedd 'Llafur' a gwerthoedd 'Cymreig'.
- Ailgyneuwyd y ddadl ynglŷn â datganoli yn wyneb amodau economaidd anodd y 1980au a'r cyfnod hir o lywodraethau Ceidwadol.
- Gwnaeth rhai gwleidyddion a wrthwynebodd ddatganoli yn y 1970au newid eu meddwl ynglŷn â'r mater tua'r adeg hon.
- Ar ôl i Lafur ennill grym yn 1997, cymeradwywyd datganoli, ond o fwyafrif bach iawn.

- Yn etholiadau i'r Cynulliad, mae goruchafiaeth Llafur dros wleidyddiaeth Cymru wedi bod yn ddiogel.
- Ers 2001, mae'r Blaid Lafur wedi ceisio ailddiffinio ei gwerthoedd, er mwyn diwallu anghenion penodol Cymru.
- Derbynnir yn gyffredinol bod yn rhaid i'r traddodiad Llafur ymaddasu a newid i fodloni uchelgeisiau Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain.

Yn ystod yr adran hon, rydym wedi edrych ar darddiad a datblygiad traddodiad gwleidyddol sydd wedi ffurfio gwleidyddiaeth a chymdeithas Cymru ers canrif bron. Fel y gwelsom, bu llawer mwy i'r traddodiad Llafur na gwleidyddiaeth y maes glo. Ymwreiddiodd y traddodiad Llafur – traddodiad radical – yn ddwfn yn enaid y Cymry, gan gynrychioli dyheadau cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol a gwleidyddol a oedd yn aml yn croesi'r ffiniau a oedd yn seiliedig ar ddosbarth cymdeithasol. Ar adegau, fel y gwelsom, nid oedd modd gwahaniaethu rhwng gwerthoedd Llafur a gwerthoedd, rhywbeth a fu'n cymylu'r syniadau croes o hunaniaeth mewn gwahanol rannau o Gymru.

Hoffwn orffen lle dechreuon ni, gydag erthygl Martin yn *The Guardian* ym mis Medi 2009. Gorffennodd Kettle ei erthygl drwy ddadlau:

> Maybe this scenario is cast too dramatically ... any claim that Wales is a Conservative nation now – especially based on the support of fewer than one voter in three – is ridiculous. But the idea that it is still a Labour nation is increasingly ridiculous too. As Labour prepares to choose a successor to Rhodri Morgan, its admirable Welsh leader who is 70 this month, Welsh politics is changing fast. Land of my fathers no more.
>
> (Kettle, 2009)

Nid oes angen i'r senario ymddangos mor ddu. Mae cynrychiolwyr Llafur yn effro i'r heriau o'u blaenau. Mae angen i'r blaid gael y personoliaethau a'r polisïau i ailddyfeisio neu ail-lunio'r traddodiad, er mwyn ail-greu ei berthnasedd i bobl gyffredin sy'n byw yn y de ac yn y gogledd, sy'n siarad Cymraeg neu sydd ddim yn siarad Cymraeg. Os gall wneud hyn, fel yr awgryma'r rhai ffyddiog, efallai y byddwn yn dal i drafod rhinweddau'r traddodiad Llafur ymhen hanner canrif arall.

# 8 Cynrychiolaeth wleidyddol

*Anwen Elias*

Cynrychiolaeth wleidyddol yw un o nodweddion creiddiol unrhyw gyfundrefn ddemocrataidd fodern, a drefnir ar sail egwyddor craidd *rheolaeth y bobl*, a hynny am ein bod yn ethol cynrychiolwyr o bryd i'w gilydd sy'n gwneud penderfyniadau gwleidyddol ac yn gweithredu polisïau ar ein rhan. Ond mae cynrychiolaeth wleidyddol hefyd yn fater dadleuol. Mae gwyddonwyr gwleidyddol a gwleidyddion yn anghytuno ar gwestiynau allweddol ynglŷn â chysyniad sylfaenol cynrychiolaeth wleidyddol, megis *pwy* ddylai gael ei gynrychioli, pwy ddylai *fod yn cynrychioli* a *pha fath*o gynrychioliaeth sy'n ddymunol.

Mae'r adran hon yn ystyried sut yr ymdriniwyd â rhai o'r cwestiynau hyn ynglŷn â chynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru. Yn benodol, byddwn yn ystyried sut yr arweiniodd pryderon ynglŷn ag *ansawdd* cynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru erbyn canol y 1990au at raglen fawr o ddiwygio cyfansoddiadol – datganoli – a chreu corff newydd a etholir yn ddemocrataidd, Cynulliad Cenedlathol Cymru. Roedd cefnogwyr datganoli yn ystod canol y 1990au yn ystyried hyn yn broses a fyddai'n cyflwyno math newydd o wleidyddiaeth yng Nghymru, un a fyddai'n cael ei nodweddu, yn anad dim, gan ei natur gynhwysol. Mae'r adran hon yn ystyried a yw gwleidyddiaeth Cymru wedi dod yn fwy cynhwysol ers hynny mewn gwirionedd a'r graddau y mae datganoli wedi gwella ansawdd cynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru.

## 8.1 Hanes cynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru

Yn yr adran hon, byddwch yn dechrau drwy edrych ar y ffordd y mae Cymru wedi cael ei chynrychioli'n hanesyddol o fewn gwleidyddiaeth Prydain a pham bod cyfundrefn o gynrychiolaeth wleidyddol o'r fath yn cael ei hystyried yn annerbyniol gan rai grwpiau yng Nghymru. Bydd hyn yn arwain at ystyried y twf cynyddol am ddatganoli i Gymru yn ystod y 1960au a'r 1970au, ac yna unwaith eto yng nghanol y 1990au. Daw'r adran i ben drwy ystyried y cynlluniau datganoli a gyflwynwyd gan Lafur Newydd yn 1997, a strwythur a phwerau'r Cynulliad a grëwyd yn fuan wedi hynny.

### 8.1.1 Cynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru cyn datganoli

Mae arolygon hanesyddol o gynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru yn aml yn cyfeirio at gofnod ym mynegai argraffiad cynnar o *Encyclopaedia Britannica*, lle y nodwyd ‘for Wales, see England’. Mae'r ffaith bod modd cyfeirio at Gymru felly yn adlewyrchu ymgorffori llwyr y wlad ym mheirianwaith sefydliadol, cyfreithiol a gweinyddol gwladwriaeth Lloegr drwy ddeddfwriaeth yn 1536 a 1543 (y Deddfau Uno). Nododd Deddf Cymru a Berwick yn 1746 ‘in all cases where the Kingdom of England, or that part of Great Britain called England, hath been or shall be mentioned in any Act of Parliament, the same has been and shall henceforth be deemed and taken to comprehend and include the Dominion of Wales’ (Bogdanor, 1999, t. 144). Roedd y Ddeddf hon yn weithredol tan 1967.


Fodd bynnag, yn ymarferol, nid yw buddiananu Cymru wedi cael eu gogynnwys o dan 'Loegr' fel yr honnir weithiau. Wrth gwrs, mae Cymru erioed wedi anfon cynrychiolwyr i eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin. Ond yn ychwanegol at hynny, ers dechrau'r ugeinfed ganrif mae llywodraethau olynol yn San Steffan wedi cydnabod bod angen trin Cymru yn

wahanol mewn rhai meysydd polisi. Mewn meysydd megis addysg, y Gymraeg ac amaethyddiaeth, sefydlwyd sawl corff penodol i Gymru er mwyn teilwra polisïau at anghenion penodol Cymru a goruchwylio'r broses o'u rhoi ar waith yng Nghymru. Roedd hyn yn gyfystyr â phroses o ddatganoli gweinyddol. Erbyn y 1950au, roedd cymaint â 17 o adrannau'r llywodraeth wedi sefydlu unedau gweinyddol yng Nghymru. Penodwyd Henry Brooke fel y Gweinidog cyntaf dros Faterion Cymreig yn 1957, a sefydlwyd Swyddfa Gymreig (o dan arweinyddiaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru) yn 1964 er mwyn 'express the voice of Wales' ym mhrosesau llunio polisïau llywodraeth ganolog (Bogdanor, 1999, t. 160).

Fodd bynnag, nid oedd pawb yn fodlon ar ddatganoli gweinyddol. Ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae grwpiau a phleidiau gwleidyddol penodol wedi dadlau bod y math hwn o gynrychiolaeth wleidyddol yn annigonol. Gadewch i ni edrych yn fanylach at rai o'r pryderon hyn ynglŷn ag ansawdd cynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru.

## 8.1.2 Herio cynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru

Yn hanesyddol, mae sawl grŵp gwahanol wedi herio'r gyfundrefn o gynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru. Er enghraifft, yn 1925, sefydlwyd Plaid Genedlaethol Cymru (a elwir yn ddiweddarach yn Blaid Cymru,) er mwyn gwarchod y Gymraeg a mynnu 'freedom' for Wales to decide on its own political affairs. Chwaraeodd Plaid Cymru, ynghyd â'r blaid gyfatebol yn y Alban, Plaid Genedlaethol yr Alban (SNP), ran bwysig yn y broses o roi datganoli ar agenda wleidyddol y DU yn y 1960au a'r 1970au. Yn rhannol mewn ymateb i fygythiad etholiadol cynyddol cenedlaetholdeb yng Nghymru a'r Alban, ymrwymodd y Blaid Lafur Brydeinig i raglen o ddatganoli i gyrff newydd a etholir yn ddemocrataidd yng Nghymru a'r Alban. Cyflwynwyd y cynlluniau hyn i bleidleiswyr yng Nghymru a'r Alban mewn refferendwm yn 1979.




Ffigur 16 'Why you should vote NO in the referendum': taflen 1979

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

### Gweithgaredd 23

Mae Ffigur 16 yn dangos copi o daflen sy'n crynhoi rhai o'r prif ddadleuon a gyflwynwyd gan wrthwynebwyr datganoli yn y refferendwm ar ddatganoli i Gymru yn 1979. Wrth i chi ei darllen, ystyriwch pa mor ddarbwyllol yw'r dadleuon hyn, a pha

fath o ddadleuon y gallai cefnogwyr datganoli fod wedi'u cyflwyno mewn ymateb i'r haeriadau hyn.

Discussion

Gallwch gytuno neu anghytuno â'r dadleuon hyn yn erbyn datganoli i Gymru. Ond yn 1979, cafodd y cynlluniau hynny eu trechu'n llwyr. Oherwydd y canlyniadau hyn, a'r llywodraeth Geidwadol newydd a etholwyd yn 1979 nad oedd ganddi fawr ddim diddordeb yn y materion hyn, tynnwyd datganoli oddi ar yr agenda wleidyddol Brydeinig am sawl blwyddyn. Ac eto, yn ystod y cyfnod o ddeunaw mlynedd pan oedd y Blaid Geidwadol mewn grym – o 1979 i 1997 – bod pryderon ynglŷn â *dilysrwydd* cynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru wedi cynyddu i'r fath graddau erbyn canol y 1990au nes bod galw o'r newydd am ddatganoli pŵer i Gynulliad a etholir yn ddemocrataidd.

Mae cysyniad dilysrwydd yn derm hynod bwysig ym myd gwleidyddiaeth, ond gall fod yn anodd cytuno ar un diffiniad o'r term. Un ffordd o feddwl amdano yw mewn termau ‘cyfiawnder’ (Heywood, 2000, t. 29). Felly, er enghraifft, os oeddem am asesu dilysrwydd cyfundrefn wleidyddol, byddem am wybod i ba raddau y mae pobl sy'n byw o dan y gyfundrefn honno yn credu bod y ffordd y caiff penderfyniadau gwleidyddol eu gwneud yn 'gyfiawn'. Os bydd cyfundrefn wleidyddol yn esgor ar ganlyniadau polisi *teg* y mae'r bobl sy'n byw o dan y gyfundrefn yn eu derbyn ac (yn achos cyfreithiau) yn ufuddhau iddynt, yna byddem yn dweud ei bod yn gyfundrefn wleidyddol ddilys. A hynny am fod aelodau'r gymuned wleidyddol yn derbyn cael eu llywodraethu mewn ffordd benodol, ac yn ufuddhau i'r penderfyniadau gwleidyddol a wneir gan y rhai sy'n llywodraethu. Cyfundrefn wleidyddol annilys fyddai un lle y teimlir *nad oes gan y rhai mewn grym yr hawl* i wneud penderfyniadau gwleidyddol ar ran pobl sy'n byw yn y gymuned honno.

Er mwyn helpu i feddwl am ddilysrwydd cyfundrefn o gynrychiolaeth wleidyddol, mae'n ddefnyddiol meddwl yn nhermau 'mewnbynnau' ac 'allbynnau' unrhyw broses o gynrychiolaeth wleidyddol (Judge, 1999, t. 21).

- Mae 'mewnbynnau' yn cyfeirio at etholiadau, ac o ran hyn mae gennym ddiddordeb yng 'nghyfiawnder' y ffordd y caiff cynrychiolwyr eu hethol (e.e. a yw'r etholiadau'n deg, yn agored ac yn dryloyw?), y graddau y mae cynrychiolwyr yn adlewyrchu dymuniadau polisi'r pleidleiswyr, a phwy yw'r cynrychiolwyr.
- Mae'r 'allbynnau' yn cyfeirio at yr hyn y mae cynrychiolwyr yn ei wneud ar ôl iddynt gael eu hethol; o ran hyn, rydym am wybod a yw ein cynrychiolwyr wedi gweithredu'n gyfrifol ac mewn ffordd sy'n cyfateb i'n dymuniadau ai peidio.

Yng Nghymru, erbyn canol y 1990au, gellir dadlau bod cynrychioliaeth wleiddydol yn wynebu problemau o ran dilysrwydd *mewnbynnau* ac *allbynnau*. O ran dilysrwydd mewnbynnau, bu dau brif bryder. Roedd y cyntaf yn ymwneud â dymuniadau gwleidyddol pleidleiswyr yng Nghymru a sut roedd y rhain yn cael eu hadlewyrchu (ai peidio) yn y llywodraeth a fu mewn grym yn San Steffan.

Mae Tabl 2 yn rhoi canlyniadau etholiadau cyffredinol i Gymru rhwng 1979 a 1997. Os edrychwch yn benodol at y rhes i'r 'Ceidwadwyr', byddwch yn sylwi ar yr hyn sy'n digwydd i ganlyniadau etholiadol y blaid rhwng 1979 a 1997. Wedyn cymharwch hyn â'r rhes i'r 'Blaid Lafur' a byddwch yn sylwi mai'r gwahaniaeth mwyaf ym mherfformiad etholiadol y ddwy blaid hyn yw nad yw'r Blaid Geidwadol erioed wedi cael mwyafrif etholiadol yng Nghymru.

## Tabl 2 Canlyniadau etholiadau cyffredinol yng Nghymru, 1979–1997

| | 1979 | | 1983 | | 1987 | | 1992 | | 1997 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plaid | % | Seddau | % | Seddau | % | Seddau | % | Seddau | % | Seddau |
| Llafur | 47.0 | 22 | 37.5 | 20 | 45.1 | 24 | 49.5 | 27 | 54.7 | 34 |
| Ceidwadwyr | 32.2 | 11 | 31.0 | 14 | 29.5 | 8 | 28.6 | 6 | 19.6 | 0 |
| Democrataid Rhyddfrydol | 10.6 | 1 | 23.2 | 2 | 17.9 | 3 | 17.9 | 1 | 12.4 | 2 |
| Plaid Cymru | 8.1 | 2 | 7.8 | 2 | 7.3 | 3 | 8.8 | 4 | 9.9 | 4 |
| Eraill | 2.2 | 0 | 0.4 | 0 | 0.2 | 0 | 0.7 | 0 | 3.4 | 0 |
| Cyfanswm | 100 | 36 | 100 | 38 | 100 | 38 | 100 | 38 | 100 | 40 |

Thrasher a Rallings, 2007, t. 223

Dirywio a wnaeth cefnogaeth etholiadol y Blaid Geidwadol o ganol y 1980au ymlaen. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad â'r Blaid Lafur, a welodd ei sefyllfa gref yng ngwleidyddiaeth Cymru yn mynd yn gryfach eto dros yr un cyfnod. Felly, roedd Cymru yn cael ei llywodraethu gan blaid wleidyddol nad oedd yn cael cefnogaeth pleidleiswyr Cymru. Cafodd y rhwystredigaeth gynyddol a barodd y sefyllfa hon ei mynegi'n glir gan Ron Davies, yr AS Llafur dros Gaerffili ac un o brif benseiri datganoli i Gymru:

> In 1987 and again in 1992 I clearly remember the sense of despair not only at the return of a Conservative government but the consequences of Wales having so clearly turned its face against the Tories yet still facing the prospect of a Tory government, a Tory Secretary of State and Tory policies imposed on us in Wales. I vividly recall the anguish expressed by an eloquent graffiti artist who painted on a prominent bridge in my constituency, overnight after the 1987 defeat, the slogan ‘we voted Labour and we got Thatcher’.
>
> (Davies, 1999, t. 4–5)

Cafodd y teimlad hwn o fyw o dan lywodraeth plaid wleidyddol 'heb ei hethol' ei ddwysau gan y ffaith bod llawer o'r ysgrifenyddion gwladol a benodwyd i'r Swyddfa Gymreig - ac felly'n effeithio ar swmp a sylwedd polisïau a effeithiai ar Gymru - yn ASau o etholaethau yn Lloegr. Dim ond un o'r chwe Ysgrifennydd Gwladol Ceidwadol rhwng 1979 a 1997 oedd â sedd yng Nghymru.


O ran dilysrwydd allbynnau, teimlid yn aml fod penderfyniadau polisi'r Blaid Geidwadol yn cael eu gorfodi ar Gymru yn groes i ewyllys pleidleiswyr Cymru. Cafodd hyn ei ddwysau gan y ffaith bod y Swyddfa Gymreig ar adegau o dan arweinyddiaeth unigolion - John Redwood yn benodol - a oedd yn arddel safbwyntiau Thatcheraidd iawn a oedd yn amlwg yn mynd i groes i werthoedd gwleidyddol Cymru. Roedd penderfyniadau polisi eraill a wnaed gan y llywodraeth ganolog – gan gynnwys treth y pen a phreifateiddio'r diwydiannau trwm megis glo – hefyd yn hynod amhoblogaidd. O dan lywodraeth y Blaid Geidwadol gwelwyd twf hefyd mewn 'cwangos', fel y'u gelwid, yng Nghymru (sefydliadau anllywodraethol lled-ymreolaethol). Mae'r rhain yn gyrff annibynnol o dan arweinyddiaeth unigolion a benodwyd gan y llywodraeth ac roeddent yn gyfrifol am reoleiddio'r diwydiannau newydd eu preifateiddio, goruchwylio gweithgareddau diwylliannol a gwyddonol a chynghori'r llywodraeth ar bolisi. Yng Nghymru, roedd hyn yn cynnwys cyrff megis Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Bwrdd Croeso Cymru, ac

amrywiol Awdurdodau Iechyd rhanbarthol. Roedd twf y cwangos wedi dwysau'r teimlad bod Cymru yn cael ei llywodraethu'n gynyddol gan 'wladwriaeth heb ei hethol' (Morgan a Mungham, 2000 t. 45–67).

Ar ben y pryderon hyn ynglŷn â dilysrwydd mewnbynnau ac allbynnau ceid y ffaith bod y Blaid Lafur wedi bod yn wrthblaid yn Nhŷ'r Cyffredin ers bron ddau ddegawd, ac nid yw'n anodd deall pam yr ymrwymodd y blaid hon i raglen o ddatganoli pe bai'n ennill grym. Digwyddodd hyn yn 1997. Ar ôl ffurfio llywodraeth, dechreuodd Llafur Newydd Tony Blair ar raglen sylweddol ac eang ei chwmpas o newid cyfansoddiadol, gan gynnwys creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. Mae'r adran nesaf yn amlinellu sut y digwyddodd y newidiadau hyn, ac mae'n rhoi trosolwg o brif bwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 8.1.3 Llafur Newydd a setliad datganoli Cymru

Hyrwyddodd Llafur Newydd, o dan arweinyddiaeth Tony Blair, ddatganoli ar y sail ‘it will bring government closer to the people, make our politics more *inclusive* and put power in the hands of the people where it belongs’ (dyfyniad yn Chaney a Fevre, 2001, t. 22–3; *pwyslais wedi'i ychwanegu*). Cyflwynwyd y cynlluniau uchelgeisiol hyn i greu math newydd cynhwysol o wleidyddiaeth gerbron etholwyr Cymru mewn refferendwm ar 18 Medi 1997.




Ffigur 17 Sut y rhannwyd Cymru gan y bleidlais

Yr wythnos cynt, roedd pleidleiswyr yr Alban wedi pleidleisio i sefydlu senedd i'r Alban, gyda 74.3 y cant o blaid y cynnig o gymharu â 25.7 yn ei wrthwynebu. Yng Nghymru, dim ond hanner etholwyr Cymru – 50.1 y cant a bod yn fanwl gywir – a bleidleisiodd yn y refferendwm. Ni allai'r canlyniad fod wedi bod yn agosach: O gael eu gofyn a oeddent yn cytuno y dylai fod Cynulliad i Gymru, dywedodd 50.3 y cant o bleidleiswyr ‘Ie', gyda 49.7 y cant yn dweud Na. Dengys Ffigur 17 sut roedd cefnogaeth a gwrthwynebiad i ddatganoli wedi'u dosbarthu'n ddaearyddol ledled Cymru; pleidleisiodd ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith yn bennaf yn y gogledd-orllewin a'r de-orllewin o blaid datganoli, ond pleidleisiodd y cymunedau diwydiannol mwy Seisnigaidd yn y gogledd-ddwyrain a'r de-ddwyrain i wrthod y cynigion hyn.

Felly, dywedodd etholwyr Cymru 'Ie' i ddatganoli o 6,721 o bleidleisiau'n unig. Nid oedd hyn yn dangos cefnogaeth frwd dros y prosiect datganoli. Gellid ystyried bod natur agos y canlyniad yn arwydd *nad oedd i'r Cynulliad Cenedlaethol newydd ddilysrwydd*, o gofio na

phleidleisiodd llai na hanner pleidleiswyr Cymru o gwbl, a bod hanner y rhai a bleidleisiodd yn gwrthwynebu sefydlu corff o'r fath. Mae hyn yn eironig, o gofio mai diben datganoli oedd datrys problem diffyg dilysrwydd canfyddedig yng ngwleidyddiaeth Cymru.

## Gweithgaredd 24

Er gwaethaf natur agos canlyniad y refferendwm yn 1997, eto i gyd, roedd yn ganlyniad a ddangosodd fod agweddau tuag at ddatganoli wedi newid mewn ffyrdd pwysig ers refferendwm 1979. Wrth i chi ddarllen y canlynol, nodwch bum ffactor pwysig sy'n helpu i esbonio pam bod newid o'r fath ym marn y cyhoedd.

### Darn 15 Why was 1997 different?

The timing of the Welsh referendum of 1997 could not have been better in terms of securing a 'yes' vote. The new Labour government was still enjoying its honeymoon period, little opportunity had existed for left-wing discontent to grow, and the Scots had already a week earlier voted resoundingly for the establishment of a parliament in Edinburgh. Furthermore, the speedy pre-legislative referendum ensured that there was little time for the deficiencies of the government's devolution proposals to be examined. The 'no' campaign was a damp squib. In contrast, the political context of the referendum in 1979 was hostile indeed for the then Labour government. It had lost its majority during 1976 and was reliant on the Liberals and other smaller parties to ensure success for its legislative programme. The referendum took place shortly after the 'winter of discontent' and amidst the resurgence of the Conservative Party under Margaret Thatcher ... These different political contexts in 1979 and 1997 can be seen to have influenced electors' behaviour; to have changed the pattern of support and opposition to devolution; and in the final instance, to have undermined the turnout among 'no' voters sufficiently for a 'yes' result to have crept in under the wire ...

This is not to deny that, although the increase in the proportion of the population of Wales affirming a Welsh identity between 1979 and 1997 was small, Welsh national identity increased in political salience ... [T] wo notable developments have occurred. People with a Welsh national identity have become more pro-devolution. And Plaid Cymru, the nationalist party, has become markedly more acceptable to the mass of the population in Wales ... As there was no marked social change that might account for why a Welsh identity became more politically salient, it is likely to be a political creation. Perhaps the Labour government should thank Plaid Cymru for its work in this area, for without the politicisation of Welsh identity, the swing from 1979 to 1997 would not have been enough.

Evans and Trystan, 1999, t. 113–14

---

#### Discussion

Rhai o'r ffactorau yr ydych wedi'u nodi o bosibl fel ffactorau a gyfrannodd at bleidlais 'Ie' yn y refferendwm yw:

- poblogrwydd y llywodraeth Lafur newydd ei hethol
- y bleidlais 'ie' yn yr Alban yr wythnos cynt

- cyflymder pasio'r ddeddfwriaeth ar gyfer cynnal refferendwm yn Nhŷ'r Cyffredin
- ymgyrch 'na' wedi'i threfnu'n wael
- perthnasedd cynyddol hunaniaeth Gymreig.

Arweiniodd canlyniad y refferendwm at greu Cynulliad Cenedlaethol i Gymru. Yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru 1998, byddai gan y corff newydd hwn y nodweddion canlynol:

- Trigain Aelod Cynulliad (AC), a etholir drwy system aelod amgen (gweler Blwch 1).
- Byddai'r pwerau a oedd yn cael eu harfer gynt gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Swyddfa Gymreig yn cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad. Mae'r meysydd o gyfrifoldeb yn cynnwys amaethyddiaeth; diwylliant; datblygu economaidd; addysg a hyfforddiant; yr amgylchedd; iechyd; chwaraeon; datblygu economaidd; addysg a benthyciadau i fyfyrwyr; yr amgylchedd; iechyd; llywodraeth leol a thai; chwaraeon; gwasanaethau cymdeithasol; trafnidiaeth a'r iaith Gymraeg.
- Yn y meysydd polisi hyn, byddai'r Cynulliad yn cael pwerau is-ddeddfu. Golygai hyn y byddai pob deddf (deddfwriaeth sylfaenol) yn cael ei gwneud yn San Steffan o hyd; fodd bynnag, byddai'r Cynulliad yn gallu pennu rheolau a rheoliadau sy'n addasu'r ddeddfwriaeth i gyd-destun penodol Cymru.
- Cafodd y Cynulliad ei gynllunio i fod yn gorff 'corfforaethol'; golygai hyn y byddai'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd yn gyfrifol am gynnig, derbyn a chraffu ar benderfyniadau polisi, yn wahanol i'r rhaniad a welir yn y rhan fwyaf o gyfundrefnau gwleidyddol rhwng y weithrediaeth (y llywodraeth) a'r ddeddfwrfa (y senedd). Roedd y modwl hwn o lywodraethu wedi'i gynllunio i hyrwyddo consensws a chydweithredu rhwng pleidiau gwleidyddol.

Cynhaliwyd etholiad cyntaf y Cynulliad ar 6 Mai 1999. Mae Tabl 3 yn rhoi canlyniadau'r etholiad hwn ac etholiadau dilynol yn 2003 a 2007. Esbonnir y gwahaniaeth rhwng y bleidlais gyntaf a'r ail bleidlais yn yr etholiadau hyn ym Mlwch 1.

## Blwch 1 Yr hanfodion: system y cyntaf i'r felin o'i chymharu â systemau etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol

Yn y Deyrnas Unedig, caiff cynrychiolwyr i Dŷ'r Cyffredin eu hethol drwy ddefnyddio system etholiadol 'y cyntaf i'r felin'. Ym mhob etholaeth, rhoddir rhestr o ymgeiswyr yn cynrychioli gwahanol bleidiau gwleidyddol i'r pleidleiswyr. Mae'r pleidleisiwr yn pleidleisio i'w ddewis ymgeisydd, a bydd yr ymgeisydd sy'n ennill y nifer fwyaf o bleidleisiau yn yr etholaeth yn ennill y sedd. Mae'r 'enillydd sy'n cael y cyfan' yn etholiadau'r cyntaf i'r felin; nid oes gwobr i ymgeiswyr sy'n dod yn ail neu'n drydydd. Felly, er enghraifft, os bydd Ymgeisydd A yn ennill 40 y cant o'r bleidlais, a bod Ymgeisydd B yn ennill 39 y cant o'r bleidlais, Ymgeisydd A a gaiff ei ethol am ei fod/bod wedi ennill y nifer mwyaf o bleidleisiau. Defnyddir systemau etholiadol y cyntaf i'r felin yng Nghanada, UDA ac India hefyd.

Mae systemau etholiadol 'cynrychiolaeth gyfrannol' (PR) yn wahanol am eu bod yn ceisio cyfateb cyfran pleidlais plaid mor agos â phosibl i'w chyfran o seddau seneddol. Gadewch i ni ddychmygu bod system PR yn cael ei defnyddio i ethol cynrychiolwyr i Dŷ'r Cyffredin. Mewn egwyddor, os bydd plaid A yn ennill 40 y cant o'r holl bleidleisiau a fwriwyd yn y Deyrnas Unedig, bydd yn cael 40 y cant o'r cynrychiolwyr yn Nhŷ'r Cyffredin; Bydd Plaid B, sy'n ennill 30 y cant o'r pleidleisiau a fwriwyd, yn cael 30 y cant o seddau, ac ati. Felly gallwn ddweud bod nifer cynrychiolwyr plaid yn *gyfrannol* â nifer y pleidleisiau a gafodd.

Gellir gweld enghreifftiau o systemau PR yn yr Almaen ac Awstralia (er bod sawl math gwahanol o system PR yn bodoli).

Mae'r system etholiadol a ddefnyddir i ethol cynrychiolwyr i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn un *led-gyfrannol*, gan ei bod yn cyfuno elfennau o systemau Cyntaf i'r Felin a PR. Gelwir y system hon yn 'system aelodau ychwanegol', lle mae 40 o aelodau'r Cynulliad yn cael eu hethol drwy ddefnyddio'r Cyntaf i'r Felin, tra bod yr 20 arall yn cael eu hethol drwy ddefnyddio PR. Golyga hyn y bydd pob pleidleisiwr mewn etholiadau i'r Cynulliad yn cael dwy bleidlais. Caiff y *bleidlais gyntaf* ei bwrw i un ymgeisydd, sy'n cynrychioli etholaeth benodol, yn yr un modd ag y caiff cynrychiolwyr eu hethol i Dŷ'r Cyffredin (drwy roi X wrth ymyl enw dewis ymgeisydd yr etholwr ar y papur pleidleisio). Defnyddir yr *ail bleidlais* i ethol aelodau *ychwanegol* sy'n cynrychioli un o bum rhanbarth yng Nghymru. Yn hytrach na phleidleisio i ymgeisydd unigol, caiff y bleidlais ei bwrw i blaid wleidyddol; caiff y *seddau ychwanegol* hyn eu dyrannu mewn ffordd sy'n unioni unrhyw annhegwch yn y ffordd y dyrennir seddau etholaethau a enillwyd ar sail y Cyntaf i'r Felin (ceir fformiwla gymhleth iawn sy'n cyfrifo faint o seddau amgen y dylid eu dyrannu i bob plaid wleidyddol!). Mae systemau aelodau angen hefyd wedi cael eu defnyddio'n eang ledled y byd, gan gynnwys yn Seland Newydd.

### Tabl 3 canlyniadau etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 1999-2007

| | 1999 | | | 2003 | | | 2007 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plaid | Y Bleidlais Gyntaf (%) | Yr Ail Bleidlais (%) | Cyfanswm y Seddau | Y Bleidlais Gyntaf (%) | Y Ail Bleidlais (%) | Cyfanswm y Seddau | Y Bleidlais Gyntaf (%) | Y Ail Bleidlais (%) | Cyfanswm y Seddau | Y Bleid Gynt (%) |
| Llafur | 37.6 | 35.5 | 28 | 40.0 | 36.6 | 30 | 32.2 | 29.6 | 26 | 42.3 |
| Ceidwadwyr | 15.8 | 16.5 | 9 | 19.9 | 19.2 | 11 | 22.4 | 21.5 | 12 | 25 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 13.5 | 12.5 | 6 | 14.1 | 12.7 | 6 | 14.8 | 11.7 | 6 | 10.6 |
| Plaid Cymru | 28.4 | 30.6 | 17 | 21.2 | 19.7 | 12 | 22.4 | 21.0 | 15 | 19.3 |
| Eraill | 4.7 | 4.9 | 0 | 4.8 | 11.8 | 1 | 8.3 | 16.3 | 1 | 2.8 |
| Cyfanswm | 100.0 | 100.0 | 60 | 100.0 | 100.0 | 60 | 100.0 | 100.0 | 60 | 100 |

Wyn Jones a Scully (2004), t. 194; Scully ac Elias (2008), t. 105; wedi'i ddiweddaru drwy nodi canlyniadau 2011



Ffigur 18 Y tu mewn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru
Jeff Morgan/Alamy

Roedd gwleidyddion blaenllaw yn y blaid Lafur erioed wedi disgwyl mai 'process not an event' (Davies, 1999) fyddai datganoli i Gymru, a bod lle i newid ac addasu dros y

blynyddoedd. Fodd bynnag, cododd yr angen am newid ac addasu lawer yn gynt na'r disgwyl. Mewn byr amser daeth anfanteision y setliad cyfansoddiadol hwn i'r amlwg: o fewn blwyddyn ar ôl ei sefydlu, bu galw am ailystyried trefniadau sefydliadol a phwerau'r Cynulliad. Dechreuodd Comisiwn Richard, o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Llafur yr Arglwydd Ivor Richard, ar ei drafodion yn 2002 a chasglodd dystiolaeth helaeth ynglŷn â sut roedd y Cynulliad yn gweithio ym marn gwahanol grwpiau a grwpiau â buddiant. Cynigiodd adroddiad terfynol y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2004, y dylai'r setliad datganoli gwreiddiol gael ei diwygio'n sylweddol. Cafodd rhai o'r argymhellion hyn eu cynnwys mewn deddf newydd, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a oedd yn cynnwys y darpariaethau allweddol canlynol:

- rhoi'r gorau i'r syniad o 'gorff corfforaethol', ac yn lle hynny, cael rhaniad cliriach rhwng rôl y weithrediaeth (h.y. y Llywodraeth, yn gyfrifol am gynnig a gweithredu polisi) a'r ddeddfwrfa (y Cynulliad, yn gyfrifol am graffu ar weithgareddau'r Llywodraeth)
- pwerau newydd i'r Cynulliad ofyn am yr hawl i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei dirprwyo oddi wrth San Steffan.

Cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â dyfodol datganoli yng Nghymru pan grëwyd Confensiwn i Gymru Gyfan yn 2008 er mwyn ystyried ehangu pwerau'r Cynulliad ymhellach. Roedd sefydlu confensiwn o'r fath yn un o'r ymrwymiadau a wnaed gan Lafur a Phlaid Cymru ym mis Mehefin 2007 pan gytunwyd i ffurfio llywodraeth gyda'i gilydd. Un o brif amcanion Confensiwn Cymru Gyfan oedd asesu i ba raddau roedd cefnogaeth y cyhoedd yn symud tuag at bwerau deddfu llawn i'r Cynulliad. Byddai hyn yn rhoi pwerau deddfu sylfaenol i'r sefydliad ym mhob un o'r meysydd polisi a oedd wedi'u datganoli, er y byddai angen refferendwm newydd er mwyn i hyn ddigwydd. Fel rhan o'i waith, cynhaliodd Confensiwn Cymru Gyfan gyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru er mwyn casglu safbwyntiau'r cyhoedd yng Nghymru ynglŷn â phwerau pellach i'r Cynulliad. Cyflwynwyd argymhellion y Confensiwn i'r Cynulliad ym mis Tachwedd 2009. Awgrymodd y dystiolaeth a gasglwyd, pe bai refferendwm ar bwerau ychwanegol yn cael ei gynnal, y tybid y byddai pleidlais 'Ie' yn bosibl ond nid yn sicr (Confensiwn Cymru Gyfan, 2009).



Ffigur 19 Digwyddiad ar ffurf Question Time a drefnwyd gan Gonfensiwn Cymru Gyfan, Caerdydd 2009

Confensiwn Cymru Gyfan

## 8.2 Ehangu ymgysylltu a chyfranogi yng ngwleidyddiaeth Cymru

Magodd y term 'cynhwysol' ail ystyr yn ystod y trafodaethau yn y cyfnod cyn datganoli ac yn ystod blynyddoedd cyntaf datganoli, sef ‘a concern for fostering wider citizen participation in government and engagement with different social groupings’ (Chaney a

Fevre, 2001, t. 26). Yn yr ystyr hon, mae gwleidyddiaeth gymhwysol yn golygu grymuso a chynnwys grwpiau o bobl sydd wedi cael eu hymyleiddio neu eu hallgau o'r broses wleidyddol yn y gorffennol.

Yn yr Alban, roedd datganoli yn ymateb, yn rhannol, i alwadau gan y fath grwpiau heb bŵer am fwy o ymwneud â llywodraethu. I'r gwrthgyferbyniad, ni fu fawr ddim galw o'r fath yng Nghymru. O ystyried y diffyg brwdfrydedd am ehangu ymwneud democrataidd yn y fath fodd, yr her i'r Cynulliad oedd creu cyfleoedd newydd am ymgysylltu a chyfranogi torfol yn y broses wleidyddol. Rydym yn ystyried i ba raddau y llwyddwyd i wneud hynny yng ngweddill yr adran hon. Ceir ffocws yn benodol ar y graddau y mae datganoli wedi creu cymdeithas sifil fywiog yng Nghymru lle na fu un yn bodoli gynt. Gadewch i ni ddechrau drwy ddiffinio'r term allweddol hwn.

## 8.2.1 Diffinio cymdeithas sifil

Caiff y cysyniad o gymdeithas sifil ei grybwyll a'i drafod cryn dipyn ym myd gwleidyddiaeth ac yn aml caiff ei ddefnyddio gan academyddion a gwleidyddion i olygu pethau gwahanol iawn. Rwy'n defnyddio cymdeithas i olygu'r canlynol:

- Mae cymdeithas sifil yn cynrychioli maes penodol sydd ar wahân i'r 'wladwriaeth' (sefydliadau gwleidyddol, pleidiau gwleidyddol a sefydliadau gwleidyddol eraill) a'r 'farchnad' (sefydliadau cynhyrchu a dosbarthu, megis cwmnïau a busnesau).
- Mae cymdeithas sifil yn cynnig lle i unigolion a sefydliadau drafod, cyfnewid barn, a llunio barn ar faterion sy'n bwysig i gymdeithas gyfan. Mae cymdeithas sifil yn cynnwys sefydliadau megis elusennau, sefydliadau anllywodraethol, grwpiau cymunedol ac amgylcheddol, sefydliadau i fenywod, sefydliadau crefyddol a sefydliadau defnyddwyr, cymdeithasau galwedigaethol, undebau llafur, grwpiau hunangymorth, cymdeithasau busnes a grwpiau eiriolaeth.
- Yn bwysicach na dim, mae'r lleisiau a'r safbwyntiau hyn sy'n dod o gymdeithas sifil yn craffu ar weithredoedd y gymdeithas wleidyddol (y wladwriaeth) a'r gymdeithas economaidd (y farchnad), eu beirniadu a gwrthbwyso eu dylanwad a fyddai fel arall yn ormodol. Felly mae cymdeithas sifil yn cydbwyso grym y wladwriaeth- yn cynnig rheolaeth arni. Am y rheswm hwn, mae cymdeithas sifil fywiog yn aml yn cael ei hystyried yn elfen hanfodol i gymdeithas ddemocrataidd.

## 8.2.2 Gwleidyddiaeth gynhwysol drwy gymdeithas sifil fywiog

Ceir cytundeb cyffredinol rhwng ysgolheigion ym myd gwleidyddiaeth Cymru fod datganoli wedi creu cyfleoedd newydd i'r rhai mewn cymdeithas sifil ryngweithio â strwythurau'r llywodraeth yng Nghymru, a dylanwadu ar benderfyniadau polisi a wneir gan y Cynulliad. Mae fframwaith cyfreithiol y weinyddiaeth newydd ei datganoli yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad sicrhau bod egwyddor cyfle cyfartal i holl ddinasyddion Cymru wrth wraidd ei agenda wleidyddol. Ymatebodd y Llywodraeth i'r ddyletswydd hon drwy gyflwyno nifer o fentrau er mwyn meithrin cydberthnasau newydd â grwpiau wedi'u hymyleiddio a grwpiau lleiafrifoedd yng Nghymru. Mae'r rhwydweithiau' cydraddoldeb' a sefydlwyd, er enghraifft, yn cynnwys sefydliadau gwirfoddoli sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio. Mae'r rhain yn cynnwys Anabledd Cymru a Stonewall Cymru. Mae'r sefydliadau hyn wedi cael arian gan y Llywodraeth i dalu am aelodau newydd o staff i gefnogi ac ehangu eu gweithgareddau, ehangu eu haelodaeth a chyfrannu at drafodaethau ar wahanol bolisïau y mae'r Llywodraeth yn eu datblygu. Mae'r Isadran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gyfrifol am roi cyngor a chymorth i'r

Llywodraeth wrth iddi ddatblygu polisïau, cynnal deialog â chymunedau lleiafrifoedd a lledaenu arfer gorau.

Mae creu maes newydd o wneud penderfyniadau gwleidyddol yng Nghymru hefyd wedi sbarduno rhai grwpiau mewn cymdeithas sifil i ddatblygu strwythurau sefydliadol a strategaethau newydd er mwyn cael y dylanwad gwleidyddol mwyaf. Mae Oxfam, er enghraifft, wedi ail-frandio ei hun yn 'Oxfam Cymru' ac wedi neilltuo staff ac adnoddau ariannol newydd er mwyn lobïo 'r Llywodraeth (Royles, 2007, t. 109–10). At hynny, mae grwpiau ac unigolion cymdeithas sifil wedi ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i ryngweithio ag ACau a gweision sifil. Un grŵp sydd wedi bod yn hynod effeithiol o ran dylanwadu ar bolisïau yng Nghymru yw Cyfeillion y Ddaear Cymru; ceir crynodeb o'r amrywiol ffyrdd a ddefnyddiodd i gyflawni hyn yn Astudiaeth Achos 8.2. Mae grwpiau eraill wedi bod yr un mor weithgar o ran ceisio dylanwadu ar bolisïau yng Nghymru wedi datganoli.

> Women's and disabled people's groups have submitted written responses to key policy initiatives covering the breadth of the Welsh Government's work. They have presented papers to Assembly committees that have formed the basis of discussions between the group's representatives, AMs, committee advisors and officials [and] have been invited to join task groups to develop policies and implement strategies.
>
> (Betts et al., 2001, t. 70)

Mae'r dystiolaeth a ystyriwyd hyd yma yn awgrymu bod datganoli wedi llwyddo mewn gwirionedd i greu math newydd o wleidyddiaeth gynhwysol yng Nghymru. Mae materion cydraddoldeb yn fwy canolog i brosesau gwneud polisi yng Nghymru ac mae mwy o ymwneud â'r broses wleidyddol ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ac eraill mewn cymdeithas sifil.

Fodd bynnag, mae astudiaethau o gymdeithas sifil yng Nghymru wedi datganoli hefyd yn datgelu datblygiadau llai cadarnhaol. Mae gan rai sefydliadau cymdeithas sifil gydberthnasau agosach a mwy allgynhwysol â Llywodraeth Cymru nag eraill, a hynny, yn rhannol, oherwydd y gwahaniaethau rhwng sefydliadau cymdeithas sifil eu hunain. Er bod gan rai grwpiau, megis Oxfam Cymru a Chyfeillion y Ddaear Cymru, adnoddau da, nid yw hynny'n wir am eraill ac felly mae'n llawer mwy anodd iddynt gael perthynas â Llywodraeth Cymru. O ran y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a grwpiau sy'n cynrychioli grwpiau menywod a lleiafrifoedd ethnig, mae'r rhai wedi cael eu dominyddu gan elit bach o weithwyr proffesiynol dosbarth canol. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r sefydliadau hyn yn anwybodus o weithgareddau a materion sy'n bwysig i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru gan mwyaf (Betts a Chaney, 2004; Williams, 2004). Mae grwpiau ffydd y tu allan i brif ffrwd Cristnogaeth hefyd wedi ei chael hi'n anodd cael gwrandawiad teg gan y rhai yn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru (Day, 2006, t. 650). Mae'r holl enghreifftiau hyn yn awgrymu anghydraddoldebau mawr o ran grym a dylanwad rhwng sefydliadau cymdeithas sifil. Caiff grwpiau llai o faint, llai profiadol a mwy ymylol eu hallgau o'r rhyngweithio rhwng cymdeithas sifil a'r Cynulliad a'r Llywodraeth.

## Cyfeillion y Ddaear Cymru

Sefydliad rhyngwladol mawr yw Cyfeillion y Ddaear, a'i nod yw sbarduno pobl i wrthsefyll prosiectau a pholisïau sy'n niweidiol yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Mae'n cynnwys rhwydwaith o sefydliadau sy'n weithgar mewn gwahanol gyd-destunau

cenedlaethol a rhanbarthol. Yn y DU, mae Cyfeillion y Ddaear yn grŵp ymgyrchu amgylcheddol gweladwy a dylanwadol iawn.

Sefydlwyd Cyfeillion y Ddaear yn 1984 i ymgyrchu dros faterion amgylcheddol yng Nghymru. Yn sgil sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999 crëwyd ffocws newydd i weithgareddau'r sefydliad, yn enwedig gan y byddai'r corff newydd hwn yn gyfrifol am ddatblygu polisïau penodol i Gymru mewn meysydd allweddol o ddiddordeb i Gyfeillion y Ddaear (megis yr amgylchedd, datblygu economaidd, amaethyddiaeth a thrafnidiaeth). Ers 1999, mae'r sefydliad wedi bod yn effeithlon iawn o ran bwydo i mewn i brosesau llunio polisi datganoledig a dylanwadu arnynt yng Nghymru mewn sawl ffordd:

- paratoi papurau polisi ar amrywiol faterion (megis ynni adnewyddadwy a newid yn yr hinsawdd)
- cyflwyno adroddiadau a thystiolaeth i'r gwahanol bwyllgorau polisi yn y Cynulliad (er enghraifft, ar leihau carbon mewn trafnidiaeth)
- cyflwyno polisïau drafft i'r Cynulliad i'w trafod (er enghraifft, roedd polisi a oedd yn cyfyngu ar blannu cnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru a dderbyniwyd yn 2000 yn seiliedig ar gynnig gwreiddiol a gyflwynwyd gan Gyfeillion y Ddaear)
- ysgrifennu'n uniongyrchol at weinidogion perthnasol yn y llywodraeth, a chyfarfod â hwy, er mwyn cyflwyno eu dadl.
- ysgogi cynghreiriau eang i ennyn cefnogaeth y cyhoedd i wahanol ymgyrchoedd (megis llythyr agored a lofnodwyd gan nifer fawr o unigolion blaenllaw ac ACau o bob plaid yn cefnogi polisi dim GM i Gymru)
- comisiynu ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd hynod i ennyn cefnogaeth i faterion penodol (gweler Ffigur 20).




Ffigur 20 poster Cyfeillion y Ddaear Cymru y tu allan i'r Senedd.
Cyfeillion y Ddaear Cymru

Gellid hefyd ddadlau bod y Cynulliad a Llywodraeth Cymru wedi gwneud anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes yn waeth drwy ddatblygu cysylltiadau allgynhwysol â rhai sefydliadau ac nid eraill. Er enghraifft, roedd rhai pobl yn tybio bod Cymdeithas yr Iaith - carfan bwyso dros y Gymraeg - yn rhy ddadleuol, ac felly'n annerbyniol fel partner mewn trafodaethau polisi;_ o ganlyniad, dim ond mynediad cyfyngedig iawn a gafodd y grŵp at y rhai allweddol a oedd yn gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru (Royles, 2007, t. 95, t. 149).

Ceir tystiolaeth hefyd o gysylltiadau cryfach rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau cymdeithas sifil sy'n cael arian gan y Llywodraeth; dangoswyd bod gan y sefydliadau hyn gysylltiadau cryfach â gweinidogion y Llywodraeth a gweision sifil (Royles, 2007). Mae cydberthnasau o'r fath wedi cael eu disgrifio'n neo-gorfforaethol gan Royles. Nid yw **neo-**

**gorfforaetholdeb** yn dda i ddemocratiaeth, am sawl rheswm. Yn gyntaf, efallai na fydd grŵp sydd â chysylltiadau breintiedig â gwleidyddion yn gynrychioliadol o gymdeithas sifil ehangach. Yn ail, gall natur allgynhwysol y berthynas neo-gorfforaethol arwain at ragor o ymyleiddio ac allgau i grwpiau eraill mewn cymdeithas sifil. Mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi profi hyn, fel y dengys y datganiad gan AWEMA yn Narn 16 isod. Yn drydydd, mae'r ffaith nad yw sefydliadau breintiedig am beryglu eu perthynas â'r rhai mewn grym yn golygu y byddant yn ymatal rhag craffu ar weithredoedd y llywodraeth a chynrychiolwyr etholedig a'u beirniadu. Gall hyn fod yn arbennig o wir am sefydliadau neu rwydweithiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac nad ydynt am beryglu eu cyllid. Mae'r swyddogaeth graffu hon yn un o ofynion craidd democratiaeth sy'n gweithredu'n iawn.

## 8.2.3 Cyfleoedd newydd i gymdeithas sifil gyfranogi ar ôl 2006?

Felly hyd yma yn yr adran hon, mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth o gynwysoldeb mewn cysylltiadau rhwng cymdeithas sifil a Llywodraeth Cymru a ystyriwyd gennym yn canolbwyntio ar flynyddoedd cynnar datganoli. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, arweiniodd anfodlonrwydd ynglŷn â'r ffordd roedd datganoli yn gweithredu at ddeddf Llywodraeth Cymru newydd yn 2006; drwyddi, cafodd dull gweithredu'r Cynulliad ei addasu a chafodd ei bwerau i ddeddfu mewn meysydd polisi nweydd eu hymestyn (yn amodol ar gytundeb y ddau Dŷ yn San Steffan).

Drwy'r Ddeddf hon crëwyd cyfleoedd newydd i sefydliadau cymdeithas sifil ryngweithio â gwleidyddiaeth yng Nghymru, a dylanwadu arni, mewn dwy ffordd bwysig. Yn gyntaf, roedd y Ddeddf yn cynnwys darpariaeth i greu gweithdrefn ddeisebu newydd. Rhydd i aelodau'r cyhoedd yr hawl i ddeisebu'r Cynulliad – naill ai'n ysgrifenedig neu drwy ddefnyddio system e-ddeisebau ar-lein – a gofyn am i gamau gael eu cymryd yn y meysydd polisi hynny y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. Y grŵp cyntaf i gyflwyno deiseb o'r fath oedd Sefydliad Aren Cymru; gofynnwyd i'r Cynulliad ariannu ymgyrch ynglŷn â rhoi organau ac ymchwiliad i gydsyniad tybiedig i roi organau. Llwyddodd y ddeiseb hon i sicrhau arian am ymgyrch ynglŷn â rhoi organau, ac ysgogwyd Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o weithdrefnau trawsblannu organau yng Nghymru. Mae hon yn enghraifft dda o'r ffordd y gall system ddeisebu newydd alluogi grŵp cymdeithas sifil i dynnu sylw at faterion penodol, ac ysgogi camau gweithredu gwleidyddol.

Yn ail, mae'r ffaith bod y Cynulliad wedi cael cyfle i ddeddfu yn creu cyfleoedd pellach i'r rhai mewn cymdeithas sifil i lobio cynrychiolwyr etholedig er mwyn deddfu mewn meysydd polisi gwahanol. Er enghraifft, mae'r Cynulliad wedi ystyried gofyn am bwerau newydd i ddeddfu mewn meysydd megis iechyd meddwl a hawliau gofalwyr. Mae'r rhain yn amlwg yn feysydd polisi lle mae lle i grwpiau cymdeithas sifil geisio dylanwadu ar natur a chwmpas y pwerau newydd a geisiwyd. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd newydd hyn i ddylanwadu ar benderfyniadau, sefydlwyd mentrau newydd megis prosiect Lleisiau dros Newid Cymru. Mae wedi'i ariannu gan grant gan y Loteri Genedlaethol ac wedi'i noddi gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a'i nod yw ceisio helpu sefydliadau gwirfoddol i ddeall sut mae prosesau gwneud penderfyniadau yn gweithio yng Nghymru, datblygu sgiliau a hyder i ddylanwadu ar bolisïau a deddfwriaeth, a rhannu a dysgu am arfer gorau o ran meithrin cydberthnasau â Llywodraeth Cymru.

Ac eto, erys cyfyngiadau pwysig o hyd o ran cyflawni nod cynwysoldeb. Datgelodd arolwg o sefydliadau cymdeithas sifil gan Lleisiau dros Newid Cymru yn 2009, er bod consensws bod datganoli wedi gwella mynediad at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru, fod y mwyafrif a holwyd yn nodi nad oes ganddynt wybodaeth drylwyr o hyd ynghylch sut i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus neu'n effeithlon. Er enghraifft, roedd llai na 50 y cant o sefydliadau yn ymwybodol o'r broses ddeisebu, gyda chanran debyg yn

aneglur ynglŷn â sut i gyflwyno tystiolaeth i'r Cynulliad pan fydd cynigion ar gyfer pwerau deddfu newydd yn cael eu drafftio (Bradbury a Matheron, 2009). Felly mae tipyn o ffordd i fynd o hyd cyn bod partneriaeth wirioneddol gynhwysol rhwng cymdeithas sifil a Llywodraeth Cymru.

## 8.3 Casgliad

- Er i Gymru gael ei llwyr ymgorffori yn Lloegr yn yr unfed ganrif ar bymtheg, o ddechrau'r ugeinfed ganrif ymlaen sefydlwyd cyrff gweinyddol newydd i lunio a gweithredu polisïau penodol i Gymru.
- Arweiniodd y galw am system decach o gynrychiolaeth wleidyddol i Gymru at refferendwm aflwyddiannus ar ddatganoli yn 1979, ond gwelwyd twf yn yr anfodlonrwydd gyda dilysrwydd datganoli gweinyddol drwy gydol y 1980au a dechrau'r 1990au.
- Arweiniodd refferendwm llwyddiannus ar ddatganoli yn 1997 at greu Cynulliad Cenedlaethol i Gymru, gydag addewidion y byddai gwleidyddiaeth gynhwysol newydd yn datblygu yng Nghymru.
- Mae datganoli wedi bod yn broses yn hytrach na digwyddiad. Felly, ers 1999 bu newidiadau pwysig yn y ffordd y mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn gweithio a'u pwerau; mae'r dadleuon hyn yn parhau.
- Mae datganoli wedi cael rhai effeithiau democrataidd cadarnhaol yng Nghymru. Mae strwythurau newydd wedi cael eu creu i gael grwpiau a gafodd eu hymyleiddio gynt i fod yn rhan o'r broses wleidyddol. Cyfrannodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 at ddatblygu ymhellach gyfleoedd o'r fath i gymdeithas sifil gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau.
- Mae grwpiau cymdeithas sifil hefyd wedi datblygu strategaethau lobïo newydd er mwyn dylanwadu ar brosesau gwneud polisi Llywodraeth Cymru.
- Fodd bynnag, mae i ddatganoli rai goblygiadau democrataidd negyddol o bosibl hefyd. Mae gan rai grwpiau cymdeithas sifil fwy o adnoddau, tra bod eraill wedi cael perthynas freintiedig â Llywodraeth Cymru.
- Mae'r patrymau hyn o ryngweithio yn golygu bod risg y caiff allgau ac ymyleiddio eu hatgyfnerthu mewn cymdeithas sifil, gan beryglu natur gynhwysol gwleidyddiaeth yng Nghymru wedi datganoli, ac y caiff swyddogaeth graffu cymdeithas sifil ei thanseilio o ran Llywodraeth Cymru.
- Er bod datganoli wedi arwain at wahaniaethau mewn polisi rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig, canfyddir mai gwelliannau cyfyngedig iawn sydd wedi deillio o'r polisïau hyn mewn meysydd megis iechyd, addysg a safonau byw.
- Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae datganoli fel cyfundrefn lywodraethu, yn cael mwy o gefnogaeth ymhlith pleidleiswyr Cymru.

Dylai unrhyw gyfundrefn ddilys o gynrychiolaeth wleidyddol geisio sicrhau bod lleisiau pob dinesydd - waeth beth fo'u hoedran, lliw eu croen, eu rhyw, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hiaith - yn cael eu clywed yn yr un ffordd, a bod cynrychiolwyr etholedig sy'n gwneud penderfyniadau gwleidyddol ar ein rhan yn gwrando arnynt. Dylai cyfundrefn ddilys o gynrychiolaeth wleidyddol hefyd fod yn un sy'n arwain at benderfyniadau da sy'n cael effeithiau dymunol ar gymuned wleidyddol.

Ond fel y gwelsom yn yr uned hon, gall sicrhau cynrychiolaeth wleidyddol dda fod yn hynod anodd. Yng Nghymru, arweiniodd pryderon ynglŷn â'r ffaith bod lleisiau penodol yn cael eu hallgau o'r broses wleidyddol at alwadau am ddatganoli yn y 1960au a'r 1970au, ac unwaith eto, erbyn canol y 1990au. Roedd galwadau o'r fath hefyd yn seiliedig ar y canfyddiad bod anghenion a buddiannau pobl Cymru yn cael eu hanwybyddu i raddau helaeth gan lywodraethau olynol yn Llundain. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, cyfiawnhawyd cynlluniau datganoli Llafur Newydd ar y sail y byddent yn cyflwyno math gynhwysol newydd o wleidyddiaeth yn lle allgau gwleidyddol, lle y byddai unigolion a grwpiau a gafodd eu hymyleiddio yn y gorffennol yn cael cyfleoedd newydd i gymryd rhan yn y broses wleidyddol yng Nghymru a'u llywio. Drwy greu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999 rhoddwyd fframwaith i greu gwleidyddiaeth gynhwysol o'r fath, ac i sefydlu cyfundrefn o lywodraethu da.

Rydym wedi ystyried y graddau y mae datganoli wedi llwyddo i gyflawni'r nod hwn. Ar yr un llaw, mae camau cadarnhaol gan bleidiau gwleidyddol Cymru yn golygu bod Cymru yn arwain y byd o ran cynrychiolaeth menywod. Mae'r Cynulliad hefyd wedi cymryd ei ymrwymiad i 'gyfle cyfartal' o ddifrif ac wedi creu strwythurau newydd i'w gwneud yn haws i sefydliadau cymdeithas sifil gyfrannu at drafodaethau ynglŷn â pholisïau a deddfwriaeth. Mae sefydliadau cymdeithas sifil wedi ymateb i'r cyfleoedd newydd hyn drwy ddatblygu strategaethau newydd i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru ac Aelodau'r Cynulliad.

Ar y llaw arall, mae llai wedi cael ei wneud i sicrhau bod grwpiau lleiafrifoedd eraill yn cael eu cynrychioli yn y Cynulliad ac nid yw system etholiadol rannol gyfrannol wedi arwain at sbectrwm ehangach o grwpiau gwleidyddol yn cael eu hethol. Yn hyn o beth, mae datganoli wedi methu â chreu system o gynrychiolaeth ddisgrifiadol o bell ffordd. Mae ymwneud cymdeithas sifil mewn prosesau gwneud polisi wedi datganoli hefyd wedi bod yn anghyfartal; mae grwpiau â llai o adnoddau wedi ei chael hi'n anodd bod yn lobïwyr effeithiol dros bolisïau, tra bod y rhai sy'n llunio polisïau yng Nghymru hefyd wedi bod yn barotach i wrando ar rai grwpiau nag eraill. Mae'r broses o lunio polisïau yng Nghymru yn dal i fod yn hynod gymhleth hefyd.

Rydym hefyd wedi ystyried dilysrwydd y setliad datganoli o safbwynt dilysrwydd allbynnau. Unwaith eto, cymysg yw'r darlun. Er bod polisïau yng Nghymru wedi bod yn wahanol i rannau eraill o'r DU mewn ffyrdd arwyddocaol o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed gan y Cynulliad, ceir canfyddiad cyffredino nad yw'r polisïau hyn wedi cael effaith fawr ar economi na chymdeithas Cymru. Er nad yw'r hyn y mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn gwneud argraff fawr ar bleidleiswyr yng Nghymru, eto i gyd maent yn cefnogi datganoli fel trefn lywodraethu well i Gymru.

Gallai'r arsylwadau hyn beri i rai ddod i'r casgliad nad yw datganoli wedi arwain at system well o gynrychiolaeth wleidyddol yng Nghymru. Gallent ddadlau, er mwyn ategu'r safbwynt hwn, fod y Cynulliad wedi methu â chreu gwleidyddiaeth wirioneddol gynhwysol ac wedi methu â gwella lles economaidd a chymdeithasol pleidleiswyr yng Nghymru. Byddai fy nghasgliadau fy hun yn llai negyddol. Fel datganoli, mae'r dasg o sicrhau cyfundrefn well a mwy dilys o gynrychioliaeth wleidyddol ehangach yn broses yn hytrach na digwyddiad. Mae camau pwysig eisoes wedi cael eu cymryd i ehangu a dwysau cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd yng Nghymru, er bod datganoli hefyd wedi cael ei dderbyn bellach fel y mynegiad gwleidyddol priodol o'r ffordd y mae pobl yng Nghymru yn dymuno cael eu llywodraethu. Mae gwaith i'w wneud o hyd er mwyn ychwanegu at gynwysoldeb ac effaith polisïau 'a wnaed yng Nghymru' Llywodraeth Cymru. Ond mae datganoli wedi rhoi Cymru ar ben ffordd tuag at sicrhau cyfundrefn fwy dilys o gynrychiolaeth wleidyddol.

# 9 Cynrychiolaeth ddiwylliannol

*Steve Blandford*

Yn yr adran hon byddwn yn ystyried rhai o'r ffyrdd pwysig y mae Cymru wedi cael ei chynrychioli neu ei phortreadu, ym myd sinema ac ar y teledu, yn ddiweddar. Edrychwn ar yr effaith y mae hyn wedi'i chael ar fywyd y wlad a'r ffordd y mae Cymru yn cael ei 'dychmygu' o fewn ffiniau Cymru a thu hwnt.

Fel man cychwyn, un ffordd o feddwl am y ffordd y portreadir unrhyw wlad yw drwy'r syniad o 'ddychmygu 'gwlad i fodolaeth. Mae Imagined Communities Benedict Anderson (1983) yn llyfr sydd wedi chwarae rhan allweddol mewn ymdrechion i esbonio'r syniad o 'genedlaetholdeb' yn gyffredinol a rôl diwylliant i greu gwlad yn benodol. Mae syniadau Anderson o bwys canolog i'r ffordd rydym yn edrych ar y ffordd y caiff Cymru ei phortreadu yn yr adran hon.

Gellir dadlau bod y syniad o 'ddychmygu' ein cymuned o ddiddordeb penodol i bobl sy'n byw mewn lleoedd lle mae creu gwlad (neu ei chreu'n rhannol) wedi digwydd yn ddiweddar iawn drwy'r broses o ddatganoli, ond lle mae'r 'syniad' o wlad wedi bodoli'n llawer hirach ac mewn ffyrdd sydd wedi helpu i ffurfio bywydau'r rhai sy'n byw yno mewn ffyrdd dwfn.

## 9.1 Sinema a Chymru

I lawer o bobl, bydd y ffordd y mae Cymru wedi cael ei phortreadu ym myd sinema bob amser yn gysylltiedig i ryw raddau ag addasiad Hollywood o nofel Richard Llewellyn *How Green Was My Valley*(cyfarwyddwr John Ford) yn 1941, a enillodd Wobr yr Academi am y ffilm orau. I Kate Woodward, 'Ford's film spawned a million clichés about terraced streets and black faced miners, singing on their way home from the pit ... Ford's Welsh valley, created in the San Fernando Valley in Malibu, was sanitized of all traces of dust and dirt, and Hollywoodized beyond all recognition' (Woodward, 2006, t. 54–5).

Fodd bynnag, yn ystod y 1990au ac yn y cyfnod ers datganoli bu ymdrechion mawr yn Gymraeg ac yn Saesneg i greu diwylliant sinema cyfoes yng Nghymru a oedd yn osgoi ystrydebau o'r fath ac a oedd yn anelu at ymdemlad mwy amrywiol o'r wlad a'i lle newydd yn y byd.

### 9.1.1 Cymru a'r Oscars

O ran sinema yn Gymraeg, efallai nad yw mor hysbys ag y dylai fod bod dwy ffilm yn Gymraeg wedi cael ei henwebu am Wobrau'r Academi yn y categori Ffilm Iaith Dramor Orau yn ystod y 1990au, sef: *Hedd Wyn* (cyf. Paul Turner, 1992) a *Solomon a Gaenor* (cyf. Paul Morrison, 1998). I ryw raddau mae'r ffaith i'r ddwy ffilm gael y sylw byd-eang sy'n gysylltiedig ag enwebiad 'Oscar' yn eiliad arwyddocaol o ran portreadu Cymru yn rhyngwladol. Fe wnaeth nid yn unig dynnu sylw at fodolaeth diwylliant ffilm pwysig ac unigryw yng Nghymru, ond at y Gymraeg nid yn unig fel iaith fyw, ond un a oedd yn ffynnu ac yn cael ei defnyddio mewn ffurfiau celfyddydol cyfoes.

Gwnaeth y ddwy ffilm ddefnyddio iaith a'i potensial i rannu fel rhan o'u testun hefyd. Yn *Hedd Wyn*, caiff y prif gymeriad, y bardd Elis Evans (Huw Garmon) ei orfodi i ymuno â'r fyddin Brydeinig er mwyn ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ystod ei hyfforddiant sylfaenol, mae defnydd Evans o'r Gymraeg yn destun dirmyg a gwawd gan swyddogion a

rhyngellod o Saeson, rhywbeth y mae'r ffilm yn ei ddefnyddio'n eironig iawn wrth i'r bardd ifanc farw tra'n gwasanaethu'r Ymerodraeth Brydeinig ar grib Pilken yng Ngwlad Belg yn 1918. Mae defnydd o iaith yn *Solomon a Gaenor* hyd yn oed yn fwy cymhleth, yn enwedig gan i ddau fersiwn 'cefn wrth gefn' gael eu gwneud - un yn Saesneg yn bennaf, un yn Gymraeg yn bennaf, a cheir mwy o gymhlethdod eto oherwydd y defnydd o Iddeweg yn y ddau fersiwn gan fod y ffilm wedi'i lleoli ar adeg o gythrwfl sifil yng nghymoedd y de a oedd yn gysylltiedig â gwrth-Iddewiaeth. Mae'r ffilm wedi taro tant nid yn unig i Gymru ddwyieithog, ond i DU sy'n ymgodymu â'r nifer fawr o hunaniaethau ethnig ac ieithoedd yn ei phoblogaeth.

Gellir dadlau bryd hynny bod y ddwy ffilm hyn wedi cyfrannu at y ffordd roedd Cymru a'r Gymraeg yn cael eu gweld yn rhyngwladol, ond roedd eu dosbarthiad cymharol gyfyngedig yn y DU wedi cyfyngu ar yr effaith hon.

## 9.1.2 Adfywiad ffilmiau Cymreig?

O ran sinema Saesneg yng Nghymru, ymddangosai fel petai 1997 yn mynd i fod yn drobwynt. Rhyddhawyd tair ffilm nodwedd eithaf proffil uchel gan gyfarwyddwyr ifanc ac ymddangosai fel petai addewid o egin-ddiwylliant ffilm a fyddai'n ymestyn yn raddol bresenoldeb Cymru ym myd sinema rhyngwladol. Roedd *House of America* (cyf. Marc Evans), *Twin Town* (cyf. Kevin Allen) a *Darklands* (cyf. Julian Richards) yn wahanol iawn i'w gilydd o ran naws a thestun, ond roedd pob un yn ceisio 'ailddarllen' rhai o'r ffyrdd traddodiadol o weld Cymru fel y'u cafwyd yn nhraddodiad *How Green Was My Valley*

O'r tair, *Twin Town* (Ffigur 21) a gyrhaeddodd y gynulleidfa fasnachol fwyaf ac mae ei brand o hiwmor amharchus wedi sicrhau ei bod yn dal i werthu cryn nifer o DVDs. Fodd bynnag, nid oedd pawb yn fodlon ar ei phortread o Gymru a'r Cymry, ac mae ei hysbyslun ar-lein yn rhoi amcan o'i hymagwedd tuag at unrhyw syniad traddodiadol o ddiwylliant Cymru:

> Rugby. Tom Jones. Male Voice Choirs. Shirley Bassey.
>
> Llanfairpwllgyngyllgogerychwyndrobwllllantisiliogogogoch.
>
> Snowdonia. Prince of Wales. Anthony Hopkins. Daffodils. Sheep.
>
> Sheep Lovers. Coal. Slate quarries. The Blaenau Ffestiniog Dinkey-
>
> Doo Miniature Railway. Now if that’s your idea of thousands of years of Welsh culture, you can’t blame us for trying to liven the place up a little can you?
>
> (*Twin Town*, 1997)




Ffigur 21 Poster *Twin Town* (cyf. Kevin Allen, 1997)

Archif Ronald Grant

Mae'n eithaf amlwg felly bod y ffilm yn edrych ar yr elfennau traddodiadol o bortreadu Cymru mewn ffordd amharchus, rhywbeth a ddigiodd nifer o bobl, gan gynnwys clerigwyr a Bwrdd Croeso Cymru (Morris, 1998, t. 27).

I wrthbwyso'r feirniadeth hon, dadleuodd eraill fod *Twin Town* yn nodi aeddfedrwydd diwylliannol newydd wrth i Gymru ddod yn ddigon hyderus i chwerthin am ben parodi o'i heiconau diwylliannol ei hun yn debyg i'r ffordd y cafodd y Gwyddelod eu portreadu yn y gyfres ddrama deledu *Father Ted* (Perrins, 2000).

Roedd *House of America* yn bortread llawer mwy cynnil o hunaniaeth Gymraeg a oedd yn newid. Roedd y ffilm, a addaswyd gan Ed Thomas o'i ddrama lwyfan o'r un enw, unwaith eto'n defnyddio rhai o'r ystrydebau arferol i bortreadu Cymru - teulu, cymuned pwll glo, y fam - a chraffu arnynt mewn ffordd farddonol drwy gyfrwng obsesiwn y prif gymeriad gydag agweddau allweddol ar ddiwylliant Americanaidd. Unwaith eto, gwelir hen Gymru yn darfod o'r tir a brwydr i ddychmygu un newydd, y tro hwn, brwydr sy'n digwydd yn erbyn cefndir diwylliant Americanaidd hollbresennol o'n hamgylch.

Dywedodd cyfarwyddwr *House of America*, Marc Evans, ‘In some ways *House of America* and *Twin Town* were not the first of a new generation of films but the last of the old’ (Evans, 2002, t. 290–1) yn yr ystyr eu bod yn dal i ymhél ag ystrydebau o hen Gymru, hyd yn oed wrth iddynt eu tanseilio. O ystyried hynny, yna efallai y gallwn ystyried ffilm ddiweddarach a llai sylweddol, *Human Traffic Justin Kerrigan* (1999), fel y ffilm nodwedd Gymreig gyntaf i wir gefnu ar y gorffennol a chynnig ffordd newydd o ddychmygu bod yn ifanc ac yn Gymry wrth i ni nesau at y milieniwm. Nodwyd yr ymgais hon i gefnu ar bortreadau traddodiadol y gorffennol yn un o'r adolygiadau cynnar o'r ffilm:

> Just as *Trainspotting* makes a clean break with the traditional Scotland of tartanry and kailyard, of Scott and Barrie, so *Human Traffic* turns its back on the Wales of male voice choirs and the whimsical humour of *The Englishman Who Went Up a Hill But Came Down a Mountain*... it seems more like an American picture than a British one ...
>
> (French, 1999)

O'r braidd bod *Human Traffic* yn ymwneud â phortreadu hunaniaeth genedlaethol mewn unrhyw ffordd amlwg. Mae'n dangos grŵp o ffrindiau ifanc mewn swyddi heb ddyfodol wrth iddynt ysu am y penwythnosau sy'n cael eu treulio yn y sîn clybio hedonaidd a oedd yn nodweddiadol ar ddiwedd y 1990au. Mae'r ffaith ei bod wedi'i lleoli yng Nghaerdydd yn

hytrach na Llundain, Birmingham neu Fanceinion fel petai'n cynnig y syniad bod Cymru yn dechrau rhoi'r gorau i synfyfyrio ar hunaniaeth hanfodaethol hŷn ac yn hytrach na hynny y gall ei phob ifanc deimlo cysylltiad â diwylliant rhyngwladol ehangach.

I ryw raddau roedd y cyfnod ar ddiwedd y nawdegau yn gyfnod o addewid wag yn yr ystyr nad yw nifer y ffilmiau nodwedd sy'n dod o Gymru wedi cynyddu yn ôl y gobaith. Eto i gyd, cafwyd enghreifftiau pwysig o ffilmiau a oedd yn ceisio edrych unwaith eto ar fywyd yng Nghymru mewn ffyrdd a wnaeth gyfraniad sylweddol tuag at y ffordd roedd y wlad yn gweld ei hun yng nghyd-destun ei grym gwleidyddol newydd. Gorffennwn yn yr adran hon drwy edrych ar un o'r rhain oherwydd y ffordd benodol y ceisiodd y ffilm hon fynd ati i archwilio hunaniaeth Gymreig.

## 9.1.3 *A Way of Life* a hunaniaethau Cymreig 'newydd'

Mae *A Way of Life* yn enghraifft brin o naratif ffuglennol sy'n craffu ar hunaniaeth Gymreig mewn perthynas â phoblogaethau ethnig y wlad. Cafodd y ffilm, a ryddhawyd yn 2004, ei gwneud gan Amma Asante, merch a gafodd ei magu yn Streatham yn ne Llundain gan rieni a anwyd yn Ghana. Daeth cysylltiad Asante â Chymru drwy briodas ei brawd â merch o Gymru a'u plant a oedd, yng ngeiriau Asante ei hun, 'half of everything you could possibly imagine' (Blandford, 2004, t. 15).

Roedd hunaniaethau ethnig a hiliol cymhleth ei nith a'i nai yn rhan o gymhelliant Asante i wneud ffilm sy'n ymwneud yn benodol â'r rhyngweithio rhwng ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol. Daeth rhan arall o'i theimlad cychwynnol o Gymru, yn enwedig Caerdydd, fel man lle roedd mwy o gytgord hiliol na gweddill y DU oherwydd ei hanes hir o amlddiwylliannaeth, cyn sylweddoli nad oedd hynny'n wir wrth iddi ddod i'w hadnabod yn well (Blandford, 2004).

Mae plot y ffilm yn troi o amgylch llofruddiaeth dyn mewn cymuned yn y de gan grŵp o bobl ifanc yn eu harddegau, gan gynnwys mam sengl, ifanc Leanne (Stephanie Wililams) sy'n dod yn brif gymeriad y ffilm. Mae'r dyn a lofruddiwyd yn hanu o Dwrci'n wreiddiol ac mae wedi byw yng Nghymru ers tri deg mlynedd. Mae'r ffilm yn gignoeth wrth ymwneud â chreulondeb y llofruddiaeth a'r agweddau hiliol difeddwl ymhlith y bobl ifanc sy'n cyfrannu ati, ond mae'n feiddgar yn yr ystyr ei bod yn gwneud i ni deimlo cydymdeimlad â thrafferthion bywydau'r bobl ifanc.

Mae hon yn aml yn ffilm boenus i'w gwylio ac mae'n portreadu'r rhannau hynny o'r de yr effeithir arnynt yn fawr iawn o hyd gan ddad-ddiwydiannu fel mannau anodd iawn i dyfu i fyny. Ar y llaw arall, mae'n ffilm sy'n ddigon dewr i edrych ar wreiddiau hiliaeth mewn ffordd onest a chignoeth. Gellir dadlau bod y ffaith i'r ffilm gael ei lleoli yng Nghymru, gyda chymorth ariannol gan y Loteri, drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, yn arwydd cadarnhaol o ddiwylilant iach sy'n gallu ystyried ei broblemau o'r tu mewn yn hytrach na dibynnu ar hen fythau i'w chynnal ei hun.

### Gweithgaredd 26

Cymerwch saib ac ystyriwch sawl gwaith rydych wedi gweld cymeradau sy'n Gymry nad ydynt yn wyn ar y sgrin. A allwch feddwl am enghreifftiau mewn ffurfiau celfyddyol eraill, er enghraifft, mewn llenyddiaeth?

#### Discussion

Un o'r pethau cymhleth ynglŷn â thrafod y ffordd y caiff unrhyw wlad ei phortreadu yw'r man lle mae'r portread, yn yr achos hwn portread o Gymru, yn cyffwrdd â phortread o agwedd arall ar hunaniaeth. Mae'r syniad o fod yn ddu ac yn Gymro neu'n Gymraes yn

amlwg yn un hollol naturiol, ond mae'n dimensiwm ar y ffordd y caiff Cymru ei phortreadu sy'n cael ei esgeuluso o hyd i ryw raddau.

Nawr darllenwch y darn hwn gan Martin McLoone sydd yn aml wedi ysgrifennu am fyd sinema yn Iwerddon, ond sydd yma'n cymhwyso'r un fath o feddwl tuag at bob un o'r gwledydd Celtaidd. Mae'n awgrymu bod sinema o Gymr (a'r gwledydd Celtaidd eraill) 'on the cutting edge of contemporary cultural debate about identity'. Wrth i chi ddarllen Darn 17, ystyriwch i ba raddau rydych yn cytuno â'r awgrym o ran yr hyn a wyddoch am sinema o Gymru.

## Darn 17

Like *Divorcing Jack*, Kevin Allen's Swansea-set *Twin Town* (1997) elects to tackle stereotypes and cinematic clichés directly. As its already bizarre plot rushes towards a climax of melodramatic excess and bad taste, central icons and cultural markers of Welsh identity (rugby, community and male-voice choirs) are lampooned into absurdity. *Twin Town* – anarchic, populist, youth orientated – contrasts with the more meditatively inclined group of Welsh language films. At the centre of the films is the place of the Welsh language itself and indeed, the most impressive aspect of the Welsh language films in general has been the total confidence they demonstrate in the contemporary relevance of the ancient tongue.

In Endaf Emlyn's *Un Nos Ola' Lewad*/*One Full Moon* (1991) the relationship between the English and Welsh language is a factor in the crisis of identity that faces the films protagonist, an unnamed boy (Tudor Roberts). In the village school, the children speak English and are encouraged to associate English with access to power and influence – the Welsh speaking children are clearly seen as objects of exploitation and in the case of one young girl, of sexual exploitation as well. The boy is asked to read a passage of English by the school master and the local Anglican canon. He performs the task well enough in a halting, cautious manner but pronounces the word 'society' according to Welsh phonetics. This reduces his superiors to laughter. Society, the film suggests, just like community, culture and history, is recognised through the language that describes it.

It would be wrong though to see Welsh language cinema as an unthinking nationalist response to dominant English culture or one that collapses the complexities of identity into dubious essentialist categories. *Un Nos Ola' Lewad* is as critical of the oppressive aspects of Welshness as it is of English superiority and is especially scathing about the negative impact Welsh fundamentalist religion has had on women and the young. (In this it dovetails with a tendency in recent Irish cinema which similarly attacks the abuses of religion, especially as those were visited on the young and on women). In his next film, *Gadael Lenin*/*Leaving Lenin* (1994), Emlyn considerably lightens the mood. Here, he explores contemporary Welsh identity through the device of removing the Welsh characters from Wales itself to post-Soviet Russia. A group of Welsh speaking sixth formers go on an educational visit to Saint Petersburg, accompanied by their art teacher Eileen (Sharon Morgan) and the old style Welsh Communist husband Mostyn (Wyn Bowen Harries) the deputy head-master Mervyn (Ifan Huw Dafydd) with whom Eileen had a weekend affair once

before, who also travels hoping that as the marriage seems to be unravelling, the affair can be resuscitated. The mix-up on the train between Moscow and St Petersburg splits teachers from students and the film contrasts the two groups' adventures in parallel narratives. The dialogue is in Welsh, Russian and English and this is one aspect of the film's audacity and ambition.

Here the minority language, which has such a low profile internationally that the Academy doubted its very existence, is vying for public space with two of the great imperialist languages of the world, engaging at the same time with themes and issues of global as well as of local importance.

The foreign location adds an extra dimension to the underlying theme of Welsh identity and the film explores this to great effect through the sense of loss and disillusionment that Mostyn feels at the collapse of the Soviet Union. Perhaps the moist poignant theme of all, reflecting early 1990s concerns, is the confusion and dilemmas that face today's young people, whether the youth of St Petersburg adrift in a post-Soviet Russia or those struggling to adulthood in post-Thatcherite Wales. The film proposes a need for new beginnings – whether personal, political or artistic. The irony of the film's message is that at least Mostyn in his youth had political ideals that allowed him to imagine and work towards a new beginning.

This is a privilege, the film suggests, which today's young don't have and must work for.

In this way, the Welsh films resemble some aspects of recent Irish cinema. As the traditional belief systems wither away, religion, patriotism, political beliefs – the loss of something to believe in, especially the loss of political hope – is particularly debilitating.

This sense of loss is evident in Paul Morrison's *Soloman and Gaenor* (1998), which returns to the pre-World War One Wales of both *Hedd Wyn* (1992) and *The Englishman Who Went up a Hill But Came down a Mountain.* This is a complex historical moment for Wales. At the beginning of the 20th century, it still carried its identity as an industrial force of nineteenth century British expansion but was also about to assume a central role in the radical and progressive labour politics of the 20th century. Within this complex, the film plays out a Romeo and Juliet scenario – the Jewish Saloman hiding his identity behind an English facade to woo Gaenor from a fundamentalist Christian community. In the tragedy that unfolds, the film is again scathing about the impact the fundamentalist religion has on the lives of young people in particular (in this case, both orthodox Jewish as well as Protestant Christian).

But this is more than just a Welsh cry of 'a plague on both your houses'.

In identifying some aspects of the cinema from the Celtic fringes, we are identifying a cinema that has a double focus. These films are concerned to explode myths and move beyond the regimes of representation that have tended to romanticise and to marginalise the Celtic fringe. Dominant cinema portrayed the Celtic countries as regressive and primitive and if this portrayal was sometimes amiable and sometimes hostile, it was always patronising. However, a second focus of this cinema has been inwards, exploiting the rationalist responses to the representation of the centre. This has meant that the films reflect an uncertainty, an exploration that is as conscious of internal contradiction as it is of larger external realities. Above all, this is a cinema that

> refuses to operate on the margins. These are cultures that are no longer content to be the peripheral and exploited partners in a strict cultural division of labour. In fact this new cinema has pushed peripherality in to the centre and now operates on the cutting edge of a contemporary cultural debate about identity.
>
> McLoone, 2009, t. 354–6

Mae dadleuon Martin McLoone yn gymwys yn benodol i'r math o sinema lle mae awduron a chyfarwyddwyr yn cael rhywfaint o ryddid i arbrofi a chyflwyno safbwyntiau. Yn yr adran nesaf, sy'n trafod teledu, edrychwn at y ffordd y caiff Cymru ei phortreadu mewn diwydiant sy'n tueddu i gyfyngu ar y rhai sy'n gweithio ynddo ychydig yn fwy, ond fel y gwelwn, daw cyfraniadau pwysig hefyd tuag at ymdeimlad newydd o Gymru.

## 9.2 'Ffugchwedlau' teledu a Chymru

O ran nifer y bobl sy'n gallu eu gweld, y portreadau o Gymru ar y teledu sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol a thebygol o bell ffordd. Yn yr adran hon, edrychwn yn benodol ar y ffordd y mae rhaglenn ffuglennol yn arwyddocao o ran portreadu Cymru.

Ar ddechrau'r degawd, bu'n gŵyn gyson yng Nghymru bod y wlad yn cael ei gweld yn llawer rhy brin ar raglenni teledu Prydeinig, hyd yn oed o gymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon (gweler Blandford, 2005). Roedd teimlad hirsefydlog (sy'n bodoli o hyd ymhlith rhai) bod Cymru fel gwlad, ac felly fel cynhyrchydd teledu a ddarlledir, yn cael ei thrin yng nghanolfannau grym gyda llawer mwy o amheuaeth a diffyg ymddiriedaeth na gwledydd a rhanbarthau eraill y DU.

Mae achos drama yn Gymraeg yn wahanol am ei bod yn cael ei chynhyrchu i raddau helaeth yng Nghymru, i gynulleidfaoedd o Gymru, ond mae'n deg dweud, yn hynny o beth, fod problem wahanol wedi codi. Ar ddiwedd y 1990au, ystyriwyd bod portreadau S4C o Gymru yn aml yn hen ffasiwn ac yn gul (gweler, er enghraifft, Gramich, 1997, tu. 106).

Er y byddai'n camliwio'r sefyllfa pe honnid bod popeth wedi trawsnewid dros ddegawd, yn sicr mae'n bosibl honni erbyn hyn bod amrywiaeth ac ansawdd portreadau o Gymru mewn rhaglenni teledu yn y ddwy iaith wedi gwella ac yn debygol o wella ymhellach.

### 9.2.1 Adfywiad dramâu S4C

Mae Sianel Pedwar Cymru (S4C), y sianel deledu a sefydlwyd yng Nghymru yn 1982 i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg wedi comsiynu sawl cyfres ddrama yn ystod y degawd diwethaf, sydd, o leiaf, wedi ehangu'r ffordd y mae drama yn portreadu bywyd lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith.

Ymhlith y cynyrchiadau drama amlycaf ar S4C sydd wedi trawsnewid canfyddiad pobl o ddelwedd y sianel mae: *Fondue, Sex a Dinosaurs* (2002–3), *Caerdydd* (2004), *Con Passionate* (2005–8) ac *Y Pris* (2008–9). Er eu bod yn wahanol iawn i'w gilydd, y thema gyffredinol a welir yn y rhain a nifer o gyfresi eraill yw'r ymdeimlad o Gymru sydd newydd fagu hyder a Chymru ifanc yn bennaf.

I'r gwrthwyneb, roedd un o ddramâu mwyaf llwyddiannus S4C yn ystod y cyfnod hwn – *Con Passionate*– yn defnyddio syniad canolog sydd wedi bod yn gysylltiedig â Chymru yn aml yn y gorffennol ac sydd wedi newid o ran arwyddocâd wrth bortreadu'r Gymru sydd ohoni, Mae cyfweliad ag awdur y rhaglen yn awgrymu hyn pan ddywed ‘I was eager to

take an iconic image of Wales, such as a male voice choir and use it as a backdrop to say something about contemporary Wales' (Con Passionate, 2009).

Er eu bod yn llai dyfeisgar yn ffurfiol na *Con Passionate, mae'r bedair cyfres o Caerdydd* wedi dangos y ffordd y mae prifddinas Cymru wedi newid ac wedi dod yn gartref i ddosbarth o bobl ifanc sy'n byw mewn fflatiau ac sydd â ffordd o fyw sy'n gysylltiedig â diwylliant dinesig cynyddol Ewrop. Er nad yw'r rhaglen wedi bod at ddant pawb, o ran portreadu Cymry Cymraeg, mae'n newid sylfaenol gweld drama hirhoedlog wedi'i lleoli ymhlith fflatiau, bariau a chlybiau nos Caerdydd yn hytrach nag yng nghefn gwlad.

Mae *Y Pris*, a elwid '*The Sopranos* by the seaside' i ryw raddau yn stori gyfarwydd am deulu o droseddwyr, ond y peth annisgwyl yw ei bod wedi'i lleoli yn sir Gâr. Fel y gyfres arall a drafodir yma, mae ei defnydd o'r Gymraeg o fewn strwythur ffuglennol hynod gyfoes yn cyfrannu at ehangu'r ffordd y mae'r dimenswm hwn ar fywyd cyfoes yng Nghymru yn cael ei ailddychmyngu.

Mae'r hyn sydd gan y dramâu hyn gan y S4C i'w ddweud yn unigol yn llai arwyddocaol o bosibl na'r ffaith eu bod yn arwydd o allu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau drama hynod gyfoes. Maent, yn eu tro, yn portreadu Cymru fel gwlad ddwyieithog gyda llawer o hunaniaethau gwahanol yn hytrach na'r syniad hen ffasiwn mai i ardaloedd gwledig y gogledd a'r gorllewin y perthyn y Gymraeg.

Os mai *Pobol y Cwm* yw cyfres ddrama fwyaf hirhoedlog S4C o hyd (a ddechreuodd yn 1974), sef drama BBC Cymru i S4C am fywyd pentref gwledig, gall y sianel honni'n eithaf sicr erbyn hyn ei bod wedi comisynu amrywiaeth o waith sy'n awgrymu nad yw'r Gymraeg yn cael ei chyfyngu i'w hen gadarnleoedd mwyach.

## 9.2.2 *Dr Who* a *Torchwood* – BBC Cymru a llwyddiant ar y rhwydwaith

Yn 2004, cafodd un o raglenni blaenllaw'r BBC, *Dr Who*, ei hadfywio. Yn bwysicach na hynny, at ein dibenion ni, penderfynwyd mai BBC Cymru yng Nghaerdydd fyddai'n gyfrifol am gynhyrchu'r gyfres. Roedd yn rhan o benderfyniad cyffredinol y BBC i wario mwy o'i gyllideb gomisynu yng 'ngwledydd a rhanbarthau' y DU. Yn yr adran hon byddwn yn ystyried arwyddocâd y ffordd y mae Cymru yn cael ei phortreadu mewn dwy gyfres ffugwyddonol, *Dr Who* a *Torchwood*, sy'n defnyddio lleoliadau yng Nghymru yn bennaf.

Mae'r dyfyniad canlynol gan gyfarwyddwr cyffredinol y BBC, Mark Thompson mewn cyfweliad yn y *Western Mail* yn fan cychwyn defnyddiol: 'We wondered whether Wales could be portrayed as modern and forward looking and Torchwood is the answer. It's obviously Welsh and it's sexy, modern and fantastic' (Price, 2007).



Ffigur 22 Seren *Torchwood* John Barrowman y tu allan i ganolfan *Torchwood* ym Mae Caerdydd

BBC

Er bod Thompson ond yn sôn am un rhaglen, mae ei sylwadau yn amlwg yn arwyddcaol o ran holl gwestiwn y ffordd y caiff Cymru ei phortreadu, yn enweid yn yr ystyr fyd-eang. Ymddengys mai safbwynt Thompson ar y dechrau oedd nad yw Cymru yn wlad sy'n gysylltiedig â natur fodern, yn enwedig o natur sy'n gwerthu rhaglenni teledu 'sexy'. Iddo ef, o leiaf, mae'r ffaith bod *Dr Who* a *Torchwood* yn benodol wedi bod yn llwyddiannus wedi newid hynny.

Ond os caiff sylwadau didaro o'r fath eu hystyried yn dystiolaeth wan, mae'n werth nodi yma, ar adeg ysgrifennu, mai Caerdydd yw safle arfaethedig 'pentref drama' y BBC fel canolfan ar gyfer cryn dipyn o gynyrchiadau drama rhwydwaith y BBC. Mae'r BBC eisoes wedi symud un arall o'i brif gyfresi, y gyfres feddygol hirhoedlog *Casualty*, i Gaerdydd yn ogystal â chomisiynu rhagor o *Dr Who*, *Torchwood* a nifer o brosiectau drama newydd sy'n cael eu datblygu.

Wrth gwrs, nid yw pawb yng Nghymru yn argyhoeddedig. Er mor broffil uchel yw *Dr Who* a *Torchwood* wrth reswm, mae'n anochel mai dim ond rhai agweddau ar fywyd Cymru y maent yn eu portreadu, sy'n golygu bod eraill yn cael eu hanwybyddu. Gellid hefyd ddadlau, er bod y rhaglenni'n cael eu gwneud yng Nghymru, nad ydynt yn portreadu bywyd Cymru na lledaenu ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig i gynulleidfa ehangach.

Ar y llaw arall, fel yr aeth astudiaeth ddiweddar (Mills, 2008) ati i ymchwilio, drwy wneud rhaglen broffil uchel mewn lleoliad penodol gellir cyfrannu at ymdemlad o hunaniaeth sy'n datblygu mewn ffyrdd eraill. Ystyrir y pleser a deimlwn o weld y man lle rydym yn byw yn cael ei ddangos ar y teledu yn erthygl Brett Mills ‘My house was on Torchwood: media, place and identity’. Mae ymdeimlad, er mor fach, fod arwyddocad a gwerth yn cael ei roi i'r bywyd lle rydych yn byw mewn byd sy'n cael ei ddominydu gan ddelweddau ar gyfryngau. Yna, gyda pheth amheuaeth, gallwn weld bod llwyddiant proffil uchel diweddar mewn cyfresi drama teledu wedi cynyddu proffil Cymru, yn enwedig Caerdydd. Wrth wneud hynny, mae wedi newid yr amrywiaeth o ffyrdd y gellir ystyried Cymru o fewn ffiniau'r wlad a thu hwnt i'r wlad.

## 9.2.3 Gavin and Stacey

Er nad yw'n cael ei wneud yng Nghymru, mae cyfres gomedi'r BBC *Gavin and Stacey* (2007) yn cynnig un portread o Gymru a'r Cymru sydd wedi cyrraedd y proffil uchaf posibl.

Dywedodd Rob Brydon, un o brif actorion y rhaglen *Gavin and Stacey*, 'What it's done is create a version of Wales that's palatable to everyone, something which I don't think anyone's managed before' (Jewell, 2009, t. 62).

Mae'n debyg bod sylwadau Brydon yn deillio o natur wresog a hael anarferol y gyfres, yn nhyb y rhan fwyaf o bobl, o fewn genre sydd wedi mynd yn gynyddol sinigaidd a dibynnol ar gellwair ymosodol. Os yw hynny'n golygu bod *Gavin and Stacey* yn ymddangos ychydig yn diddrwg-didda, mae'n werth ystyried y farn hon gan un o gymeriadau mwyaf adnabyddus y gyfres o bosibl sy'n dod o Gymru:

> Large and masculine, sexual and feminine, Nessa's Welshness is overt and tangible, with her upper arm decorated with a tattoo of a Welsh dragon. It can be reasonably argued that Nessa is a breakthrough character in British situation comedy history – here is a woman who is unconventionally attractive, sexually voracious and clearly independent of any male influence.
>
> (Jewell, 2009, t. 63)

I ryw raddau, mae creu cymeriad Nessa (Ruth Jones) yn nodweddiadol o allu *Gavin and Stacey* i wyrdroi disgwyliadau. Os yw comedi sefyllfaol confensiynol wedi defnyddio merched mwy o faint fel cyff gwawd yn draddodiadol, yna mae *Gavin and Stacey* yn gosod un yng nghanol pob peth. Gellir dadlau, o bosibl, fod Cymreictod Nessa yn eilaidd i'r hyn sydd ganddi i'w ddweud am rywedd, ond mae'r ffaith bod Ruth Jones, merch sy'n amlwg yn dod o Gymru, nid yn unig yn chwarae'r cymeriad ond sydd hefyd yn gyd-awdur ar y gyfres yn gwneud cyfraniad pwerus i newid canfyddiadau nid yn unig o'r amrywiaeth o bosibiliadau i ferched mewn comedi sefyllfaol, ond i hunaniaeth Gymreig hefyd.

Mae *Gavin and Stacey* yn cynnig gweledigaeth o Gymru drwy gyfrwng comedi hynod lwydiannus sy'n cynnwys llawer o nodweddion traddodiadol Cymru – cymuned leol gadarn, cysylltiadau teuluol agos ac ati. Yn wir, mae'r cymeriadau yn *Gavin and Stacey* yn cynnig portreadau o fywyd yng Nghymru sydd, yn eu tro, yn wresog, yn hael ac yn hynod wyrdroedig.



Ffigur 23 Ruth Jones, Rob Brydon, a Joanna Page mewn llun i Comic Relief 2009. Roedd y digwyddiad hwn yn cynnwys fersiwn o 'Islands in the Stream', o dan deitl newydd '(Barry) Islands in the Stream', gan Brydon a Jones ar ôl i'r gân ymddangos yn *Gavin and Stacey*, gan godi proffil y gyfres hyd yn oed yn fwy.

© Lluniau Doug Peters/Empics Entertainment/Cymdeithas y Wasg

## 9.3 Casgliad

- Mae gwneuthurwyr ffilm cyfoes wedi tueddu i weithio yn groes i rai o'r portreadau sinematig hŷn yng Nghymru, a nodweddwyd gan *How Green Was My Valley*.

- Mae sinema cyfrwng Cymraeg wedi chwarae rhan i bortreadu Cymru fel diwylliant dwyieithog drwy ei llwyddiannau bach yn rhyngwladol.
- Bu sinema yn ran o broses o bortreadu Cymru a bywyd Cymreig fel rhan o ddiwylliant trefol rhyngwladol.
- Mae gan sinema ryw fath o ryddid i ystyried rhai o'r agweddau mwy anghysurus ar gymdeithas gyfoes, megis rôl hiliaeth yng Nghymru.
- Mae gan deledu y pŵer i ddosbarthu portreadau o ddiwylliant neu gymuned yn eang. Gellir dweud felly bod iddo arwyddocâd penodol mewn unrhyw drafodaeth o'r ffordd y portreadir cenedl fach fel Cymru.
- Mae'r ffyrdd y mae teledu yn portreadu Cymru wedi ehangu'n sylweddol yn ystod y cyfnod ers datganoli.
- Mae'n werth nodi drama iaith Gymraeg ar S4C am y ffordd amrywiol y mae wedi ymateb i wyneb newydd y Gymru gyfoes.
- Mae llwyddiant rhyngwladol proffil uchel rhaglenni teledu allweddol a wneir gan y BBC yng Nghymru fwy na thebyg wedi arwain at rai newidiadau yn y ffordd y mae'r wlad yn cael ei hystyried nid yn unig gan y diwydiant teledu, ond gan y gynulleidfa ehangach.

Rydych wedi gweld y gall y syniad o bortreadu fod yn arbennig o bwysig i genedl fach megis Cymru sy'n cael anhawster i godi llais yn y byd a chael eraill i wrando arni. I lawer, mae Cymru yn anweladwy o dan y syniad mwy cyffredinol o'r DU neu 'Brydain'.

Gall y delweddau a'r naratifau am Gymru sy'n cael eu lledaenu yn y cyfryngau ac mewn ffurfiau diwylliannol poblogaidd fod yn rhan hollbwysig o greu ymdeimlad bod gan y wlad ddatganoledig ran i'w chwarae yn y byd. Gall hyn, yn ei dro, fod yn rhan o greu ymdeimlad o hyder cenedlaethol bod gan hunaniaeth Gymreig arwyddocâd gwirioneddol.

Mae hyn yn sicr yn gydnaws â meddylwyr cyfoes sy'n defnyddio cysyniadau megis 'dychmygu'r genedl' er mwyn cyfleu'r syniad nad rhywbeth sefydlog yw hunaniaeth genedlaethol na rhywbeth y mae angen ei hailddatgan o hyd ond, yn hytrach, rhywbeth sy'n datblygu ac sy'n cael ei ffurfio.

Mae rhan o'r broses hon o ailddychmygu yn cael ei gwneud gan artistiaid, ond hefyd gan y cynulleidfaoedd sy'n ymddiddori mewn gwaith sy'n cynnwys elfennau a all gyfrannu at hunaniaeth cenedl. Felly nid yw'r broses yn un oddefol, yn hytrach, mae'n ddeinamig ac yn rhywbeth y gallwn i gyd gymryd rhan ynddi, er mor ddiarwybod fo hynny.

Rydych hefyd wedi gweld bod hunaniaeth a diwylliant cenedl yn cael eu mynegi'n aml ac yn fwyaf croyw drwy ' bethai cyffredin' neu'r 'banal', hynny yw, y pethau cyffredin sy'n rhan o ddefodau ein bodolaeth.

Yn y degawd ers datganoli, bu newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff Cymru ei phortreadu. Mae rhai o'r rhain o ganlyniad i artistiaid a chwmnïau yn ailddychmygu'r wlad, weithiau wedi'i hysbrydoli gan y syniad o rywfaint o annibyniaeth wleidyddol a'r hyn y mae rhai yn cyfeirio ato fel statws 'ôl-drefedigaethol' Cymru.

Mae rhai newidiadau o ganlyniad i ddatblygu neu greu sefydliadau 'cenedlaethol', y mae rhan o'u swyddogaeth yn ymwneud â phortreadu Cymru yn wlad ar wahân ac iddi hunaniaeth unigryw. Mae'r rhain yn cynnwys Amgueddfa Genedlaethol Cymru, y BBC a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Fodd bynnag, bydd arwyddocâd rhai newidiadau i'r ffordd y caiff Cymru ei gwel yn y byd allanol bob amser yn destun dadlau. Mae llwyddiant rhyngwladol *Dr Who* a *Torchwood*yn drobwynt i lawer o ran hunaniaeth newidiol Cymru, a fydd yn sicrhau bod Cymru yn cael ei

gweld fel gwlad lle y gall ffurfiau cyfoes ar greadigrwydd ffynnu. I eraill, nid oes fawr ddim cyswllt rhwng y rhaglenni hyn a bywydau'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru.

Yn yr un modd, mae sefydlu theatrau cenedlaethol yn y ddwy iaith yn gam pwysig i lawer o ran ehangu'r 'sgwrs genedlaethol' a chynnig cyfleoedd i artistiaid aros yng Nghymru a chwarae rhan i'w chreu. Mae eraill yn credu bod Cymru yn ailadrodd syniadau hen ffaswn ynghylch beth yw 'cenedl' drwy greu sefydiadau hen ffasiwn.

Yr hyn y gellir ei haeru yw, erbyn hyn, fod llawer mwy o amrywiaeth yn y ffyrdd y caiff Cymru ei phortreadu yn y byd yn fwy cyffredinol. Efallai nad yw'r hen ystrydebau cenedlaethol y cyfeiriodd Ed Thomas atynt wedi darfod amdanynt, ond bellach mae'n rhaid iddynt gystadu â'r syniad bod Cymru yn wlad lle ceir dinasoedd bywiog yn ogystal â chymunedau gwledig o dan fygythiad, dawnswyr ac artistiaid perfformio yn ogystal â chwaraewyr rygbi gwych ac, yn anad dim, ymdeimlad o'r genedl wedi'i hailddychmygu hyd yn oed os yw economeg y cyfryngau yn yr 21ain ganrif yn golygu y bydd bob amser yn anodd i leisiau gael eu clywed.

# 10 Casgliad y cwrs

*Hugh Mackay*

Yn ystod y cwrs hwn, rydych wedi ystyried llawer o bynciau, y mae pob un ohonynt yn helpu i ddangos y priodwedau sydd wedi creu Cymru fel y mae heddiw.

Byddwch wedi darganfod:

- sut mae rygbi'r undeb yn brif ffocws hunaniaeth genedlaethol
- pam mae Cymreictod yn golygu llawer mwy na daearyddiaeth yn unig – mae'r diwylliant, yr iaith a ffactorau eraill oll yn chwarae eu rhan hefyd
- sut mae economi Cymru wedi addasu ac wedi datblygu wrth i ddiwydiannau ffynnu, darfod a chael eu disodli.
- sut mae hil a rhyw yn agweddau pwysig ar wahaniaeth yng Nghymru, sut mae polisïau wedi mynd i'r afael â hwy, a chyfyngiadau'r polisïau hyn.
- rhai ffyrdd allweddol y mae'r Gymraeg yn uno ac yn rhannu
- sut mae mudiad cenedlaetholgar Cymru wedi chware rhan allweddol nid yn unig o ran yr iaith a gwleidyddiaeth Plaid Cymru, ond o ran dylanwadu ar y Blaid Lafur.
- sut mae traddodiadau llafur wedi ymwreiddio'n ddwfn yng ngwleidyddiaeth a diwylliant Cymru
- sut mae pobl yng Nghymru ac yn y Blaid Lafur, wedi ystyried San Steffan mewn ffyrdd gwahanol, ond bu datganoli a ffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i lywodraeth yn 1999 yn gam mawr ar y llwybr tuag at berthynas newydd a thrawsnewidiol.
- twf cynhyrchu ffilmiau a theledu yng Nghymru, gyda sianel deledu S4/C a rhaglenni megis *Doctor Who* yn dangos y genedl mewn goleuni modern, newydd o amgylch y byd.

Mae Cymru fel cenedl wedi dod yn fwy amlwg ac mae ei phobl yn fwy hyderus o ran eu hunaniaeth genedlaethol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn sgil datganoli. Fodd bynnag, fel y byddwch wedi darllen, mae llawer o faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn cyflawni uchelgeisiau ei harweinwyr. Efallai ei bod yn rhan fach o'r Deyrnas Unedig, ond mae Cymru yn wlad ac iddi ei hunaniaeth ei hun ac – yn llythrennol, gyda'r iaith – ei llais ei hun.

Gellir dod o hyd i ragor o gyrsiau a chymwysterau yn Gymraeg yma.

# Glossary

### Allgáu cymdeithasol

Mae'n cyfeirio at ymyleiddio economaidd, diwylliannol a chymdeithasol unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae'n disgrifio canlyniadau hirdymor tlodi lle mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn profi cyrhaeddiad addysg gwael, canlyniadau iechyd gwael a thai o safon isel.

### Cenedlaetholdeb ethnig

mae'n ymdemlad o berthyn i genedl sy'n cael ei ddiffinio drwy ddiwylliant a thras, ond nid tras enetig o reidrwydd.

### Cyfalaf cymdeithasol

mae'n golygu'r rhwydweithiau y mae pobl yn perthyn iddynt sy'n cynhyrchu adnoddau i gyflawni eu dibenion.

### Cyfalaf diwylliannol

mae'n golygu y wybodaeth, y sgiliau a'r addysg sydd gan unigolion.

### ‘Cyfleoedd bywyd’

mae'n derm sy'n gysylltiedig â'r cymdeithasgwr Max Weber. Mae'n cyfeirio at ddisgwyliadau arferol gwobrwyo, cyfleoedd ac amddifadedd a wynebir gan rywun yn ystod ei fywyd. Mae cymharu cyfleoedd bywyd yn fodd i asesu anghydraddoldebau rhwng gwahanol fathau o unigolion a grwpiau.

### Datganoli

mae'n broses lle mae awdurdod gwleidyddol yn cael ei drosglwyddo o lywodraeth ganolog i lefel (ranbarthol) is o lywodraeth.

### Democratiaeth

